ECO'R WYDDFA

RHIF 306 RHAGFYR 2003 PRIS 40c

Yn y rhifyn hwn, gwelwch gyfarchion Nadolig busnesau **Cwm-y-glo, Deiniolen** a **Llanberis**.

Yn rhifyn Nadolig/Ionawr, bydd cyfarchion busnesau **Llanrug, Caeathro, Waunfawr** a **Bethel** yn ymddangos.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR A PHRYNWCH YN LLEOL Y NADOLIG HWN!

LLONGYFARCHIADAU

Gwobr am hel miloedd at achosion da

MAE un o drigolion Bro'r Eco wedi ennill gwobr arbennig am ei chyfraniad i'r gymuned. Mewn cinio mawreddog y mis diwetha cafodd Haf Thomas, o Lanrug, ei chyflwyno gyda thlws Pencampwr Cymundedol Gogledd Cymru.

Fe gafodd y wobr mewn seremoni oedd wedi ei threfnu i ddweud diolch wrth bobol, ar hyd a lled Gogledd Cymru, oedd wedi gwneud cyfraniad arbennig i'r gymuned. Haf oedd 'pencampwraig y pencampwyr' am ei gwaith diflino i godi arian at achosion da.

Roedd cannoedd o bobol wedi eu henwebu gan elusennau, darllenwyr papurau lleol Gogledd Cymru a busnesau. Ond fe benderfynodd beirniaid y gystadleuaeth – oedd yn cael ei threfnu gan 'Scottish Power' a Gwasg Annibynol Gogledd Cymru – roi'r wobr i'r ferch o Lanrug. Mae Haf, sy'n gweithio i Gyngor Gwynedd, wedi codi dros £4,500 i elusennau.

Dywedodd ei ffrind, Brenda Brown, o Fethel, ei bod yn wych am godi arian ac yn dod a staff y cyngor at eu gilydd bob Nadolig i ffurfio côr.

'Dros y blynyddoedd mae Haf wedi codi dros £4,500,' meddai. 'Hebddi hi fyddai pobol ddim yn dod at eu gilydd i godi arian. Hi'n sy'n trefnu bob dim.

'Mae hi'n boblogaidd iawn a heb air drwg i'w ddweud am neb.'

Yn y gorffennol mae Haf wedi codi arian i Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd; Unicef; Tŷ Gobaith; Ysbyty Eryri; Tŷ Enfys ac Apêl Afganistan. Cafodd y tlws ei gyflwyno iddi gan yr actoress Alex Fletcher, oedd yn chwarae rhan Jackie Dixon yn y ddrama sebon *Brookside*, yn y noson wobrwyo yn Kinsale Hall Hotel, yn Mostyn.



Y Grŵp Dawnsio Disgo buddugol, Tŷ Eryri, gyda'u hyfforddwraig, Melissa Ward. (Yr hanes a mwy o luniau'r Eisteddfod ar dudalennau 24 a 25).

Gwefan Cwm y Glo

Michael Roberts o Gwmni Delwedd hefo criw o'r disgyblion yn dathlu lansio gwefan ysgol Cwm y Glo. (Yr hanes ar dudalen 13).

ECO'R WYDDFA

RHIF 306
RHAGFYR 2003

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tîm Golygyddol
d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON
Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH
Arwel Jones

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd, Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650788)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
DEINIOLEN: Mrs Margaret Cynfi Griffith, (870394)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt (870740)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Deunydd i law'r golygyddion erbyn nos
NOS LUN, RHAGFYR 8
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, RHAGFYR 18

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Nadolig / Ionawr	8 Rhagfyr	18 Rhagfyr	Ysgol Brynrefail	Eifion Jones (Prifathro)	672381

Llythyrau

Sycharth
Llanberis

Diolch gan blant Chernobyl

Annwyl Olygydd
Daeth saith o blant bach difreintiedig Belarus, sy'n dioddef gwahanol afiechydon oherwydd trychineb Chernobyl, draw i Ogledd Cymru am fis er mwyn ceisio gwella rhywfaint ar eu hanwylderau. Cartrefwyd y saith gyda theuluoedd o'r ardal, a daeth un o'r plant, sef Yulya draw atom ni i Sycharth, Llanberis.

Hoffem yn awr ddiolch o galon i'r holl gyfeillion, yn oedolion a phlant (rhy niferus o lawer i'w henwi), am yr anrhegion hael a dderbyniodd Yulya ganddynt. Diolch hefyd i Ysgol Gynradd Cwm y Glo ac i Ysgol Dolbadarn, Llanberis am eu cefnogaeth a'u haelioni tuag at Yulya.

Yn olaf carem ddiolch i'r canlynol am eu caredigrwydd a'u parodrwydd i hyrwyddo gwaith yr elusen *'Chernobyl Children's Lifeline'* pan gynhaliwyd cyngerdd yn Capel Coch, nos sul, Hydref 19: Côr Meibion Dyffryn Peris; Lleisiau Lliwedd; Dr William Munro; y Parchg John Pritchard a'r Aelod Seneddol, Mr Hywel Williams. Diolch hefyd i swyddogion Capel Coch a thrigolion Llanberis a'r cylch am eu cefnogaeth. Gwnaethpwyd elw o £300 sydd eisoes wedi ei drosglwyddo i Mr a Mrs Terry Mcdaid, Lloches, Waunfawr, sef Ysgrifennydd a Thrysorydd Cangen Gogledd Cymru o'r elusen uchod.

Bert ac Ann Parry

Allt Riwth
Llanrug

Annwyl Syr/Fadam,
O bryd i'w gilydd gwelir yn y wasg ddiolchiadau gan gyngleifion am eu gofal a'u meddyginiaeth yn yr ysbytai, ond anfynych y gwelwn werthfawrogiad o waith meddygon lleol a'u cynorthwywyr.

Dyma ni felly yn datgan ein diolchgarwch a'n gwerthfawrogiad ni i feddygon Meddygfa Llanrug a'r Waunfawr am eu gofal a'u hymgeledd caredig ac i'r gweinyddesau ymroddgar, medrus a serchog, ac yn olaf ond nid yn lleiaf, i'r derbynesau llawen ac amyneddgar fyddant bob amser yn paratoi i ni y cyffuriau cywir ar fyrder.

Nadolig Llawen iddynt oll, gan obeithio na chaf bigyn yn fy nghlust tra bydd Nyrs Carol yn sgleisio'i thwrci.

Yn ddiffuant,
John, Joan a Siôn R. Williams

---

11 Rhos Lwyn
Llangefni
LL77 7QA

Annwyl Olygydd,
Hoffwn ddatgan fy niolch i Mr Glyn Tomos a phawb arall a oedd yn gysylltiedig â'r gwaith hir a dyfal o sicrhau safle fwy teilwng i gofeb Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru.

Y bwriad gwreiddiol oedd cynnwys englyn ar y gofeb, a lluniwyd un i'r pwrpas gan fy ewythr, Caledffrwd, sef y diweddar Morris D. Jones, Llanrug.

Roedd Morris yn hen chwarelwr ei hun ac, yn 1915, bu'n llygad dyst i ddamwain angeuol i'w dad, pan ollyngodd y graig oddi tano tra yn paratoi i saethu. Pymtheg oed oedd Morris ar y pryd.

Ni roddwyd yr englyn ar y gofeb, ac fel y gellid meddwl, roedd yn bur siomedig ar y pryd, ond mi wnaeth ei chynnwys yn ei lyfr *Englynion* a gyhoeddwyd yn 1972.
Dyma'r englyn:

Craig yr Undeb

Hen randir cewri'r undeb – a llwyfan
Lle bu llef uniondeb;
Yma'n trin eu trychineb
Bu eofn wŷr, heb ofn neb.

Yn gywir iawn
Owen Jones

RHODDION

£10: Mrs E. Williams, Cerrig yr Afon, gynt o 13 Deiniol Road, Deiniolen; Emlyn a Kathleen Jones, 3 Ffordd Glanffynnon, Llanrug. Ronnie a Doris Evans, Gwynfryn, 4 Ffordd Glanffynnon, Llanrug; Olwen Jones, Y Garth, Ceunant.

£8: John Roberts, Darren Paul a Jason, 18 Goodman Street, Llanberis.

£5: Dilys Jones, 4 Bryn Hyfryd, Cwm-y-glo. Mrs Marjorie Roberts, Bod Gwilym, Cwm-y-glo. Buddug Wakeham, 8 Stryd Newton, Llanberis; Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc, Brynrefail; Ifan W. Williams, Garreg Wen, Rhosmeirch, Llangefni; Mrs Blodwen Pritchard, 10 Llys y Gwynt; Mrs Sally Griffith, 16 Bryntirion; Betty Roberts, Meifod, Ffordd yr Orsaf, Llanrug; Wyn Griffiths, Tan-y-Fron, Lôn Groes, Llanrug; Mrs Nell Thomas, 1 Cefn Elan, Llanrug; Nerys ac Evan, Bethel; Mary Catherine Jones, Tan y Caerau, Clwt-y-bont, Deiniolen.

£3: Mrs Catherine Williams, 20 Bryntirion; Mrs Ceridwen Williams, 25 Hafan Elan, Llanrug.

£2: Dafydd Wyn Orritt, 7 Blaen y Ddôl, Llanberis.

EMYR JONES
PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau
44 Glanffynnon, Llanrug
CAERNARFON 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: (01286) 650291
Ar Agor
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Dewis eang o Welyau a *3P/Suites.* Llenni *Venetian* a Llenni *Roler.* 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?
GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

O SIAMBAR SELWYN

Un diwrnod y bydda i yn ceisio ei gadw'n rhydd bob blwyddyn ydi'r diwrnod gwobrwyo, neu y diwrnod ffarwelio, yn fy hen ysgol ym Methel. Rwy'n gwerthfawrogi'r gwahoddiad dwi wedi ei gael dros y blynyddoedd gan y gwahanol brifathrawon, ac mi fydda i'n edrych ymlaen at gael mynd yno bob blwyddyn.

Dwi ddim yn nabod yr un o'r plant bellach, ond fe ddaw'r hen atgofion am Ysgol Bethel, dros ddeng mlynedd a thrigain, yn ôl i mi bob blwyddyn. Ydi, mae pethau wedi newid.

Rai blynyddoedd yn ôl, wrth wneud gwaith ymchwil i gyfraniad Rhys J. Huws (sylfaenydd Eisteddfod y Plant) i blant Bethel a Chymru, bu'n ofynnol i mi astudio llyfrau log fy hen ysgol dros y cyfnod y bu Rhys J. Huws yn weinidog ar eglwys Bethel. Roedd yr ymchwil yn ddiddorol, er mai yn Saesneg y cofnodwyd y cyfan. Gwasanaethodd Rhys J. Huws ar Fwrdd Rheolwyr Ysgol Bethel dros gyfnod ei weinidogaeth yn yr ardal, a mynnodd sicrhau'r gorau i'r plant cyn belled ag yr oedd addysg yn y cwestiwn. Gwelir o'r dyfyniadau o'r llyfrau log mor egnïol oedd ei sêl a'i frwdfrydedd dros bob agwedd o addysg – o safbwynt addysgol, iechyd, sicrhau athrawon o safon, diddori a denu plant bach, a sefydlu llyfrgell yn yr ysgol. Fel y dywedodd y ddiweddar Ceridwen Gruffydd wrtha i:

> 'Ni wn i faint o seicoleg plentyn a fu'n astudio, ond credaf ei fod yn deall plant yn reddfol. Yr oedd ef ei hun mewn llawer ffordd yn debyg i blentyn (*child-like*, nid *childish*). Gallai ymddoddori mewn pethau bach a gweld gwerth mewn profiadau syml.'

Nodaf rai o'r dyfyniadau yn Saesneg fel y gwelir hwy yn Llyfr Log yr Ysgol, yn llawysgrifen yr ysgolfeistr ar y pryd – Mr G.R. Hughes. Gyda llaw, athro yn ysgol Llanuwchllyn oedd Mr Hughes cyn dod i Fethel, ac fe briododd un o ferched y Prys, sef chwaer i Elin, a ddaeth wedi hynny yn wraig i O.M. Edwards.

Llun, 20 Ebrill 1896:
Visited this morning by the Rev Rhys J. Huws of Barmouth who is about to undertake the pastorate of our Congregational Church. Being an ex-schoolmaster himself, he appeared deeply interrested.

Iau, 25 June 1896:
A holiday this afternoon, – the Recognition Services of the Rev Rhys J. Huws as pastor being held at Bethel Chapel.

Gwener, 29 January 1897:
Had to close this afternoon owing to a tea party being held at Bethel Chapel, an event I could not hope to compete with.

Sylwais fod yr ysgol yn cau yn aml i ddilyn unrhyw weithgarwch eglwysig a ddigwyddai, fel cymanfa, cwrdd gwobrwyo, a.y.y.b.

Mercher, 14 April 1897:
Prize meeting held at Bethel Chapel. Full audience and a varied programme. 85 children in all were rewarded, 26 of whom got medals having made full time.

Gwelir cyfeiriadau at sefydlu Llyfrgell yn yr ysgol yn aml:

Tachwedd 25 1898:
Sometime ago the Rev Rhys J. Huws presented us with a copy of 'The National Cyclopedia' to form a School Library, and today again there came a parcel of 17 very suitable volumes from Mr D. Edwards, Manager of Daily News (who is an old pupil of this school). He also enclosed 7 beautiful and very costly volumes to be awarded to the best child in each standard. Brisk demand of books from school library.

Pwy oedd Mr Edwards ys gwn i?

Mawrth 24 1899:
Our annual Prize Meeting was held this evening at Cysegr Chapel – the Rev R.J.H. in the chair. £3.5.9. was received for admission, which will be spent in the purchase of additional books for the School Library, and a rocking horse or some such toy for the babies room.

Mai 9 1899:
This afternoon arrived a huge Rocking Horse for the babies amusement and education.

Mae gen i gof da am y ceffyl pren hwn a bûm ar ei gefn droeon yn ystod fy nyddiau cynnar yn Ysgol Bethel. Bu Euron, fy mab, yn ei reidio yn ddiweddarach hefyd.

Mehefin 27 1899:
A tea party was to-day given by the Parish Council to all children and persons in receipt of parish relief. The Rev Huws had also procured a large assortment of toys which afforded each child great delight.

Chwefror 13 1903:
The pupil teachers asked to have their lessons excused owing to Eisteddfod y Plant being held at Bethel Chapel.

Fel y dywedodd Mr Hugh Griffith, un o'r pupil teachers yn nyddiau R.J.H.:

> 'Bu ei ddylanwad yn fawr a dyrchafol, yn fwy felly na neb y gwn i amdano ar Fethel, a chyda chyd-weithrediad yr Ysgol ddyddiol fe weddnewidiwyd yr ardal.'

Hugh Griffith oedd enillydd y Gadair yn yr Eisteddfod Plant gyntaf i'w chynnal ym Methel, ac yng Nghymru. Mae'r Gadair yng nghyntedd Capel Bethel. Dyma stori fer ddiddorol ynglŷn â chwtogi staff.

Tachwedd 1 1903:
The Rev R.J.H., Chairman of our Managers sent a communication to the Education Office, showing how our work will be crippled if the proposed reduction of staff is insisted upon.

Tachwedd 13 1903:
Mr J. Issard Davies, Chairman of the Staff Committee, called this afternoon to inquire why Miss Williams (one of the staff) had not left as requested. The Rev R.J.H. was in school when he came. Upon the situation being explained to him, he urged us to obey his Committee and afterwards to apply for another teacher, which application he promised to support.

Ni phetrusodd R.J.H. i gau'r ysgol o safbwynt iechyd ar Ebrill 19 1905:
Called rhis morning and found 46 children absent owing to a sudden outbreak of mesasles. Advised closing school forthwith (Rhys J. Huws, Chairman of Managers).

Wrth daro cip sydyn drwy Lyfrau Log Bethel sylwais bod yna ddiwrnod neu hanner diwrnod o 'wyliau' yn aml er mwyn dilyn rhywbeth cysylltiedig â'r eglwysi. Ond ys gwn i beth oedd ymateb R.J.H. i'r cofnod hwn?

Mai 28 1903:
Holiday – Buffalo Bill's Wild West Show at Bangor.

Ond roedd o'n gallu bod braidd yn 'gul' ar brydiau. Yn Cronicl Capel Bethel, Medi 1904, mae'n datgan ei farn:

> 'Gan yr ymdrechir darparu moddion adloniant dyrchafol i'r bobl ifanc, mawr hyderir na chychwynir mo glwb pêl-droed eleni. Apelir yn daer at aelodau crefyddol Bethel i ymwrthod â'r chwarae hwn, am y gwyddom ei fod yn darostwng moesau ac yn gerwino iaith ein pobl ifanc.'

Dyma'r dyddiau pan oedd y 'Bethel Lions' ar y brig.

Ydi mae petha wedi newid yn hanes yr ysgol a'r capeli a'r ardal yn gyffredinol. Dwi'n hollol siŵr mai yn Gymraeg y cofnodir Llyfr Log Ysgol Bethel heddiw. Dwi'n un mor siŵr y byddai Rhys J. Huws yn ymfalchïo yn llwyddiant tîm pêl-droed y pentre hefyd.

Ydw, dwi'n edrych ymlaen at gael ymweld â fy hen ysgol unwaith eto pan ddaw mis Gorffennaf.

Gwesty

Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Aneuryn, Rhiannon a'r staff

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth
Dewis eang yn cynnwys:
IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW
KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

NWYDDAU GROSER
LLYSIAU • FFRWYTHAU • BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870840

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Jill a Peter

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
Ffôn: 870444

★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Am anrhegion y Nadolig dowch i
Siop Nwyddau Tŷ a Gardd

FORMAG

41A Stryd Fawr
Llanberis 872501

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth
Ifor a Margaret
Diolch am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn

Y Bistro

LLANBERIS
Ffôn: 871278
www.ybistro.co.uk
PERCHNOGION : DANNY A NERYS ROBERTS

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr Eco

STEPHEN JONES

Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870
(01286) 872 491
(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol Profiadol
Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth

E. W. Pritchard

62 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

DYMUNA Dafydd Wyn Orritt, 7 Blaen y Ddôl, ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardiau, anrhegion ac arian a gafodd ar ei ben-blwydd yn 4 oed ar 8 Tachwedd. Diolch yn fawr i bawb.

DYMUNA Buddug Wakeham, 8 Stryd Newton ddiolch yn fawr i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y galwadau ffôn, y cardiau, yr anrhegion a'r blodau a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ac wedyn gartref.

DIOLCHIADAU. Dymuna John Roberts, 18 Goodman Street, Darren, Paul, Jason a'r teulu, fynegi eu diolch a'u gwerthfawrogiad diffuant iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt trwy air, cerdyn, llythyr, rhodd neu flodau yn ystod y brofedigaeth lem a'r golled annisgwyl o golli gwraig, mam a nain annwyl yn ddiweddar. Derbyniwyd £1,000 tuag at Uned Arennau Ysbyty Gwynedd.

DIOLCH O GALON. Hoffai Trystan a Nia, 9 Field Terrace, ddiolch yn fawr iawn ar ran eu merch newydd, Cadi Siân, am yr holl anrhegion a chardiau a dderbyniodd.

LLEISIAU LLIWEDD. Bu'r Côr a Chôr Dyffryn Peris yn cynnal cyngerdd yn Capel Coch at achos apêl *Chernobyl Children Lifeline*. Rhoddwyd rhodd o £150.00 at yr achos gan Lleisiau Lliwedd pan ddaeth un o'r plant i'w gweld yn ymarfer canu.

UNDEB Y MAMAU. Pnawn dydd Mawrth, 4 Tachwedd cynhaliwyd y cyfarfod misol yn Festri Eglwys Sant Padarn. Ein Curad, y Barchedig Vittoria Hancock, gymerodd y gweddïau a hi hefyd oedd ein gwraig wâdd. Cafwyd amser diddorol iawn yn ei chwmni. Gwneud addurniadau Nadolig oedd ei phwnc a chafodd yr aelodau i gyd gyfle i wneud rhai a'u cael i fynd gartref.

Trafodwyd ychydig o faterion busnes i ddilyn. Cytunodd Mrs Gwen Williams i roi y dorch ar y Gofeb ar Sul y Cofio.

Gwasanaeth o ddarlleniadau a charolau fydd gennym yn y cyfarfod y mis nesaf. Diolchodd Mrs Audrey Evans i Vittoria a Gwen am y lluniaeth ysgafn, ac eiliwyd gan Mrs Kathleen Williams.

Diweddwyd trwy adrodd y Gras.

CYNGERDD. Cynhelir cyngerdd o dan nawdd 'Cerdd Byw Cymru' yng Nghartref Preswyl Penisarwaun, gyda Gwenan Gibbard yn canu gyda'r delyn. Mae gwahoddiad i'r ardal ymuno â'r preswylwyr i fwynhau'r prynhawn Sadwrn, 29 Tachwedd yn cychwyn am 3 o'r gloch y pnawn. (Ffoniwch i ddweud os ydych am fynd er mwyn i chi gael paned, ar 01286 872038.)

ARVONIA

LLANRUG Ffôn: 01286 675175

GWYLIAU CARTREF A THRAMOR

Cymni teuluol gydag 20 mlynedd o brofiad o redeg Pecynnau Gwyliau oll-gynhwysol

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol

Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl BROFFESIYNOL
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i CHWI
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch CAR. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Folly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

MOT

website: www.a-v-w.co.uk

Shell HELIX

Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed ££ichwi ac yn ymestyn oes eich car

AVW VSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559

BOSCH

Plentyn Chernobyl

Oni bai am y ddawain a ddigwyddodd yno ar 26 Ebrill 1986 prin y byddai neb ohonom wedi clywed am Chernobyl. Ond oherwydd y ddamwain honno yn yr Orsaf Niwcliar mae enw'r lle'n gyfarwydd i bobl ym mhob cwr o'r byd.

Y ddamwain honno yn Chernobyl yw'r waethaf yn holl hanes y diwydiant niwcliar. Dioddefodd rhannau helaeth o Ewrop mewn gwahanol ffyrdd oherwydd y ddamwain, a bu'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru yn gweld ei heffaith am flynyddoedd lawer wedi'r digwyddiad. Ond gwelwyd y dioddefaint mwyaf yn yr ardaloedd cyfagos, ac mae'r ardaloedd hynny bellach yn rhan o wladwriaeth ifanc Belarws. Disgynnodd 70% o ddeunydd ymbelydrol y ddamwain dros dir Belarws, gyda chyfran helaeth o'r 2.2 miliwn o drigolion y wlad yn cael eu heffeithio i ryw raddau gan yr ymbelydredd. Roedd yr ymbelydredd hwnnw 90 gwaith gwaeth na'r bom a syrthiodd ar Hiroshima.

Mae'n amlwg i'r wlad ddioddef yn fawr, ac mae'r ddamwain yn dal i effeithio ar iechyd plant bach nad oeddynt wedi eu geni yn 1986. Y sylweddoliad hwnnw sydd yn gyfrifol am waith yr elusen Cymorth Plant Chernobyl (*'Chernobyl Children's Lifeline'*) sy'n trefnu gwyliau ym Mhrydain i blant bach Belarus. Dros y deng mlynedd diwethaf cafodd 25,000 o blant Belarus ddod i Brydain am gyfnod o wyliau a gorffwys.

A thros y mis diwethaf bu un o'r plant bach hynny yn aros yn Llanberis, ar aelwyd Bert ac Ann Parry, yn Sycharth, Llanberis. Naw oed yw Ylya Fursova, ac yr oedd hi'n un saith o blant a gyrhaeddodd Ogledd Cymru ddydd Sul, Hydref 19. Hi oedd yr unig un o'r criw a fu'n aros ym mro'r Eco eleni. Cafodd groeso arddechog gan Bert ac Ann Parry, ac fe lwyddodd y ddau ohonynt i ymdopi â chyfathrebu â hi trwy ystumiau a help geiriadur Rwseg. Roedd yr athrawes a ddaeth efo'r criw yn gallu cyfieithu pan oeddent i gyd efo'i gilydd, ond yn naturiol roedd pawb drosto'i hun ar yr aelwydydd y bu'r plant yn aros arnynt. Ond erbyn i Yulya ymadael fore Sul, Tachwedd 16, roedd wedi dysgu llawer o eiriau Cymraeg, ac yn gallu'n cyfri'n rhwydd o un i gant.

Tra bu yma cafodd ymweld â phlant Ysgol Dolbadarn ac Ysgol Cwm y Glo a mwynhau hynny'n fawr. Yr oedd rhai gweithgareddau wedi eu trefnu ar gyfer y criw gan bwyllgor lleol yr elusen, yn cynnwys ymweliad â Gorsaf Dân Caernarfon. Yr oedd Bert ac Ann wedi trefnu cyngerdd yn Capel Coch i godi arian at waith yr elusen, a chynhaliwyd hwnnw'r noson y cyrhaeddodd Yulya.

Mae Bert ac Ann wedi mwynhau'n fawr gael croesawu Yulya. Roedd hithau'n ferch fach annwyl iawn, ac o gofio'i hoed a'r ffaith ei bod mewn lle cwbl ddiarth, bu'n hynod o gartrefol gyda hwy. Erbyn hyn mae wedi cyrraedd adref, ond gadawodd Lanberis gyda thipyn mwy na'r un bag bychan ocdd ganddi'n cyrraedd yno, diolch i haelioni nifer fawr o gyfeillion. A daeth Yulya a'i mam ar y ffôn y noson y cyrhaeddodd hi adref i ddiolch am y croeso a gafodd yma yng Nghymru. Roedd Bert wedi dysgu digon o Rwseg i ddeall ambell air fel 'diolch' a 'da' o'r sgwrs ffôn. Dymuna Bert ac Ann ddiolch am bob help, ac maent yn gwneud hynny trwy'r golofn lythyrau yn y rhifyn hwn.

CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL

CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb
yn Rheilffordd yr Wyddfa

SNOWDON MOUNTAIN RAILWAY
LLANBERIS
• To the Summit since 1896 •

CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU
oddi wrth
W.J. DAVIES
MODURDY'R WYDDFA
LLANBERIS Ffôn: 870225

M.O.T.
Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos
Hefyd
JOHN WHITE
THE BODY SHOP
LLANBERIS
★Trwsio wedi damweiniau
★Ailsbreio
★Curo paneli

DAN REOLAETH NEWYDD...!
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb
oddi wrth y
Padarn Lake Hotel
LLANBERIS
Ffôn **870260**
* Cinio dydd Nadolig £34 *
– plant hanner pris
Hefyd bob dydd: Bwffe Oer o £6.50
Carferi Nadolig Poeth o £13.99
* Ffoniwch i archebu lle
A pheidiwch ag anghofio ein Carferi dydd Sul o £5.99
a bob dydd Mawrth (12 pm – 2.30 pm)
PRYD I'R HENOED AM £2.99

SWYDDFA'R POST
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
Mal a Debbie
SWYDDFA'R POST
36 Stryd Fawr, LLANBERIS
Ffôn: 870201
Cofiwch fod ein gwasanaethau yn cynnwys
BANCIO PERSONOL A BUSNES ar gyfer
Alliance Leicester, Barclays, Lloyds TSB,
The Co-operative Bank a National Savings
● Talu biliau ● Yswiriant Teithio ● Arian Tramor
● *Parcel Force* ● Anrhegion a Darluniau Gwreiddiol
● Cardiau ac Anghenion Ysgrifennu
ac, wrth gwrs, holl wasanaethau arferol Swyddfa'r Post

CELF Y COPÄON
MOUNTAIN ART
STRYD FAWR
LLANBERIS 870925
Safle Gwe:
www.mountainart.co.uk
e-bost:
ginger@mountainart.co.uk
★ Am luniau mynyddoedd
★ Peintiadau
★ Printiadau
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth Sue Lowe
odyn copr
66 Stryd Fawr
Llanberis
Ffôn: 871366

★ Priodasau ★ Dathliadau
★ Achlysuron Arbennig
★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul

Quality Hotel
Llanberis
(Gwesty'r Fictoria gynt)
– rhan o CHOICE HOTELS

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda
oddi wrth bawb yn y gwesty.
Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn.

wrth droed yr Wyddfa

CYNGOR CYMUNED LLANDDINIOLEN

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth y 4ydd o Dachwedd. dan lywyddiaeth y Gadeiryddes Miss Sara Wood, hi hefyd offrymodd y weddi ddechreuol. Derbyniwyd cofnodion Hydref fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion

Tai newydd ar safle hen Gapel Y Tabernacl, Deiniolen.

Adroddodd y Clerc bod y Swyddfa bôst wedi gwrthod 'Tai Tabernacl' am bod 'Stryd Tabernacl' eisioes yn bodoli yn y pentref. Awgrymwyd 'Bro Gwenlyn' fel arwydd o barch i'r dramodydd enwog a fynychai'r Capel. Derbyniwyd yr awgrym.

Cwmni Adwy Cyf.

Cyflwynwyd eu Cynlluniau Gwedd II. Dywedodd y Cynghorydd Len Jones y cynhelir Cyfarfod y Cwmni yn ystod yr wythnos nesaf a bod bwriad, ynghlwm â mudiadau eraill, i ddatblygu'r tir ger yr hen bictiwrs, Deiniolen a 'Rallt Ddu, Dinorwig. Cynrychiolir y Cyngor gan y Cynghorwyr Phylip Jones a Keith Jones.

30 m.y.a. – Deiniolen/Dinorwig

Cyfeiriodd y Cynghorydd Len Jones at y wybodaeth a gafodd oddi wrth Mr Dafydd Roberts, Cyngor Gwynedd, ynglŷn â repeaters 30m.y.a. a goleuadau cyhoeddus. Dywedodd y Cynghorydd Phylip Jones bod rhaid i oleuadau fod o fewn pellter penodedig i'w gilydd ar gyfer parhau'r cyfyngder cyflymdra, hefyd ei fod yn amau a oes arwyddion 30m.y.a. ar y ffordd o Fynydd Llandegai i Ddinorwig. Addawodd y Clerc wneud ymholiadau erbyn y cyfarfod nesaf.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Gwilym Williams at fwriad amryw o bobl amlwg i dorri'r gyfraith trwy brotest os gwneir y 'Mesur Hela' yn ddeddf. Nodwyd y mater a phenderfynwyd na allai'r Cyngor wneud unrhyw gyfraniad ar hyn o bryd.

Gohebiaethau eraill

Derbyniwyd Rhestr Contractwyr lleol a ffurfiwyd gan Mr Aeron M. Jones, Clerc Cyngor Cymuned Llandwrog.

Adroddodd y Cynghorydd Len Jones bod Post Deiniolen wedi bod ynghau am gyfnod ac ar agor erbyn hyn o 9.00 tan 13.00 yn ddyddiol.

Cyhoeddwyd cyfarfod cyhoeddus Eisteddfod Genedlaethol Eryri 2005 yn ysgol Syr Hugh Owen am 7.00 y.h. ar 12 o Dachwedd.

Bydd angen trefnu pwyllgor apêl i bob pentref. Addawodd y Clerc asesu cyfartaledd y pentrefi erbyn cyfarfod Rhagfyr.

Derbyniwyd ateb Gareth Wynne, Uwch Arolygydd yr Heddlu ar sylwadau'r Cyngor yng nghyfarfod Medi. Penderfynwyd ei wahodd i gyfarfod Rhagfyr. Hefyd gwahodd y Cynghorydd Charles Jones fel cynrychiolydd o Awdurdod yr Heddlu.

Porth y Gogledd, Deiniolen. Mae ceir yn parcio ar llinellau melyn dros y ffordd i fynedfa Porth y Gogledd yn ei gwneud yn amhosibl i lorïau tanwydd olew a nwy gael mynediad. Ar un achlysur bu tancer nwy yno dair gwaith cyn medru dosbarthu'r tanwydd. Mae cais hefyd am linellau melyn am rywfaint o'r ffordd i fyny'r stryd – Llythyr i'r Heddlu ac i Gyngor Gwynedd.

Cynllunio

Cafwyd amlinelliad gan y Cynghorydd Pat Larsen ar y bwriad o wneud Bryn'refail yn 'Bentref Gwledig'. Bwriedir symud y llinell ffin gynllunio bresennol. Cafwyd trafodaeth gyffredinol ar yr angen lleol am dai ychwanegol. Soniodd y Cynghorydd Len Jones am y newidiadau yn y Cynllun Datblygu Unedol mewn perthynas â Deiniolen a'r Cynghorydd Huw P Hughes am y penderfyniadau ar gyfer Bethel. Roedd y sylwadau a wnaed yn cefnogi'r ymateb ar y Cynllun Datblygu Unedol a ddanfonwyd i Wynedd yn Hydref 2002. Nodir na chafwyd ateb i hwnnw oddi wrth Wynedd na hyd yn oed gydnabyddiaeth o'i dderbyn.

Penderfynwyd ysgrifennu at Gyfarwyddwr Cynllunio Gwynedd i ddweud bod angen cysylltu â'r cyhoedd:

- er mwyn rhoi lle i farn yr ardalwyr.
- Gwneud yn siŵr bod yr ardalwyr yn ymwybodol mai bwriad y Cynllun Unedol yw sefydlu rheol 20ain mlynedd na ellir ei newid.
- Pwyso mai'r bobl leol ddylai wneud penderfyniadau ar ddyfodol cynllunio'u cymuned ac nid swyddogion yng Nghaernarfon na sydd a chysylltiad â'r ardal.
- Mae angen arddangosfeydd lleol (lle mae'r garafan a ddefnyddiwyd at hyn rai blynyddoedd yn ôl ?).
- Y bwrdwn oedd Gwybodaeth i'r Cyhoedd a Gwrando ar y gymdeithas leol.

Cais rhif C0A/0618/18/LL Castell, Rhiwlas. Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais ond cefnogwyd awgrymiadau'r Cynghorydd Hefin Williams i roi amodau fel a ganlyn ar y cais uchod:-

1. Na fydd y datblygiad yn effeithio ar y llwybr cyhoeddus cyfagos
2. Ffensiau – angen lle oddi tanynt i anifeiliaid bychan.
3. Adeg adar yn nythu – peidio bod môr weithgar ag arfer.
4. Rheoli nifer ceir a phobl ar y safle ar unrhyw gyfnod.
5. Nid oedd yr arwydd sydd ei angen yn rhan o'r cais.

Llwybrau

Y Cynghorydd Phylip Jones

1. angen clirio'r llwybr o ysgol Dinorwig, heibio i'r Foel at Gapel Sardis. Gwneir adolygiad o'r gwaith sydd ei angen ar yr holl lwybrau erbyn y gwanwyn
2. angen clirio ffôs ar y llwybr rhwng Dublin House a Pen'rallt, (perchnogaeth Parc Padarn).

Y Cynghorydd Gwilym Williams – angen atgyweirio pont fechan ar y llwybr yn uwch i fyny na Tai Bryntêg – cwyn i Wynedd.

Gofynnodd y Cynghorydd Len Jones – 'Pan fo llwybr ar dir preifat beth yw hawliau'r tir feddiannwr? Pa led yw'r llwybr i fod?' Addawodd y Clerc wneud ymholiadau.

Adroddiadau

Adroddodd y Cynghorydd Len Jones ar Gynhadledd 'Cymdeithas Cynghorau Bro a Thref Cymru' yn Aberystwyth. Yn anffodus collwyd y dyddiad cofrestru cynnig ond llwyddodd Len Jones i ddarbwyllo Cyngor arall i gyflwyno ei sylw – 'Beth oedd ateb Y Cynulliad a'r Heddlu i'r cwestiynnau a gyflwynwyd ar ran y Cyngor yma y llynedd? Nid oes ateb hyd yn hyn.

Cyfeiriodd hefyd at y trefniadau i uno'r Cymdeithasau presennol. Gelwir y mudiad newydd yn 'Un Llais Cymru'.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf ---- 2il o Ragfyr.

CLWB ERYRI

Cynhaliwyd cyfarfod Clwb Eryri yn y Fictoria, nos Wener, 7 Tachwedd.

Yn dilyn gair o groeso gan y Llywydd, Geraint Elis, derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol. Yna cafwyd cyfraniad bardd y noson, Wyre Thomas. Gwnaeth Wyre gamp drwy lunio cywydd, soned a hir a thoddaid ar wahanol themâu, gan gynnwys moliant i siaradwr y noson, John Norman Davies.

Llywydd y noson oedd John Huw Hughes a soniodd am gefndir amrywiol Norman ym maes addysg, ac yn benodol, maes addysg i blant gydag anghenion arbennig. Soniodd hefyd am ei lwyddiant yn ennill nifer o gadeiriau eisteddfodol am farddoni.

Testun Norman oedd 'Neb yn Deilwng'. Aeth a ni ar daith i bentrefi Blackstone a Silkstone yn Queensland, Awstralia. Cafwyd disgrifiad byw am gefndir Cymreig y pentrefi diwydiannol hyn a'r dylanwadau Cymreig sydd wedi para hyd heddiw. Gwnaed cadair Eisteddfod Treorchi, 1928 gan grefftwr o Ipswich, Queensland a chan nad oedd neb yn deilwng yn yr eisteddfod honno, ymhen amser, aeth y gadair yn ôl i Awstralia. Daeth Norman a'i sgwrs i ben drwy adrodd cerdd a gyfansoddodd ar y daith hir adref yn sôn am 'Gwlwm Bywyd' gyda'i frawd, Frank, sy'n byw yn Queensland ers blynyddoedd.

Wedi trafodaeth ddifyr o'r llawr diolchwyd i'r siaradwr gan Dei Tomos. Cyhoeddodd y llywydd bod y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar nos Wener, Rhagfyr 5. Y siaradwr fydd Dr Robin Parry gyda Iolo Llywelyn yn llywyddu.

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Angen rhai Newydd? os felly
☎ FFONIWCH ☎
(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)
Eifion Hughes (7 diwrnod)
Gwasanaeth Da am Bris anhygoel

CAB GWYNEDD & DE YNYS MÔN
Bangor • Caernarfon • Dolgellau • Pwllheli
cyngor ar bopeth
Rydym angen
GWIRFODDOLWYR
Ydych chi'n ddibynadwy ac yn gallu rhoi chwe awr o'ch amser bob wythnos? Nid oes angen profiad na sgiliau arbennig, cewch hyfforddiant llawn.
Am fwy o wybodaeth, ffoniwch:
(01286) 677013

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth bawb yn

FFARM FÊL YR WYDDFA

STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: 870218

Mêl

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Chwilio am anrhegion Nadolig?
Galwch i'n gweld yn

SIOPAU MYNYDDA JOE BROWN

Menai Hall, Llanberis (01286) 870327
a Capel Curig (01690) 720205

- ★ Dillad o ansawdd da am brisiau rhesymol
- ★ Dewis eang o ddillad hamdden i'r teulu i gyd
- ★ Menyg, hetiau, scarffiau a throwsusau *fleece*
- ★ Esgidiau cerdded

Yr ydym yn cadw stoc o

★ Rab	★ Mammut	★ Wynnster
★ Marmot	★ Lowe Alpine	★ Merrell
★ Sprayway	★ Brasher	★ Zamberlan

★ Stone Monkey a llawer mwy

Parcio hwylus a chyfleus
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

joe brown

CYFARCHION Y TYMOR

i bawb yn yr ardal

oddi wrth

TRÊN BACH LLYN LLANBERIS



CRIB GOCH

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth **DYLAN**
Stryd Fawr Llanberis
Ffôn: **870777**

- Galwch i mewn am anrhegion Nadolig anghyffredin, yn cynnwys dodrefn pin a Mecsicanaidd.
- Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

Dymuna **David a Tara Williams**

CASTLE GIFTS

LLANBERIS Ffôn: 870379

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl gwsmeriaid.

Galwch yma am:
Bapurau Newydd, Anrhegion, Sigaréts,
Melysion, Llyfrau a llawer mwy i ddod ...!

Caffi a Siop Sglodion

SEAFRESH

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
ROY a CORRIE a'r holl staff

56 Stryd Fawr
Llanberis 870 425

Diolch am eich cefnogaeth yn ein blwyddyn cyntaf

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth **Siop**

SPAR

LLANBERIS

Ffôn: 871050

Dewch atom am ddewis rhagorol o fwyd, diod a nwyddau eraill ar gyfer y Nadolig, am brisiau cystadleuol iawn.
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chwi oll
oddi wrth bawb yn siop

HAIRLINES

Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870328

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

ODDI WRTH

KMP LLANBERIS

DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Dim bysus dydd Nadolig na Gŵyl San Steffan, 25 a 26 Rhagfyr, na Dydd Calan, 1 Ionawr 2004. Gwasanaeth arferol bob diwrnod arall.

CHWILOTA

'Athraw o nôd a thirion wr.'

Roedd y cais am wybodaeth ynglŷn â Beuno Jones, prifathro Ysgol Tan y Coed, Penisa'rwaen ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf yn amlwg yn apelio at nifer o ddarllenwyr y golofn. Daeth ymateb sydyn iawn gan Ieuan Williams, Llain yr Ardd, Bethel, gyda'r prif fanylion amdano – a hynny bron cyn i'r inc sychu ar y rhifyn diwethaf o'r 'Eco'! Yn ddiweddarach, daeth mwy o wybodaeth gan Geraint Huws Roberts, Bangor a Mair Foulkes, Penisarwaen. Gyda diolch i'r tri ohonoch am gysylltu mor gyflym. Gan ddefnyddio'r wybodaeth a anfonwyd i mi, ac o chwilio ymhellach yng nghofnodion y cyfrifiad ac ôl-rifynnau'r *Herald Cymraeg*, gallwn roi darlun eithaf llawn o'i yrfa yn yr ardal hon.

Brodor o Rostryfan ym mhlwyf Llanwnda oedd John Beuno Jones. Roedd ganddo dair o chwiorydd. Hyd yn hyn, nid wyf wedi gallu darganfod eu henwau. Credir fod ei dad yn rheolwr ffatri ym mhlwyf Llanwnda. Fe'i haddysgwyd yn athro yn Y Coleg Normal, Bangor, a chafodd ei swydd gyntaf yn ysgol Llanarmon, lle'r arhosodd am dair blynedd. Wedi hynny, bu'n ysgolfeistr yn Rhiwlas. Daeth yn brifathro i Ysgol Tan y Coed tua 1897–98, ac felly, mae'n bosibl mai'r llun a fenthyciwyd i ni gan Mair Foulkes yw'r llun cyntaf ohono yn ei ysgol newydd.

Roedd yn briod â Mary (beth oedd ei henw morwynol tybed?) brodor o Landdeiniolen (ond o pa bentref?) Erbyn 1901 roeddent yn byw yn 5 Tai Arthur, Waun, Penisarwaen. Roedd erbyn hynny'n 43 oed, a'i wraig yn 40. Yng nghofnodion y cyfrifiad mae'n disgrifio'i hun fel 'elementary school teacher.' Yn ystod y flwyddyn honno, symudodd y ddau o Dai Arthur a chartrefu yn 'Meillionnydd', Penisarwaen.

Bu'r ddau ohonynt yn aelodau gyda'r Methodistiaid yng nghapel y Glasgoed, ac yn 1907 fe etholwyd Beuno Jones yn flaenor yn yr eglwys. Bu farw ar ddydd Sul, 10 Medi 10 1911 yn 54 mlwydd oed, ac fe'i claddwyd ym mynwent Llanddeiniolen. Ar wahân i'w weddw, ei ddwy chwaer a phlant ei ddiweddar chwaer, y prif alarwyr yn ei gynhebrwng oedd Dr Moelwyn Hughes (awdur 'Pwy a'm dwg i'r Ddinas Gadarn?'), R. Jones Hughes, Rhostryfan, R. Ffestin Williams, Aberdyfi a'r Parch W. Wynne Williams, Llanystumdwy, sef cefndryd iddo.

Bu ei weddw fyw i fod yn 72 oed, a bu farw ar 13 Ebrill 13 1933. Claddwyd hithau yn Llanddeiniolen. Credir ei bod wedi ymadael â 'Meillionnydd' a chapel y Glasgoed tua 1919–20. Mae'n sicr iddi fyw am gyfnod yn 'Eirianfa', Tai Rhythallt, Llanrug, ond nid yw'n ymddangos iddi ymaelodi â Chapel Pontrhythallt. Roeddent yn ddi-blant.

Ceir adroddiad byr am angladd Beuno Jones yn yr *Herald Cymraeg* (19 Medi 1911). Dyma'r deyrnged iddo: *'Yr oedd yn athro hynod o lwyddiannus. Enillodd amryw o'r plant dan ei ofal ysgoloriaethau yn yr Ysgol Ganolraddol, ac ychydig cyn ei gymryd yn wael daeth y newydd calonnog iddo mai geneth fechan o'i ysgol ef oedd ar ben y rhestr trwy yr oll o'r sir.'* Mae'n siŵr mai cyfeiriad at y 'scholarship' bondigrybwyll sydd yma. Pwy tybed oedd yr eneth fach a ddaeth i frig y rhestr drwy holl Sir Gaernarfon yn 1911?

Wythnos yn ddiweddarach yn yr *Herald Cymraeg*, ceir datganiad o ddiolchgarwch gan ei weddw *'i'r lliaws cyfeillion'* am eu cydymdeimlad â hi.

Ar garreg bedd John Beuno Jones ym mynwent Llanddeiniolen ceir y geiriau *'Da was da a ffyddlon; dos i mewn i lawenydd dy arglwydd.'* Yna ceir yr englyn hwn gan Alafon, gweinidog Capel yr Ysgoldy ar y pryd.

Athraw o nôd a thirion ŵr – oedd ef
Harddodd ardd ei Brynwr;
I'w rai annwyl meithriniwr
O Gariad oedd, a Gwir Dwr.

Mae'r llun o Ysgol Tan y Coed yn dyddio o tua 1898, a gellir enwi pedwar ar ddeg o'r rhai ynddo. Tybed a all eraill o ddarllenwyr yr 'Eco' enwi'r gweddill?

Dosbarth Ysgol Sul Capel Coch Llanberis tua 1928

Anfonwyd y llun hwn i'r Eco gan Mrs C. Lloyd, 14 George Street, Llanrwst LL26 0DP. Hoffai glywed gan ddisgynyddion rhai o'r aelodau.

(O'r chwith:) Mrs Evans, Meffkin, Mam Alvira (Stryd Goodman); Mrs M. Wood, Mrs Owen Goronwy Owen; Mrs Roberts, Fron Goch; Mrs Jones, Gilfach Ddu.

(Blaen o'r dde): Mrs Evans, Anneddle; Mr J.R. Jones; Parch J.P. Davies; Mrs Hughes, Tŷ Coed.

Yn y cefn ar y chwith mae Mr Evans, sef taid Morgan Evans yr arwerthwr o Fôn, ac ar y dde mae'r prifathro, J. Beuno Jones. Y ferch gyntaf ar y chwith yn y cefn yw Maggie Owen, Tŷ Newydd, Penisarwaen, sef mam Mair Foulkes. Wrth ei hochr mae Annie Owen, Prys Dyrys. Does dim gwybodaeth am y ddau fachgen nesaf yn y rhes gefn, ond y genethod (o'r chwith) yw Annie Owen ac Ellen Owen (chwiorydd Maggie). Yna, daw brawd iddynt, Sion. Yr eneth nesaf yw Ellen Thomas, Fferm Tan y Coed, sef cyfnither i deulu Tŷ Newydd.

Y bachgen cyntaf ar y chwith yn y rhes flaen yw Willie Thomas (brawd Ellen). Bu farw'n hogyn ifanc un ar bymtheg oed. Y ferch gyntaf yw Maggie Williams, Glan Gors (nain Doris Adlam). Does dim gwybodaeth am y bachgen nesaf, ond yna daw chwaer a brawd o Ben y Gaer, sef Nell a Hugh Thomas (cyfnither a chefnder i blant Tŷ Newydd). Roedd Nell Thomas yn nain i Ann Patterson, Penisarwaen a Hugh yn daid i Doris Adlam. Wrth eu hochr mae Katie Owen, Prys Dyrys. Yr unig un arall o'r llun y gellir ei enwi yw'r bachgen lleiaf un yn y rhes flaen, gyda thair o fedalau ar ei frest, sef Evan Deiniol, taid Hugh Hughes, Bethel.

Dyna'r wybodaeth fel y'i cafwyd gan Mair Foulkes. Ond beth yw'r achlysur? Pam fod y plant hyn i gyd yn gwisgo medalau? Efallai mai wedi eu gwobrwyo maent am fynychu'r ysgol yn ddi-dor. Roedd yn arferiad ers talwm i wobrwyo plant am beidio colli'r ysgol. Oes unrhyw un o ddisgynyddion y plant hyn â medal yn ei m/feddiant?

Byddai'n ddiddorol cael mwy o wybodaeth am y rhai sydd yn y llun ac am y medalau.

York Terrace ac Ymddiheuriad! Do, fe wnes gamgymeriad go ddifrifol yn y rhifyn diwethaf, drwy honni fod Brwynog Jones ac Alaw Mai yr un person. A chefais fy nghywiro gan amryw; Nan Owen a Ralph Jones, y ddau o Lanberis, yn eu plith.

Roedd y ddau yn stiwardiaid yn Chwarel Dinorwig, ond

(Parhad ar dudalen 11)

Dosbarth neu nifer o unigolion o Ysgol Tan y Coed, Penisarwaen, tua 1898.

Cyfarchion Nadolig Llanberis

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

GRAHAM A JEAN A PHAWB YN Y

PRINCE OF WALES

LLANBERIS

870708

Cwrw Blasus
Croeso Cartrefol

Y COPA
THE PEAK BRASSERIE
(Trwyddedig)

Ffôn **870 491**

Stryd Fawr
LLANBERIS

Ydych chi wedi trefnu eich Parti Nadolig?
Ffoniwch gyntaf am fanylion ein **Gwledd Nadolig am ddim ond £16.95** yn cynnwys cracars ac awyrgylch Nadoligaidd braf.

Mae pawb o Staff Becws Eryri a'r Copa yn Dymuno ichi Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Surf-Lines

CYFLENWYR DILLAD AC OFFER ARBENIGOL AC YSGAFN AR GYFER RHEDEG, RASIO ANTUR A MYNYDDA

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â 57 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn 01286 879080
www.surf-lines.co.uk

Eich antur chi ydyw...

Un funud fach

Y FATH SIOM

Doeddwn i ddim yno. A gwaetha'r modd ches i fawr o golled. Roeddwn yn ddigon siomedig gartref o flaen y teledu heb orfod wynebu gyrru'r holl ffordd adref o Gaerdydd yn hwyr y nos. Rhaid derbyn na fyddwn ym Mhortiwgal yr haf nesaf, ac ailafael yn y freuddwyd gyda'r gemau rhagbrofol ar gyfer Cwpan y Byd 2006. Ond o'r hyn a glywyd neithiwr, noson y gêm, mae'n beryg y bydd raid gwneud hynny heb Mark Hughes. Byddai hynny'n ergyd i Gymru, a gallai olygu bod yr haul wedi machlud arnom unwaith yn rhagor cyn i'r wawr hyd yn oed dorri.

Cymru, o holl wledydd Ewrop, sy'n denu'r torfeydd pêl-droed mwyaf, a Mark Hughes sy'n gyfrifol am hynny. Ac fe wnaeth hynny'n syml iawn, nid trwy wella'r tîm na thrwy greu ymdeimlad gwladgarol, ond trwy ostwng pris tocynnau. Dylifodd y torfeydd i Gaerdydd am fod modd gwneud hynny heb orfod talu trwy eu trwynau am docyn. Cafwyd Stadiwm lawn ar gyfer pob gêm, a miloedd o bob oed yn mwynhau'r cynnwrf a'r chwarae.

Lle rhyfeddol ydy Stadiwm y Mileniwm a chaiff Giggs a'r criw gefnogaeth wych yno bob amser. Ond un peth a'm trawodd bob tro y bûm ynddi yw'r ffaith bod yno wastad nifer fechan o bobl sydd heb ddiddordeb o gwbl yn y gêm. Tra bo pawb arall wedi ymgolli yn y chwarae, mae'n nhw'n mynd a dod i 'nôl diod neu siocled neu byrgar. Pan fo pawb o'u cwmpas yn dathlu gôl mae'n nhw'n ddifater. Mae'n nhw'n rhan o'r dorf, ond rywsut ddim yn perthyn iddi.

Ac mae modd cael yr un peth yn ein capeli a'n heglwysi. Yng nghanol y gynulleidfa, yng nghanol yr oedfa, gall rhai fod ar wahân i'r cyfan sy'n digwydd. Dydyn nhw ddim yn rhan o'r moliant. Mae'n nhw'n clywed yr Efengyl, ond heb lawenhau ynddi. Mae'n nhw'n gweld eraill yn diolch, ond heb allu gwneud hynny eu hunain. Mae eraill yn canu clodydd yr Iesu, ond rywsut fedran nhw ddim ymuno yn y gân. A phan ddaw'r Dolig mae'n beryg y bydd yna lawer yn rhan o'r dathlu heb brofi'r wefr a'r llawenydd o nabod y Ceidwad y cofir ei eni. Ac mae hynny'n gymaint o biti a chymaint o siom.

Mynnwn weld harddwch yr Iesu. Mynnwn ei nabod yn Arglwydd a Gwaredwr. Mynnwn fedru ei ganmol am i ni gael golwg ar ei gariad digymharol. A dywedwn gyda'r emynydd,

'Fynni dithau, f'enaid fod
yn y canol heb rhod clod?'

GŴYL NADOLIG LLANBERIS

RHAGFYR 6 2003

10.30 a.m. – 4.30 p.m.
Ffair Grefftau (mynediad am ddim) ym Mynydd Gwefru (cysylltu a Nigel Rose, 01492 660209)

12.00 – 4.30 p.m.
Grotto Sion Corn (tal mynediad) yn cael ei gynnal gan Gylch Meithrin Llanberis ym Mynydd Gwefru

4.45 p.m. – 7.00 p.m.
Ymgynnull y tu allan i Mynydd Gwefru cyn ymuno mewn Gorymdaith Nadoligaidd trwy'r Stryd Fawr. Rhoi'r Golau Nadoligaidd ymlaen efo canu carolau ac adloniant gan Samba Bangor, Côr Meibion Dyffryn Peris, Lleisiau Lliwedd a Brownies Llanberis!

Am ragor o wybodaeth
01286 871951/872702
llanberisproject@gwynedd.gov.uk

7.00 p.m.
Tan Gwyllt i orffen y noson!

Trefnwyd gan Bartneriaeth Llanberis ar ran Consortiwm Busnes Ardal Llanberis. Wedi ei noddi a'i gefnogi gan: Gyngor Cymuned Llanberis, Euro DPC, First Hydro & Electric Mountain, WDA, Amgueddfa Lechi Cymru.

LLYFRAU NEWYDD

Gwasg Gwynedd

Theleri Thŵp
(Cyfres y Cewri 26)
Dewi Pws Morris
Hunangofiant yr actor a'r diddanwr unigryw.

Crych dros dro
(Cyfres y Cewri 27)
Gwilym Owen
Hunangofiant y darlledwr a'r newyddiadurwr profiadol, praff a phigog!

Blwyddyn Iolo
Iolo Williams
Ein naturiaethwr amlycaf yn ymdrin yn ddifyr â byd natur Cymru yn ei holl amrywiaeth.

Pregethwrs Môn
Emlyn Richards
Chwyddwydr yr awdur poblogaidd y tro hwn ar bregethwrs yr ynys – i ddilyn y porthmyn a'r potsiars.

Merch Noeth
Sonia Edwards
Nofel newydd synhwyrus un o'n hawduron mwyaf cynhyrchiol.

Brwydr y Bradwr
Cefin Roberts
Y gyfrol a enillodd i'r awdur Fedal Ryddiaith yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod.

CHWILOTA

(Parhad o dudalen 9)

roedd Brwynog Jones yn byw yn rhif 1 York Terrace, ac Alaw Mai yn rhif 7. A dyna sut y bu'r camddealltwriaeth. Derbyn galwadau ffôn roeddwn ynglŷn â sylwadau'r rhifyn cynt am y Bing a York Terrace, ac wrthi'n brysur yn ceisio sgwennu nodiadau yr un pryd. Ac rwy'n siŵr y cytunwch fod 1 a 7 yn gallu bod yn debyg iawn i'w gilydd mewn sgribl flêr. Ac os oedd y ddau yn byw yn yr un tŷ – onid yr un person oeddynt? Wel NA!

Enw cywir Alaw Mai oedd Richard David Jones, a ddeuai'n wreiddiol o Gae Poeth, Llanrug. Roedd yn organydd yn Eglwys Sant Padarn. Bu ei fab, Watkin Jones, yn ddisgybl athro yn Ysgol Ganol Llanrug, ac yn ddiweddarach, yn brifathro Ysgol Tan y Coed, Penisarwaen. Roedd yntau, fel ei dad, yn gerddorol, a bu'n organydd yn y Gadeirlan ym Mangor.

Awgrymwyd mai Victoria Terrace oedd y stryd gyntaf o dai i'w hadeiladu yma, ac mai'n fuan wedi ymweliad Dug a Duges Efrog yr adeiladwyd York Terrace. Ni chafwyd cadarnhad pendant o hynny hyd yma, ond mae amryw yn chwilio.

Yr hen ddull o wneud menyn

Ddau rifyn yn ôl roeddwn yn holi ynghylch cystadleuaeth yn Sioe Flynyddol Llanrug a gynhaliwyd ddechrau'r ganrif ddiwethaf yng nghastell Bryn Bras. Roedd angen gwneud menyn 'yn yr hen ddull', a holwn innau beth oedd hwnnw. Awgrymodd Eirwyn Williams, Llwyncoed, Cwm y Glo, mai'r dull o wneud menyn cyn defnyddio separator oedd yr 'hen ddull'. Byddai angen cadw'r llefrith nes byddai'n dechrau 'troi' (hynny yw, suro), ac yna'i gorddi'n araf. Byddai'r mwyafrif o wragedd y mân dyddynnod yn yr ardal yn defnyddio'r llefrith oedd yn weddill o anghenion yfed y teulu, i wneud menyn. Weithiau, byddai'n cael ei gadw yn y llaethdy o un wythnos i'r nesaf – a hynny'n rhoi blas arbennig i'r menyn – blas a elwid yn flas hir-hel, sy'n awgrymu ei fod fymryn yn 'stale'!

Yn y gaeaf, a'r llaethdy yn rhy oer i'r llefrith ddechrau suro, dull syml o'i gael i 'droi' fyddai rhoi potel bridd yn llawn dŵr poeth, i sefyll yn y llefrith.

Meddyginiaethau Cartref

Rai misoedd yn ôl bellach, cafwyd ymateb da i wybodaeth am drigolion lleol yn gwneud mathau arbennig o eli i'w defnyddio at wahanol anhwylderau. Mae cyfaill yn ceisio gwneud casgliad o enwau am y gwahanol feddyginiaethau hyn. Daeth ar draws dau enw sy'n debygol o ddod o'r cyffiniau hyn, sef Eli Waen Wen ac Eli Kitty Ifans. Mae'r enw cyntaf yn awgrymu mai o ardal Pentir a Glasinfryn mae'r eli hwn yn deillio. Ond pwy oedd Kitty Ifans? A faint ohonoch sy'n cofio, neu hyd yn oed wedi defnyddio Enaint Gwella Pawb? Cwmni William Jones o Lerpwl oedd yn gyfrifol am ei gynhyrchu, ac fe welwch o'r hysbyseb ei fod yn cael ei frolio i'r cymylau, ac yn llythrennol, yn gwella bron pob clwyf!

Os oes unrhyw un o'r darllenwyr yn medru taflu goleuni ar y ddau enw, neu'n medru rhoi enwau mathau eraill o eli cartref, yna anfonwch air.

A dyna'r cyfan am y mis hwn. Does ond cwta bythefnos nes daw rhifyn y Nadolig o'r wasg, felly cofiwch gysylltu rhag blaen os oes gennych unrhyw sylwadau, gwybodaeth neu ymholiadau i'w gwneud ynglŷn â hanes lleol bro'r 'Eco'. Anfonwch at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffôn: 01286 673515).

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo

MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: **(01286) 674520**

Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc



Hysbyseb yn clodfori rhagoriaethau 'y feddyginiaeth orau' gan gwmni William Jones, Lerpwl.

CARTHEN PWLLHELI



Carthen Pwllheli sy'n wead cywrain yn darlunio Coleg y Brifysgol Aberystwyth – CYMRU FYDD a Chastell Caernarfon – CYMRU FU.

Argraffwyd yr erthygl dan y testun uchod o'm heiddo yn rhifyn Tachwedd o'r *Eco* yn gynamserol, gan iddi gael ei diogelu ar ddisg oedd yn cynnwys newyddion lleol Brynrefail am y mis hwnnw. Y bwriad oedd cynnwys yr erthygl ynghyd â darlun o'r garthen i'w chyflwyno i'r golofn Chwilota, sydd â'i hawdur wedi crybwyll mewn rhifyn blaenorol fod enghraifft o'r cyfryw garthen yn 'hongian yn un o gartrefi bro yr Eco'. Mae fy hirhoedledd i yn ceisio dod a phethau at ei gilydd ar gais llawer un yn rhannol gyfrifol am yr amryfusedd. Ymddiheuraf am i'r erthygl lithro o'm gafael i'r wasg cyn cwblhau y manylion terfynol.

LOWRI ROBERTS WILLIAMS,
BRYNREFAIL

Nadolig Llawen a diolch am eich cefnogaeth
oddi wrth
Alwyn a Sarah

Blodau Racca

Penisarwaun Ffôn **870605**

- Rithoedd Celyn, Coed Nadolig a 'Crem Pots'
- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad *Talking Pages* 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

RHODD O'R GALON YW BLODAU

RAS PENMAENMAWR

Dau o redwyr bro'r 'Eco' ddaeth i'r brig yn ras flynyddol Penmaenmawr ar yr ail Sadwrn yn Nhachwedd. Colin Donnelly o Ddinorwig oedd yn fuddugol, yn cael ei ddilyn yn yr ail safle gan Dylan Jones o Ddeiniolen. Yn dilyn glawogydd trymion y ddau ddiwrnod blaenorol, roedd y cwrs yn eithriadol drwm, a rhedwyr yn suddo bron at eu pengliniau yn y donnen rhwng mynydd Tal y Fan a'r Graig Lwyd, uwch chwarel Penmaenmawr. Y syndod oedd fod dros gant o redwyr wedi mentro allan dan y ffasiwn amgylchiadau, ond mae'n amlwg fod cryfder y ddau o barthau uchaf bro'r 'Eco' wedi bod yn ddigon i gadw gorcuon gogledd Cymru tu cefn iddynt.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

Cyfarchion Nadoilg
CWM Y GLO

SWYDDFA'R POST

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb ym menter gymunedol

CYFEILLION Y CWM
A SWYDDFA'R POST CWM Y GLO

Siop: **9–4 Llun a Gwener; 9–12 Mawrth, Mercher a Iau; 10–12 Sadwrn**

Post: **9–11.45 Llun, Mawrth, Iau, Gwener; 9–11 Mercher**

Ffôn: 872722 Diolch am eich cefnogaeth yn 2003
Edrychwn ymlaen i'ch gwasanaethu drwy gydol 2004

OAK AM BETROL, DEISEL OAK
OLEW AC AMRYFAL
ANRHEGION MODURO

GORSAF BETROL
LONDON GARAGE
CWM-Y-GLO

Ffôn: Llanberis 872046

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i gwsmeriaid hen a newydd oddi wrth
BILL a JACKIE

SNOWDON HOTEL
Y FRICSAN
CWM-Y-GLO Ffôn 870289

- Cinio 'Dolig ar gael drwy gydol mis Rhagfyr. Archebwch yn fuan. Pris: o £9.99 am 3 chwrs.

Ffoniwch i wneud yn siŵr fod lle ar ôl!

- Cofiwch hefyd – bob dydd Sul, Cinio Rhost blasus 2 gwrs am £5.99; 3 chwrs am £6.99

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

ODDI WRTH

MORRIS BROS.

BECWS GORS BACH, CWM Y GLO
Ffôn: Llanberis 870430

HEFYD YM
MECWS PEN Y BRYN
LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268
70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 675526

IN MEMORIAM

(Cymru v Rwsia)

Taro y post oedd mor gostus – yn boen
Am hir, beniad gwallus.
Ein ffawd bod yn anffodus
Cadw'n barch nid codi'n bys.

RLJ

---

menter fachwen
Caban y Cwm, Cwm-y-Glo

Ffair Nadolig
Dydd Iau 4 Rhagfyr o 11.00 - 7.00
Agorir y ffair gan
Morfudd Hughes, Rownd a Rownd
Stondinau, Raffl, Nwyddau Nadolig
Siôn Corn o 3.00 ymlaen
Mynediad am ddim
Coffi a mins pei - £1

* * * * * * * *

Bwffe Nadolig
Dydd Iau 11 Rhagfyr 11.00 - 2.00
£6.50

Nadolig llawen i'n holl gwsmeriaid
a diolch am eich cefnogaeth

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Richard S. Humphreys

FINE ART TRADE GUILD

ORIEL CWM
Cwm-y-glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth **IRFON** a phawb yn

LONDON GARAGE
Cwm-y-glo
Ffôn: 870234

Ar agor: 8.30–6 Llun–Gwener
8.30–1 Sadwrn

MOT. Disel, Petrol
Gwasanaeth ac
Atgyweirio

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YSGOL CWM Y GLO

Bu'r mis hwn yn brysur eto gan ddechrau gyda'n gwasanaeth Diolchgarwch. Cyflwynodd y Babanod eu gwasanaeth hwy ar y thema 'Trysor y Goedwig' tra bu'r Adran lau yn sôn am gyfrifoldeb dyn tuag at y blaned a'r holl gyfoeth sydd arni. Eleni cyflwynir y rhoddion ariannol o £120 i Rhys Parry o Ddeiniolen, sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac yn Alder Hay yn Lerpwl. Anfonwn ein dymuniadau gorau iddo ef a'i deulu, gan fawr obeithio y bydd yn gwella a chryfhau o ddydd i ddydd.

Braf iawn oedd cael croesawu Uylia atom am fore. Merch fach naw oed o Belarws yw Uylia ac fe gafodd fynd gyda phlant B1. 3 a 4 i nofio. Doedd ganddi ddim un gair o'n dwy iaith ni ond diolch fod pawb yn deall y weithred fach o wenu! Cyflwynodd Rebecca Williams, B1. 6 lond bocs o anrhegion bychain cyn iddi adael. Rhaid canmol Ann a Bert Parry o Lanberis am agor drws eu cartref a rhannu eu haelwyd gyda Uylia am fis cyfan. Roedd hi'n amlwg fod yr eneth fach wrth ei bodd yn eu cwmni.

Bu'r Babanod yn crwydro drwy Coed Doctor yn Llanberis gyda Jane o'r Comisiwn Coedwigaeth yn eu tywys. Cawsant ddiwrnod bendigedig o Hydref i wneud y gwaith ac roedd pawb wedi mwynhau.

Cafodd yr un plant fwynhau ymweliad Cwmni'r Frân Wen pan ddaethant i gyflwyno Lleisiau yn Coed yn neuadd yr ysgol. Roedd hwn, fel arfer, yn berfformiad gwerth chweil a phob un o'r plant wedi llwyr ymgolli yn y sioe.

I Gaernarfon aeth B1. 3 a 4 ac i Safeways. 'Siopau ' yw eu thema ac fe gawsant olwg gwahanol iawn ar fywyd yn un o siopau mawr y dref. Diolch o galon i Mr. Gareth Hughes am roi prynhawn mor ddiddorol iddynt – yn arbennig yn y becws mawr!

Enillwyr Clwb yr Ysgol am fis Hydref oedd Andrea Lewis, 14 Dolafon; Mrs. Gwyneth Roberts, Bod Gwynedd, Cwm y Glo a Cai Glyn Oliver, Gors, Brynrefail. Llongyfarchiadau mawr i chwi.

Mae gwefan yr ysgol bellach wedi ei lansio a daeth nifer o rieni, plant a ffrindiau draw i Gaban y Cwm. Peth braf iawn yw gweld cystal ymateb i'r ymgyrch. Gawsom dros 6,000 o 'hits' ar ddiwrnod y lansio. Rydym wedi cael cyn ddisgyblion yn cysylltu aâni – rhai o Gaernarfon a rhai o California ! Daliwch ati.

Llongyfarchiadau i deulu bach Ollie sydd yn y Flwyddyn Derbyn. Fe anwyd chwaer fach iddo. Croeso mawr i Anya a phob bendith ar y teulu bach.

Y mis hwn rydym wedi cael chwareuon yn yr Urdd tra mae Campau'r Ddraig yn mynd o nerth i nerth. Bydd twrnament ym mis Rhagfyr rhwng yr ysgolion lleol.

Cofiwch am ein cyngerdd Nadolig – pnawn a nos Fawrth, Rhagfyr 9fed a phnawn a nos lau, Rhagfyr 11fed. Croeso i chwi ymuno gyda ni. Ffoniwch yr ysgol os ydych am i ni gadw tocyn i chwi.

Ar ddydd Mercher, Rhagfyr 10 bydd Anti Janet ac Anti Chris yn paratoi cinio Nadolig yn yr ysgol. Bydd edrych ymlaen yn fawr at y pryd blasus hwn eto eleni.

Bydd Bingo yn yr ysgol ar nos Fercher, Rhagfyr 17eg – croeso cynnes i bawb. Unwaith eto fe gawn barti Nadolig a Disgo ar bnawn Dydd lau, Rhagfyr 18fed.

Wrth gloi, fe garwn i ddymuno Nadolig Llawen iawn i holl ffrindiau'r ysgol yn y fro. Diolch i chwi am eich cefnogaeth i ni ar hyd y flwyddyn gan obeithio y cewch flwyddyn ddedwydd a bendithiol yn 2004.

UNDEB Y MAMAU

Cyfarfu'r gangen yn yr ysgol gymuned nos Lun Hydref 6. Croesawodd Mrs. Dorothy Jones bawb i'r cyfarfod â gwasanaeth byr. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi Mrs Kath Jones, Miss Meira Williams, Mrs Marjorie Roberts a'r Curad Vittoria Hancock. Darllenwyd munudau o'r cyfarfod a gafwyd ym mis Medi a phasiwyd eu bod yn rhai cywir. Trafodwyd materion oedd i law.

Croesawodd Mrs Jones y wraig wâdd – Miss Glenys Parry, Llanberis. Cafwyd noson ddiddorol iawn yn gwrando ar Miss Parry yn sôn am fywyd ei mam. Yr oedd hefyd wedi dod a gwniadwaith wedu eu gwneud gan ei mam.

Yn gofalu am y lluniaeth oedd Mrs Menna Roberts, rhoddwyd y raffl ganddi hefyd ac fe'i henillwyd gan Mrs Hilda Orritt. Diolchwyd i Miss Parry ac i Mrs Roberts, gan Mrs Joyce Ransom. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

Cyfarfu'r gangen yn yr Ysgol Gymuned eto nos Lun 3 Tachwedd. Croesawodd Mrs. Dorothy Jones pawb i'r cyfarfod a chafwyd gwasanaeth byr.

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs. Marjorie Roberts, Mrs. Menna Roberts, Mrs. Kath Jones a Mrs. Gwen Owen. Trafodwyd rhai materion a godwyd ym mhwyllgor y Ddeoniaeth a gynhaliwyd ym Mhortdinorwic ar 27 Hydref.

Bydd gwasanaeth a Charolau yn cael ei gynnal yn Eglwys Sant Gabriel Nos Lun I Rhagfyr. Croeso cynnes i bawb.

Treuliwyd y gweddill o'r noson yn gwrando ar ein Curad Viottoria Hancock yn sôn am y grefft, Origami. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Miss. Meira Williams a Mrs. Dorothy Jones . Diolchwyd iddynt ac i'n Curad gan Mrs. Enid Taylor. Rhoddwyd y raffl gan Mrs. Jones ac fe'i henillwyd gan Mrs. Taylor. Terfynwyd y cylarfod trwy adrodd y Gras.

CYNGERDD. Cynhelir cyngerdd o dan nawdd 'Cerdd Byw Cymru' yng Nghartref Preswyl Penisarwaun, gyda Gwenan Gibbard yn canu gyda'r delyn. Mae gwahoddiad i'r ardal ymuno â'r preswylwyr i fwynhau'r prynhawn Sadwrn, 29 Tachwedd yn cychwyn am 3 o'r gloch y pnawn. (Ffoniwch i ddweud os ydych am fynd er mwyn i chi gael paned, ar 01286 872038.)

DYMUNA Dilys Jones, 4 Bryn Hyfryd ddiolch yn fawr i bawb am eu caredigrwydd tuag ati ar ôl triniaeth i'w llaw yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl ei phrofiad yn ddiweddar.

EGLWYS SANT GABRIEL.

Cynhaliwyd yr Ŵyl Ddiolchgarwch dydd Sul, 19 Hydref. Fore Sul gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan Esgob Bangor, y Gwir Barchedig Saunders Davies. Gwasanaethwyd yn y nos gan y Parchedig Wyn Roberts, Caplan Ysbyty Gwynedd.

Yr organyddoion yn y ddau wasanaeth oedd Mrs Heulwen Parry a Mrs Alwena Hughes Jones. Y darllenwyr oedd Mrs Dorothy Jones, Mrs Hilda Orritt, Mrs Gwyneth Roberts a Mrs Margaret Williams (Nant Forgan). Dymuna'r Curad y Barchedig Vittoria Hancock a'r wardeniaid ddiolch i bawb am addurno'r eglwys mor hardd ac am y rhoddion o lysiau a ffrwythau a blodau hardd yn ystod yr Ŵyl.

NOSON GOFFI. Nos Lun, 20 Hydref cynhaliwyd Noson Goffi yn yr Ysgol Gymuned. Diolch am y rhoddion ariannol ac am y rhoddion tuag at y raffl. Diolch o galon i bawb am eu cefnogaeth. Yr elw at Eglwys Sant Gabriel. Enillwyr y raffl fawr oedd:

£50: Myfanwy Roberts, Arfryn, Llanrug; £30: Mrs Margaret Williams, Goleufryn; £20: Mr Gareth Williams, 18 Rhos Rug., Llanrug. Bocs o nwyddau: Mrs Owen, 60 Maes Gwynedd, Caernarfon; Bocs o lysiau: Mrs Williams, 30 Dôl Afon, Cwm y glo; Bocs o ffrwythau: Mrs Rowlands, Arenig, Ffordd Bethel, Caernarfon; Baileys Irish Cream: Richard Ross, Siop Ddodrefn, Cwm y glo; Style Shaper: Y Pantri Cymreig, Caernarfon; Bocs o nwyddau: Mrs Alice Jones, Min Awel, Bethel; Bocs o lysiau: Mrs Susan Roberts, 21 Cae Mur, Caernarfon; Siocled: Elwyn Evans, Hafan Elan, Llanrug (gynt); Bocs o nwyddau: Mr Bobby Haines, Caernarfon; Bocs o fisgedi: Mrs Evans, 4 Trem Eilian, Brynrefail; Personal Organiser: Mr Owen, 51 Lôn Ogwen, Bangor; Bocs o nwyddau: Mr Sam Evans, Tre Gof, Caernarfon; Bocs o lysiau: Jen Roberts, Ysgol Cwm y glo; Gwin coch: Mrs Williams, 45 Maes Barcer, Caernarfon; Diod y winwydden wen: Mr Williams, 57 Maes Barcer; Spoon Rest: Wendy (674736); Bocs o lysiau: Elwyn Evans, Hafan Elan, Llanrug (gynt); Sgarff a menyg: Val, Bryn Gwna, Caeathro.

Enillydd raffl ar y noson oedd Mrs Hilda Orritt, Cwm y glo.

DIOLCH. Dymuna Marjorie Roberts, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y rhoddion o flodau, ffrwythau a siocled, y glawadau ffôn a'r cardiau ar ôl y ddamwain a gafodd ddiwedd mis Medi.

CAPEL Y TABERNACL.

DIOLCHGARWCH. Cynhaliwyd Gŵyl y Diolchgarwch dydd Sul, 19 Hydref gyda'r Parch Gwynfor Williams yn gwasanaethu. Diolch i Mrs Mair Huws, prifathrawes yr ysgol a phawb a fu'n hyfforddi'r plant ar gyfer yr ŵyl. Hyfryd oedd cael gwel y plant a'u rhieni a'u ffrindiau yn ymuno yn y gwasanaeth arbennig hwn.

Dyma drefn yr oedfaon am fis Rhagfyr:

7: Dim oedfa;
14: Dr Dafydd Williams – 5.30;
21: Parch Gwynfor Williams – 4.00
28: Noson o Garolau, amser i'w drefnu.

MARWOLAETH. Yn dawel ddydd Gwener, 14 Tachwedd 2003 bu farw Mrs Jennie May Parry, Penrhos, Bangor (gynt o Stryd Newydd). Athrawes oedd Mrs Parry yn ôl ei glwedigaeth ac yn fawr ei pharch gan bawb â'i hadwaenai. Bu'n aelod ffyddlon yng Nghapel y Tabernacl ar hyd y blynyddoedd. Bu ei hangladd yn y Capel ddydd Gwener, 21 Tachwedd a rhoddwyd i orffwys ym mynwent Llanrug. Gwasanaethwyd gan y Parch Gwynfor Williams gyda Mr Gareth Jones wrth yr organ. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w chwaer yng ngyfraith, Mrs Beryl Parry, Hebron, a'r teulu yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

ADREF O'R YSBYTY. Dymunwn adferiad buan i Mrs Dilys Jones, Bryn Hyfryd a Mrs Ann Hughes, Dôl Afon ar ôl derbyn triniaethau yn Ysbyty Gwynedd.

YN YR YSBYTY. Dymunwn wellhad buan i Mrs Enid Price, Stryd Newydd, sydd yn Ysbyty Gwynedd.

GWELLHAD BUAN i Mrs Marjorie Roberts, Bod Gwilym, ar ôl disgyn a thorri ei braich.

LLONGYFARCHIADAU i Rennee a Rob, Carreg y Frân, ar enedigaeth mab, Daniel, brawd bach i Jessica.

CEUNANT

ADREF O'R YSBYTY. Hoffai Mrs Olwen Jones, Y Garth, Ceunant, ddiolch yn fawr iawn i'r teulu a'i ffrindiau am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati yn ystod y cyfnod y bu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ
(i arbed colled i chi);
YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu
YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda **CDH**

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055

CYFARCHION NADOLIG DEINIOLEN

Newyddion DEINIOLEN
(Parhad)

PRIODAS. Llongyfarchiadau i Elaine Mai Wiliams, Pen-y-golwg, a Mustafa Farran o Syria, ar eu priodas yn y Swyddfa Gofrestru, Neuadd y Dref, Bangor, ar 27 Medi 2003. Byddant yn ymgartrefu ym Manceinion. Dymuniadau gorau iddo wrth y ddau deulu.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR

Bob math o waith trydanol i'r **Cartref**, ac i **Sefydliadau Masnachol** a **Diwydiannol**

Tel: **(01286) 879064** • Symudol: **07810736482**

Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd

Shaun Jones, Terannedd, Rhes Cynfi, Deiniolen LL55 3LG

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth pawb yng

TICEDI LOTERI!

Nghorsaf Betrol BERAN

01286 871 521

Ar agor 7a.m - 9p.m. bob diwrnod

Petrol . Diesel . Nwy Calor. Glo . Wyau

Cylchgronnau . Papurau Newydd . Cardiau

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Esso

Dymuna **DAFYDD** a staff

Y TARW (Bull Inn)

DEINIOLEN

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I'W CWSMERIAID A FFRINDIAU OLL

CYFARCHION Y TYMOR A'R DYMUNIADAU GORAU AM Y FLWYDDYN NEWYDD

oddi wrth

GWYN OLIVER JONES

Bar Swper Arfonia

DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 870048

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Karen, Malcolm a staff y

WELLINGTON INN

Deiniolen

Ffôn (01286) 870227

CWRW BLASUS CHWERW AR EI ORAU

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA

oddi wrth

bawb yn

ARFON GARAGE

DEINIOLEN

(Ffôn: Llanberis 870287)

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd

DEINIOLEN

Llanberis 870484

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

DYMUNA Mrs E. Williams, Cerrig yr Afon, Felinheli, gynt o 13 Deiniol Road, ddiolch yn fawr am y llu cardiau ac anrhegion a gafodd ar ei phen-blwydd yn 90 oed.

Hefyd dymuna Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu a'i chyfeillion gan na fydd yn gyrru cardiau Nadolig eleni.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod nos Lun, 17 Tachwedd. Llywyddwyd gan Buddug Jones. Estynnodd groeso cynnes i bawb gan anfon cofion at Joyce Jones, Llanrug sydd wedi cael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd, ac at Buddug Jones, Caernarfon, sydd wedi cael profedigaeth.

Ein gwraig wadd oedd Theta Owen, Mynydd Llandegai, a bu'n arddangos sut i wneud trefniant o flodau dail a ffrwythau at y Nadolig. Eirian Jones a enillodd y trefniant, ac Elisabeth Hughes ac Ann Lloyd y raffl. Ni chynhelir noson eto tan 19 Ionawr 2004, pan geir noson o grosio dan ofal Ann Lloyd.

DYMUNA Mrs Mary Catherine Jones, Tan y Caerau, Clwt y Bont ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu a chyfeillion, gan na fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni.

CYNGERDD. Cynhelir cyngerdd o dan nawdd 'Cerdd Byw Cymru' yng Nghartref Preswyl Penisarwaun, gyda Gwenan Gibbard yn canu gyda'r delyn. Mae gwahoddiad i'r ardal ymuno â'r preswylwyr i fwynhau'r prynhawn Sadwrn, 29 Tachwedd yn cychwyn am 3 o'r gloch y pnawn. (Ffoniwch i ddweud os ydych am fynd er mwyn i chi gael paned, ar 01286 872038.)

YSGOL GWAUN GYNFI

Cyngerdd Nadolig: Bydd y cyngerdd yn cael ei gynnal mewn dwy sesiwn eto eleni – pnawn a nos – dydd Mercher, 10 Rhagfyr 2003.

Gwyliau Nadolig: Bydd yr ysgol yn cau ddydd Gwener, 19 Rhagfyr ac yn ailagor 6 Ionawr.

Operation Christmas Child: Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth a bocs esgidiau i'r ysgol. Casglwyd tua 100 o focsys eto eleni.

Catherine Aran: Mae Catherine Aran wedi ail-drefnu ar gyfer 24 a 26 Tachwedd a 1 Rhagfyr.

Cinio Nadolig y Plant. Bydd y plant yn cael eu cinio Nadolig ar ddydd Iau, 11 Rhagfyr, diwrnod ar ôl y Cyngerdd Nadolig.

Ffair Nadolig: Nos Wener, 5 Rhagfyr: Cynhelir ffair Nadolig yn yr ysgol ar nos Wener, 5 Rhagfyr am 6 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Sioe Bypedau a Gwyddoniaeth: Bydd y pypedwr enwog, Marc Griffiths, yn dod i'r ysgol ar ddydd Mawrth, 25 Tachwedd. Mae o'n arbennig o dda a bydd yn trafod byw a bwyta'n iach, camddefnyddio cyffuriau ac ymddwyn yn fonheddig, gan ddefnyddio'r pypedau wrth siarad gyda'r plant.

Addysg Bersonol a Chymdeithasol – Cyfarfod i'r Rhieni: Bydd Mrs Jean Marshall a Mrs Wendy Ostler yn dod i'r ysgol ar nos Iau, 26 Tachwedd i siarad am Addysg Bersonol a Chymdeithasol gyda'r rheini. Mae hwn yn gyfle da i'r rhieni gael mwy o wybodaeth am addysg y plant a gobeithiaf y gall nifer ohonoch fod yn bresennol erbyn 6.30pm.

Canlyniadau TASAU 2003: Rwy'n siŵr y byddwch yn falch o glywed fod canlyniadau TASAU Ysgol Gwaun Gynfi yn 2003 yn uwch na chyfartaledd Brynrefail a Gwynedd.

Pantomeim: Bydd y plant yn mynychu Theatr Gwynedd ar 18 Rhagfyr, i weld pantomeim Gwylliaid Cochion Mawddwy.

Cymeraf y cyfle hwn i ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

EISTEDDFOD GWAUN GYNFI. Cynhaliwyd Eisteddfod Gwaun Gynfi, Deiniolen dydd Sadwrn, 25 Hydref.

Cafwyd cystadlu brwd drwy'r dydd gyda safon uchel iawn, a da o beth yw gweld yr Eisteddfod yn dal ei thir.

Enillwyd y Gadair gan Mr T. Graham Williams, Cwm Tawe, a'r Fedal Lenyddol dan 21 oed gan Ilid Price Humphreys, Malltraeth, Ynys Môn.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfranodd at lwyddiant yr Eisteddfod, ac yn enwedig i garedigion yr Eisteddfod a'r hysbysebwyr. Os oes unrhyw un sydd â diddordeb yn yr Eisteddfod yn dymuno dod ar y Pwyllgor, yna cysylltwch â Hefin Jones (01286 674760). Mae gwir angen gwaed newydd.

Dyma'r canlyniadau:

Adrodd – Ysgol Feithrin (bore): 1. Awel Fflur; 2. Miriam.
Canu Ysgol Feithrin (bore): 1. Awel Fflur, 2. Miriam.
Adrodd Ysgol Feithrin (pnawn): 1. Lianne, 2. Alatea a Prys, 3. Enlli.
Canu Ysgol Feithrin (pnawn): 1. Leanne, 2. Prys, 3. Alatea.
Dosbarth Derbyn (Adrodd): 1. Alex.
Canu Dosbarth Derbyn: 1. Alex
Adrodd Bl. 1 a 2: 1. Tomos, 2. Osian a Stacey, 3. Catrin Llywelyn.
Canu Bl. 1 a 2: 1. Tomos, 2. Catrin Llywelyn, 3. Catrin Jones.
Adrodd Bl. 3 a 4: 1. Amy.
Adrodd Bl. 5 a 6: 1. Danielo, 2. Cadi.
Canu Bl. 5 a 6: 1. Kimberley, 2. Daniel a Gweno, 3. Owain Glyn.
Unawd Offerynnol (ac eithro piano) dan 12 oed: 1. Daniel Ellis, 2. David, 3. Mandy.
Canu Emyn dan 12 oed: 1. Daniel Ellis, 2. David, 3 Mandy ac Owen Glyn.
Unawd Piano dan 12 oed: 1. Anest Bryn.
Parti Canu dan 12 oed: 1. Parti Llanbabs.

Enillwyd Tlysau am yr ymgais orau dan 12 oed gan y canlynol:
Adrodd: Daniel Ellis, *Cerdd*: Daniel Ellis, *Arlunio*: Chritien Owen, *Llenyddol*: Cadi Murphy.

Cyfarfod nos Sadwrn

Unawd dan 16 oed: 1. Manon, 2. Ffion a Sian, 3. Stephanie.
Adrodd dan 16 oed: 1. Elen, 2. Kaileigh, 3. Hanna ac Angharad.
Unawd Offerynnol (ac eithro piano) dan 16 oed: 1. Lois Eifion, 2. Elen.
Unawd Cerdd Dant dan 21 oed: 1. Elfed Morris, 2. Elen.
Cân Werin dan 25 oed: 1. Elen, 2. Hanna.
Unawd Piano dan 21 oed: 1. Elen, 2. Lois ac Emma.
Cân o unrhyw Sioe Gerdd – agored: 1. Elfed, 2. Elen, 3. Sian.
Unawd 16–21 oed: 1. Elfed Morris.
Adroddiad Digri Agored: 1. Graham Williams, 2. Euryn.
Deuawd Agored: 1. Manon a Ffion.
Ymgom Agored: 1. Euryn, 2. Graham Williams ac Elen.
Cân Werin Agored: 1. Robart John.
Prif Adroddiad: 1. Elen, 2. Graham ac Euryn.
Her Unawd: 1. Clarence.

Tlws am yr ymgais orau adran Gerdd dan 21 oed: Elfed Morris.
Adran Gwau a Gwnio: Valmai Williams,
Adran Glef a Chrefft: Sophia Williams.
Adran Gwaith Coed: Sophia Williams.
Tlws y Cerddor dan 21 oed: Elfed Morris.
Cyfansoddi Tôn: 1. Valmai Williams, Aberdesach; 2. Goronwy Jones, Morfa Bychan a Gwilym Lewis, Caergybi.

Cystadlaethau Llên

Dosbarth Meithrin: 1. Enlli, 2. Gerwyn, 3. Gwïon.
Dosbarth Derbyn: 1. Gwydion, 2. Harri, 3. Ffion.
Blwyddyn 1: 1. Catrin Medi Jones, 2. Catrin Llywelyn Gruffydd, 3. Lowri Jones.
Blwyddyn 2: a. Iona, 2. Callun, 3. Catrin.
Blwyddyn 3: 1. Heddwen Williams, 2. Jack Regan, 3. Gerwyn Jones.
Blwyddyn 4: 1. Owain, 2. Gwïon, 3. Ceirion.
Blwyddyn 5 a 6: 1. Cadi Murphy a Daniel Wood; 2. Daniel Ellis a Kelly Ann Jones; 3. Richard Cashman ac Arwyn Maxwell.

Enillydd y Tlws am ymgais orau'r *Adran Lenyddol* dan 12 oed oedd Cadi Murphy.
Rhyddiaith dan 16 oed: 1. Kayleigh Louise Jones, Deiniolen; 2. Sarah Angharad, Rhosgadfan.
Medal Lenyddol dan 21 oed: Ilid Price Humphreys, Malltraeth.
Stori fer: Ann Wyn Owen, Rhoscolyn.
Englyn: Elfed Lewis, Talybont, Conwy.
Telyneg: Valmai Williams, Aberdesach.
Limrig: Ann Wyn Owen, Rhoscolyn.
Llinell Goll: T. Graham Williams, Cwm Tawe.
Portread: Elieen Roberts, Pontrhydybont, Môn.
Emyn i blant: Helen Royle Edwards, Bontnewydd.
Brawddeg: Carys Briddon, Tre'; Ddôl, Aberystwyth.
Y Gadair: T. Graham Williams, Cwm Tawe.

Y SEINDORF. Noson o ganu Carolau yng nghwmni'r Band a'r Band Ieuenctid yn Ysgol Gwaun Gynfi, nos Fercher, 17 Rhagfyr am 7.00 o'r gloch, gyda phaned a mins pei i ddilyn. Croeso cynnes i bawb. Dewch yn llu. Mynediad am ddim.

LLONGYFARCHIADAU i'r Band ar ennill dwy wobr, sef un cyntaf ac un ail, yng Nghystadleuaeth Pencampwriaeth Gogledd Cymru yn y Rhyl ddydd Sadwrn diwethaf. Hefyd Llongyfarchiadau calonnog iawn i Arwel Williams, a enillodd y brif wobr i'r chwaraewr corn unigol, gydag anrhydedd.

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR
•Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn
Ffôn: 650218

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764
neu
07050 357735
FFENESTRI
DRYSAU
DRYSAU PATIO
PORCHES
BYRDDAU FFASIA
CLADIO
CONSERFATERIS

BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

Llyncu!

'Mi lynci di r'wbath os rhoir digon o fachyn ac abwyd go sownd iddo!' ebe un cyfa'll wrtha i. Y rh'wbath hwnnw gellwch fentro eich pen yw stori, neu hanesyn, ac ym myd yr adar yng Nghymru mae amrywia'th o lysenwa cyfarwydd ac anghyfarwydd ar ga'l.

Llunir enwa i atab diben, ac mewn hyn o beth mae i'r Gymraeg ei chryfder. Ond be andros ydy llysenw meddech? Ia, dyna chwi, enw a roddir ar berson er mwyn ei fychanu, ei ddifrïo, a cha'l hwyl diniwed gan amla ar ei ben. Ond ar adega mae glasenw (llysenw), yn clodfori ac yn rhoi grym, fel enw i berson, e.e. *eryrod Eryri.* Dyma lysenwa er'ill sy'n dal cyswllt ag adar:

Tipyn o dderyn – un cyfrwys o gall; tipyn o foi.

Aderyn brith – creadur amheus iawn.

Fel iâr un-cyw – gwraig hefo un plentyn yn unig ganddi.

Mymryn o geiliog bantam/dandi ydi o – rhywun yn ffansïo'i hun yn arw.

Rêl ceiliog y gwynt – person sy'n newid ei feddwl ar amrantiad; un anwadal ac sy'n troi hefo pob awel er mwyn ceisio rhygnu bodda pobol er'ill.

Ceiliog pen doman – rhywun sy'n hoff o dra-rhcoli pan fo gartra.

Yr hen g'loman big iddi – un cwbwl ddi-drefn ac un a wna bopath rhywsut-rywsut.

Eos drwyn – un sy'n wastad yn canu drwy'i drwyn!

Fel regan yr ŷd – siaradwr diflas; un hirwyntog ar y naw.

Rhyw 'sguthan o ddynas – un ddiglem yr olwg ac anobeithiol adra ar yr aelwyd gan ei bod mor anhrefnus.

Gwenoliaid – ymwelwyr dros gyfnod o amser yn unig.

A chan imi grybwyll y gair *Ceiliog* uchod, yna mae'n ofynnol dyfynnu'r canlynol: Yn *Y Cymro* Ionawr 14, 1955 t.15 ceir llythyr o eiddo Bob Edwards, Cartref, Dinbych, ble mae'n crybwyll iddo weld ceiliog tra'n byw yn Llandrillo, ceiliog Plymouth Rock, a'r aderyn yn llyncu neidr 15–18 modfedd o ran hyd. Mae o hefyd yn dweud fod *tyrcwn* yn llyncu nadredd, ond mai yn Johannesburgh, De Affrica y digwydd hynny. Oes mwy o dystiolaeth ar ga'l gan ddarllenwyr Eco'r Wyddfa?

Ac yn ola, stori o Chwaral Dinorwig: 'Arferai CP sôn am ei wraig fel *yr hen iâr*. Roedd Robert O., hogyn rybela yn gwrando arno'n defnyddio'r ymadrodd hwn yn aml,

'Mae'r hen iâr acw reit handi, ac mi neiff y tro imi bellach.'

'Dew,' ebe'r rybelwr wrth un o'r dynion, 'Ma Charles yn gneud "ffys" garw gyda un hen iâr. Pam na gadwith o ragor ohonyn nhw deudwch? Mi dala'n iawn iddo fo.'

Williams, O.R., Porthmadog, *Wagenad o Straeon*, Tŷ ar y Graig, dd. tt.38–39.

* * *

Beth am ddanfon storïa tebyg, neu lysenwa sy'n gysylltiedig ag adar, atom i *Eco'r Wyddfa*. Yn ola, ac yn gwbwl ddiffuant, dros ŵyl y Nadolig ac i'r flwyddyn newydd, bob rhad a bendith.

GWERSI PIANO A CHANU

Sharon V. Williams B.A.

Pentir **(01248) 353746**

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

DYMUNA Maggie Griffiths (Beudy Mawr), ddiolch i bawb a'i noddodd i eillio ei phen er mwyn codi arian at achosion da. Mark Radcliffe o orsaf Radio 1 fu'n gyfrifol am dorri ei gwallt a da oedd gweld y digwyddiad ar y teledu noson Plant Mewn Angen!

DRAMA'R GENI: Cynhelir drama'r geni a chyfle i ganu carolau yn Eglwys Sant Peris ar nos Sul y 14eg o Ragfyr am 6.30 y.h. Bydd mins pei a sheri i ddilyn yn Ty'n Llan. Pris tocyn yw £3. Dewch i ymuno yn yr hwyl!

CANLYNIADAU CYSTADLAETHAU GŴYL FFAIR NANT:

Cystadleuaeth dylunio cardyn Nadolig – Gwynedd Roberts, Ystrad. Mae'r cardiau Nadolig ar werth yn y pentref!

Crosio: 1. Nancy Jones. 2. Nancy Jones. 3. O Morris. Gweu cardigan i fabi: 1. June Jones, 2. Dorothy Jones, 3. Maureen Lennon. Crosio siol: 1. Dorothy Jones, 2. Pat Turner, 3. Maureen Lennon. Gwnio babi dol: 1. Fiona. Tapestri: 1. Nancy Jones, 2. Dorothy Jones, 3. Anne Cumberton. Trefnu blodau: 1. Marga Bee, 2. Val Lloyd. 3, Margaret Ellis. Bara Brith: 1. Rhian Pritchard, 2il a 3ydd: Brenda Tweedale. Cacen Siocled: 1. Beth Owen, 2. Anne Jones, 3. Eirlys Lee. Jam ffrwythau: 1. Kathleen Pritchard, 2. Maureen Lennon, 3. Sara Davies. Gwin – 'sloe gin': 1. Beth Owen. 2il a 3ydd: Vittoria Hancock. Cacennau cri: 1. Beth Owen, 2. Myfanwy Davies, 3. Sara Davies. Ffotograffiaeth: (llun o unrhyw le o fewn Parc Cenedlaethol Eryri) 1. Alan Bee, 2. Shaun Kelly, 3. Brian Wakeman. Lluniau o anifeiliaid anwes: 1. Shaun Kelly. 2il a 3ydd: Vittoria Hancock. Celf: 1. John Ellis, 2il a 3ydd: Maureen Lennon. Limerigau Cymraeg: 1. Theresa Jones. 2. Meirion Pritchard. 3. Bedwyr Jones Limerigau Saesneg: 1. Maureen Lennon. 2. 'Jezebel'.

PLANT: Gorchudd Clustog: 1. Manon Pritchard. 2. Elin Morris. 3. Lily Krunpolet. Dyn Llysiau: 1. Elin Tomos. 2. Aron Jones. 3. Eleanor Lampard. Gardd ar blât: 1.Alice Cumberton.2. Rhian Morris. 3. Mared Morris. Dyn sinsir: 1. Mared Morris. 2. Aron ac Eban. Cacen sbwng: 1.Ceri Morris. 2. Sara Parry. 3. Bedwyr Davies. Ffotograffiaeth: (anifeiliaid anwes) 1 af ac ail: Aron Peris. 3. Kate Pritchard. Lluniau o ffrindiau: 1. Sioned Cumberton. 2. Rhian Morris. 3. Ceri Bryn Morris. Categori Arbennig; 1. Jamie Tomms. Darlun o'r pentref: 1. Elin Tomos. 2. Sian Elin. 3. Ariann Preston. Darlun o flodau: 1. Alice Butler. 2. Rhian W Morris. 3. Ariann Preston.

CANLYNIADAU RAFFL: 1, £150 – Margaret, Ty'n Lon. 2. £50 – 01932 221087. 3. Hamper: 01492621058. Pryd i ddau yn y Gwynedd Hotel: Angela Benbow. Pryd i 2 yn y Bistro: Shirley Davies. Tocyn Utopia: Eirian Mali. Cinio yng Ngwesty Victoria: Sian Davies. Pryd yn Tŷ cloc; 1. 01286671844, 07775932946. Set te: Ann Jones, £5 – Margaret Williams Bethel. Fframarian: Andrew Shauney. Set pastri: G Roberts. Gwin: Cled 870 391. Gwin: Val, Bangor. Slipars – Tony Beech Bank. Doli: Paul Harry. Dol: Peter Glan Bala. Sanau: Madge Davies. 'Bubble bath' – Gwenda Roberts. Bocs siocled: Gwenllian Hughes. Enwi'r tedi – (Tomos) Sioned Owen.

RAFFL CYFEILLION YR EGLWYS: Siol: Einir, 01766530327. £5 – Gwyneth 'Becws'. Pizza a peint Tŷ Cloc – Muriel Roberts. Tedi – Olivia, tegan meddal – 676333. Gwin – Lois 674091. Slipars – Cledwyn Parry. Llanberis. Bubble bath – Olivia. Sebon – Ceinwen, Llanberis. Bag molchi – Hilary Williams. Tegan meddal – Olwen Bryn. Pot pourri – Emma, 6 Glanrafon. Sgarff – Marga Bee. Enwi'r ddol (Iola) – Lynne Jarvis.

DIOLCHIADAU. Dymuna Aelodau Pwyllgor Gŵyl Ffair Nant ddiolch i'r canlynol am eu cyfraniadau a'u cymorth difesur: Rhian a Meirion Pritchard, Tŷ Isa; Dai Lampard, Bob a'u ffrindiau; Jonsi am werthu cacennau siocled; Alice am fod yn frenhines; Anne a Jim Cumberton am eu haelioni; Dei Tomos am fod yn 'm.c.'; Alun a Gaynor Jones; Philip a Sandra Hughes; Emerson Hughes; Menter Fachwen; Gareth Jones; Clychau'r Grug; Stephanie Welsby; Catherine Hughes; Kate Tomms; John Meirion Morris; Sean Kelly; Val o gwmni Guinness; Cajun's Denbo; Elvis Preseli; Dawnswyr Delyn; Robin Davies; Richard Griffith; Vicky o'r Parc Cenedlaethol; tim achub mynydd; W.D.A; Parc Cenedlaethol Eryri; Mantell Gwynedd; Gwynedd Resteraunt, Llanberis; Bistro, Llanberis; Utopia, Porthaethwy; Gwesty'r Victoria, Llanberis; Tŷ Cloc, Llanberis; Ceginau Padarn, Llanberis; Vittoria Hancock; Dylan Davies; Formag, Llanberis; Garej Beran; Garej Yr Wyddfa; London Garage; Alice a Sioned Cumberton; Carol Bowles; Eric Tŷ'r Ysgol; Anne Parry; Eirlys Lee; Rhoswen Thomas; Balti raaj, Tŷ Bwyta Indiaidd Llanberis.

Bêls Bach Haylage

AR WERTH

Porthiant o ansawdd uchel ar gyfer ceffylau a defaid.
Modd danfon llwythi bychan yn lleol, ffoniwch Hedd ar

07765 860 643

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

LLONGYFARCHIADAU i Aled Roberts a Bethan Parry ar achlysur eu Priodas yn ddiweddar.

GALA NOFIO'R URDD. Aeth y ddau dîm o'r ysgol i gystadlu yng Ngala Nofio'r Urdd Sir Eryri, ym mhwll nofio Bangor yn ddiweddar. Estynnwn ein llongyfarchiadau i bob un ohonynt am nofio mor dda.

Daeth Llion Hughes, Bl.4 yn ail yn ei ras; Deian Illtyd, Bl.5, yn drydydd yn ei ras, ac Awen Hughes, Bl.6 yn ail mewn un gystadleuaeth ac yn gyntaf yn y nofio dull rhydd. Dymunwn yn dda i Awen fydd yn cystadlu yn y cystadlaethau Nofio Cenedlaethol ym Mangor ar 17 Ionawr y flwyddyn nesaf.

YMWELIAD DIDDOROL. Daeth Mr Moorhead, cyn-brifathro o Northwich, Swydd Gaer, i siarad efo plant Blwyddyn 6. Fel ifaciwî o Lerpwl yn ystod yr Ail Rhyfel Byd, roedd Mr Moorhead a'i deulu wedi bod yn aros ym Mhen-lan, Llanrug. Aeth plant Blwyddyn 6 gydag ef am dro i ymweld â'r tyddyn a chafwyd croeso ym Mhen-lan gan Mr a Mrs Hastings, rhieni Huw, sy'n ddisgybl ym Mlwyddyn 5.

CROESAWYD Mr John Roberts Williams, y darlledwr a'r cyn-olygydd papur newydd i'r ysgol i roi sgwrs i blant Bl. 6 am wneud y ffilm, *Etifeddiaeth*, yn darlunio bywyd yn Llŷn ac Eifionydd yn niwedd y 40au.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod o gangen Llanrug yn y Ganolfan Gymuned ar nos Fawrth, 14 Hydref. Estynnodd Meirwen, y Llywydd, gyfarchion i Mrs Jennie Williams, Bod Fair, a oedd newydd ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Diolchwyd i Dafydd a Dyfed am gasglu £2,500 ar daith feicio noddedig tuag at yr afiechyd Myasthenia Gravis. Eleni bydd yr Is-bwyllgor Anabl yn cynnal distawrwydd noddedig er mwyn codi arian i Gymdeithas y Deillion gogyfer â chael peiriant i recordio llyfrau ar gryno ddisgiau. Ar 12 Tachwedd cynhelir cyfarfod y Bwyllgor Apêl lleoedlaethol 2005 yn Ysgol Syr Hugh Owen a tharged Llanrug yw £9,050.

Y wraig wâdd oedd Helen Bradley o Rhiwlas, cynrychiolydd Body Shop. Fel rhagarweiniad adroddodd hanes Anita Roddick, sylfaenydd Body Shop, a roddodd bwyslais mawr ar ddefnyddio defnyddiau naturiol, yn arbennig felly y cynnyrch a geir o wledydd annatblygiedig. Eglurodd y defnydd o fêl organic ac nad oes anifeiliaid yn cael eu defnyddio i brofi nwyddau Body Shop. Daeth Helen ag ystod eang o nwyddau gyda hi a chafodd pawb gyfle i arbrofi â hwy. Ann Ifans oedd yr aelod lwcus a ddewiswyd i gael ei choluro gan Helen. Ar y diwedd cafodd pawb y cyfle i archebu nwyddau Body Shop.

Enillwyd y gworbwyon raffl gan Menna a Mair.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 11 Tachwedd – noson o gerddoriaeth yng nghwmni Owain Gethin.

POB BENDITH. Mae cyn-gymdogion Mrs Mona Mai Griffith yn Ffordd yr Orsaf yn dymuno pob bendith a hapusrwydd a iechyd iddi yn ei chartref newydd yn 2 Hafan Elan.

DIOLCH. Dymuna Ronnie, Doris ac Adrian Evans, 'Gwynfryn', 4 Ffordd Glanffynnon, ddiolch yn ddiffuant i bawb am eu caredigrwydd i Ronnie yn ystod ei waeledd.

Gwerthfawrogwn eich cardiau, blodau, galwadau ffôn a'ch gweddïau am adferiad buan.

CYNGERDD. Cynhelir cyngerdd o dan nawdd 'Cerdd Byw Cymru' yng Nghartref Preswyl Penisarwaun, gyda Gwenan Gibbard yn canu gyda'r delyn. Mae gwahoddiad i'r ardal ymuno â'r preswylwyr i fwynhau'r prynhawn Sadwrn, 29 Tachwedd yn cychwyn am 3 o'r gloch y pnawn. (Ffoniwch i ddweud os ydych am fynd er mwyn i chi gael paned, ar 01286 872038.)

CYFARCHION NADOLIG. Dymunaf anfon Cyfarchion Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i'm teulu, cymdogion a ffrindiau i gyd. Mrs Nell Thomas, 1 Cefn Elan (Twll Clawdd gynt).

LLONGYFARCHIADAU mawr i Alf a Mai Parry, Bryn Heli ar gael eu gwobrwyo am eu gwaith diflino yn codi arian tuag at Ymchwil y Galon am dros 20 mlynedd.

Dymuniadau gorau a llongyfarchiadau mawr hefyd i Cemlyn Jones a Gwenan Ellis, Bryn Hyfryd, Ffordd yr Orsaf, ar eu dyweddïad, oddi wrth Dad, Mam, Nia a Gwyn.

PEN-BLWYDD HAPUS. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mrs Joan Williams, Llwyfor, Ffordd yr Orsaf ar ei phen-blwydd yn 80 oed ar 17 Rhagfyr.

DIOLCHIADAU. Dymuna Joyce Jones, 7 Bryn Moelyn, ddiolch o galon unwaith eto i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd a haelioni a ddangoswyd tuag ati ar ôl ei thriniaeth yn ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd.

Hefyd fe ddymuna Ceridwen Williams, 25 Hafan Elan ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am yr anrhegion, cardiau, blodau ac arian a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddiweddar.

Dymuna Wendy Jones, Stad Talybont, ddiolch o galon i bawb am bob caredigrwydd a dymuniadau da a dderbyniodd yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac ar ei phen-blwydd yn ddiweddar.

PROFEDIGAETHAU. Bu farw Cledwyn Jones, 4 Hafan Elan, fis Hydref yn dilyn gwaeledd hir a ddioddefodd yn dawel. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant i'w wraig, Mrs Ellen Jones; ei frawd, Mr Emlyn Jones, 3 Ffordd Glanffynnon, a'r teulu i gyd.

Hefyd, cydymdeimlwn â Dave, Ellen, Kate a Laura Beard, 1 Stad Minffordd yn dilyn marwolaeth mam Dave yn Birmingham.

Cydymdeimlwn â theulu Plas Tirion yn eu profedigaeth yn dilyn marwolaeth Mrs Jessie Hughes, Cricieth (McKinon gynt).

LLONGYFARCHIADAU i Mary a Meurig Parry, Wenllys, Gwêl Fynydd ar ddod yn nain a thaid am y pumed tro. Ganwyd mab bychan, Huw Llewelyn, i Gareth a Paarvez sy'n byw ym Mhortsmouth. Pen-blwydd hapus arbennig i nain ar 28 Tachwedd gan Ffion, Nia, Tomos, Jac a Huw Llewelyn.

EIN PENCAMPWR CYMUNEDOL. Anrhydedddwyd un o fro'r *Eco* mewn cinio mawreddog yng Ngwesty Kinsale Hall, Mostyn yn ddiweddar. Noddwyd y noson gan Scottish Power a phapurau annibynnol Gogledd Cymru. Gwobrwywyd pum categori a daeth Haf Thomas, Buarthau yn Oruwch Bencampwr Cymunedol y Flwyddyn Gogledd Cymru. Enwebwyd Haf am ei gwaith diflino yn codi miloedd o bunnoedd tuag at wahanol elusennau. Fel cyd-gysylltydd, mae Haf wrthi'n paratoi a threfnu Cyngerdd Nadolig Cyngor Sir Gwynedd, gyda John Eifion yn arwain. Bydd yr elw eleni yn mynd tuag at elusen Cŵn Tywys i'r Deillion. Mae'r gronfa yn agored tan ddechrau'r flwyddyn os dymuna unrhyw un gyfrannu.

Llongyfarchiadau mawr i ti Haf. Mae pawb ym Mro'r *Eco* yn dy edmygu yn fawr iawn.

Haf yn cael ei chyflwyno gyda thlws Pencampwr Cymunedol Gogledd Cymru gan Jackie Dixon (actores Brookside), mewn cinio mawreddog yn Kinsale Hall Hotel yn Mostyn.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn y Ganolfan Gymunedol, nos Fawrth, 11 Tachwedd. Rhoddodd Meirwen, y Llywydd, groeso i bawb a diolchodd i Phyllis a Mary am sgwrsio gyda'r Dysgwyr mewn Ysgol Undydd a gynhaliwyd yn Ysgol Maesincla. Llongyfarchwyd Osian, mab Ann Ifans, ar ei briodas â Sara, ac hefyd Gwion Iwan ar dderbyn ei HND. Llongyfarchwyd Elizabeth Hughes, Cwmyglo ar ôl i'w chynllun o gerdyn Nadolig gael ei ddewis i'r gystadleuaeth yn Sioe Aeaf Llanelwedd. Cyhoeddwyd y cynhelir Sioe Ffasiwn yn Pringles ar nos Fercher, 26 Tachwedd gyda Chôr Clychau'r Grug yn rhoi adloniant cerddorol a'r elw yn mynd at Gyfeillion Ysbyty Gwynedd.

Y gŵr gwadd oedd Owain Gethin o Dregarth, athro cerdd yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon ac arweinydd Côr Cofnod. Rhoddodd noson ddiddorol iawn ar hanes y delyn. Adroddodd fel yr oedd yr offeryn yn cael ei chanu ar y cychwyn, a dangosodd ar ei delyn ei hun fel yr oedd alawon gwerin yn cael eu canu yn y dull traddodiadol. Rhoddodd wedyn enghreifftiau o gerddoriaeth i'r ddelyn yn y cyfnod baroque, pan oedd y delyn yn cymryd rhan flaenllaw yn y neuadd gyngerdd, enghreifftiau o'r cyfnod clasurol a'r cyfnod rhamantaidd. Rhoddodd Owain Gethin beth o hanes ei yrfa gerddorol ei hun hefyd a gorffennodd ei gyflwyniad trwy berfformio darn o waith William Mathias.

Paratowyd y te gan Meryl, Julie a Nan ac enillwyd y raffl gan Nan. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 9 Rhagfyr a bydd aelodau'r gangen yn dathlu'r Nadolig ym Mhlas Tirion.

Teyrnged y Parch Dafydd Hughes yn angladd Mrs Nansi Roberts

Os oes y fath alwedigaeth a 'Gwraig Gweinidog', a mi fyddai llawer yn dadlau nad oes, ond os oes y fath alwedigaeth, mi fyddai Mrs Nansi Roberts cystal *'role model'* a 'run. Yr oedd Mrs Nansi Roberts yn wraig gweinidog o'i choryn i'w sowdl. Yn ei phriodas hi, a'r diweddar Barchedig W.O.Roberts, cafwyd enghaifft glasurol o stori dau. Lle bynnag y bu'r ddau yn gweinidogaethu, cafodd yr eglwysi y fargen o *'2 for the price of 1'* cyn i na Tesco na Safeway feddwl am ei chynnig.

Pan es i i Gapel y Rhos ym Mai 1996, cwta 3 blynedd wedi iddi golli ei phriod, fel yna y gwelais hi, yn wraig gweinidog o hyd – Mrs Roberts Gweinidog oedd hi i lawer. Ac yn y mowld yna y cefais i Mrs Nansi Roberts yn gefn o'r dechrau. Wnaeth hi erioed gollfarnu, awgrymu na beirniadu; roedd hi'n flaenor cefnogol iawn i mi fel ei gweinidog, a mi rydw i'n wirioneddol ddiolchgar iddi am hynny. Wrth sgwrsio â hi'n ei chartref mi fyddai ganddi bob amser air da i'r eglwys yng Nghapel y Rhos ac yn brolio pobol Llanrug i'r entrychion. 'Dwi'n siŵr y byddwch chi'n hapus yma – hen bobol iawn. Ma Gwilym a fi wedi bod yn hapus yma beth bynnag ac wedi cael croeso cynnes gan bawb.' Gwir ei gair.

Ganwyd Nansi, Annie May Roberts, i roi'i henw llawn iddi, ym Minffordd, Penrhyndeudraeth, yn un o 3 o blant – 2 ferch a bachgen. Oddi yno yr aeth i'r ysgol leol, ac efo'r trên bach i'r Ysgol Uwchradd ym Mlaenau Ffestiniog. Oddi yno yr aeth i nyrsio yn Ysbyty Alder Hey, swydd y rhoddodd y gorau iddi i ddod adref i helpu'i mam ofalu am ei brawd oedd yn wael, ac a fu farw'n ifanc.

Yr oedd ei brawd â'i fryd ar y weinidogaeth, a thrwyddo fo mae'n debyg y daeth i adnabod bachgen o'r Blaenau o'r enw William Owen Roberts – Gwilym – Parch. W.O.Roberts i chi a mi. Priodi a bwrw'i hun wedyn i waith ei phriod. Ers yn blentyn cafodd Parch. W. O. Roberts drafferthion mawr efo'i olwg, rhai a arhosodd efo fo weddill ei oes. Ond er y rhwystrau llwyddodd yn y Brifysgol ym Mangor, y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth ac yng Ngholeg y Bala. Ei ordeinio'n weinidog yn 1943 a, chyda Mrs Nansi Roberts wrth ei ochr, gwasanaethu pobl yng Nghlocaennog a Bontuchel,

Fourcrosses, Rhosfawr, a Ffynnongroew cyn derbyn gwahoddiad i Gapel Mawr Llanrug ym 1961, gofalaeth a ddaeth i gynnwys y Ceunant, Tan y Coed a Phontrhythallt yn nes ymlaen.

Yn Llanrug, fel ymhob man arall y bu, fe gymerodd Mrs Nansi Roberts ei chyfrifoldeb fel gwraig gweinidog o ddifrif, yn ymweld yn gyson gyda'i chymar, ac ar ei phen ei hun hefyd; gwaith y daliodd ati i'w wneud wedi iddi ei golli. Pa ryfedd i aelodau Capel Mawr ei chodi'n flaenor yn 1982.

Byddai ym mhob gwasanaeth a chyfarfod yn ddieithriad; hynny hyd yn ddiweddar iawn. A phob amser, cyn imi arwain gwasanaeth, fe gydiai yn fy llaw, a chyda gwên fach ar ei hwyneb fe ddwedai'n dawel, 'Pob bendith i chi.' Wrth ddrws y capel neu'r tŷ wrth ffarwelio, 'dwi'n ei chlywed hi'n dweud rŵan, fel y dywedodd lawer gwaith, 'Rwbath fedra i ei wneud, cofiwch...' A rhywbeth y gallai ei wneud fe'i gwnai gyda graen. Pan ddoi galw arni i ddarllen o'r ysgrythur neu ledio emyn fe'i caech ei darllen hi yn arbennig o glir ac eglur ac ystyrlon, a hynny hyd yn oed pan oedd ei chof hi'n dechrau mynd – roedd yna ddiffuantrwydd yn ei darllen hi oedd yn dal eich sylw chi. Felly hefyd ei gweddïau.

Mae'n debyg mai un o siomedigaethau mawr ei bywyd hi a'i chymar oedd na chawson nhw blant. Fe ofynnodd i mi sawl gwaith, 'Sgynoch chi blant Mr Hughes?' A bob tro y byddwn i'n ei hateb, fe ddywedai, 'Da chi'n lwcus, chafodd Gwilym a fi ddim plant.' Er hynny bu'n athrawes Ysgol Sul ffyddlon iawn ar do ar ôl to o'r plant hynny oedd yn y dosbarth ieuengaf. Mae'n debyg fod y ffaith iddi fynd i nyrsio i Alder Hey yn dweud rhywbeth am ei chariad tuag at blant.

Gwraig oedd Mrs Nansi Roberts a gydiodd yn dynn yn Efengyl ei Gwaredwr, Iesu Grist, ac yng nghariad Duw. Hyd yn oed yn y blynyddoedd olaf, a'i chof yn pallu, roedd ei gafael yn sicr – yn ei ffydd, yn ei chymdeithas a'i chartref. A doedd hi ddim eisiau gollwng gafael ar yr un o'r pethau hyn, yn arbennig felly ei chartref. A diolch i Dduw am iddo'i gadael i fynd oddi yma heb iddi orfod gwneud hynny. A'r mynd hwnnw, yn 85 oed ar Medi 2, 2003, yn fynd heb ei ddisgwyl – iddi hi ac i ninnau. Ac os bu iddi fugeilio a gofalu dros eraill yn y gorffennol bu i bobl Llanrug ac aelodau a blaenoriaid Capel y Rhos ei bugeilio a gofalu amdani hithau yn ystod y cyfnod anodd hwn. Diolch iddyn nhw am hynny.

Os y byddai'n rhaid i mi ddewis un gair i gwmpasu a rhoi arwyddocad i fywyd ac ymroddiad Mrs Nansi Roberts, FFYDDLONDEB fyddai'r gair hwnnw. Ffyddlondeb i Dduw ac i Iesu Grist, ffyddlondeb i'r Eglwys, nid i adeilad fel y cyfryw, er bod Capel Mawr wedi golygu llawer iddi, ond i gymdeithas o bobl. Ffyddlondeb i'w chymar, y diweddar Barchedig W.O.Roberts, yn eu priodas ac yn ei waith fel gweinidog yr Efengyl. Gwraig ffyddlon oedd Mrs Nansi Roberts. Diolch i Dduw amdani.

Parch. Dafydd Hughes

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Cynhaliwyd cyfarfod diweddar o Gyngor Cymuned Llanberis ar nos Iau yr 20fed o Dachwedd yn 'Angorfa'. Y Cynghorydd Dei Tomos oedd y cadeirydd.

Materion yn codi:

- Trafodwyd y parcio peryglus ac anghyfreithlon yn Llanberis a Nant Peris. Mae ceir sydd wedi eu parcio gyferbyn â'r feddygfa; gyferbyn â Pete's Eats a ger Capel Rehoboth yn Nant Peris; yn atal gyrrwyr eraill rhag gweld y briffordd yn glir. Cysylltodd y clerc ag Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd i drafod y problemau a gobeithir trafod y pwnc ymhellach yn y cyfarfod nesaf.
- Derbyniwyd llythyr gan Bwyllgor Eisteddfod Genedlaethol y Faenol 2005. Gan y bydd yr Eisteddfod yn ymweld â'r ardal ymhen dwy flynedd, mae angen codi pres i ariannu'r ŵyl. Y nod yw gofyn i ardaloedd y Cynghorau Cymuned gyfrannu swm penodol o arian o ystyried poblogaeth yr ardaloedd hynny. Penderfynwyd y dylid cynnal cyfarfod cyhoeddus yn Llanberis yn y flwyddyn newydd er mwyn trafod y mater hwn.
- Gobeithir trefnu cyfarfod rhwng Heddlu Gogledd Cymru a'r cyhoedd i drafod y problemau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad anghymdeithasol yn yr ardal, ac i geisio datrys y broblem drwy ddarparu mwy o bethau i bobl ifanc yr ardal.
- Cytunwyd i ofyn i Mr Gwynfor Dafydd o Gwmni Adwy ddod i un o gyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol. Mae'r cwmni yn awyddus i adnewyddu a datblygu hen adeiladau sy'n wag ers amser er lles y gymuned.
- Fel rhan o'r cynlluniau i efeillio Llanberis a Nant Peris efo Morbegno yng ngogledd yr Eidal, bu'r clerc yn y dref Eidalaidd yn ddiweddar i drafod y cynllluniau efo'r cynghorwyr Eidalaidd. Esboniodd fod yr Eidalwyr yn awyddus iawn i efeillio gan fod cysylltiad cryf yn bodoli rhwng y ddwy ardal ers dros ugain mlynedd, diolch i Ras yr Wyddfa a'u ras hwythau – y Trofeo Vanoni. Gobeithir arwyddo'r gytundeb gefeillio yn ystod 25ain ymweliad yr Eidalwyr i Lanberis Gorffennaf nesaf.
- Bydd y Cyngor Cymnuned yn ystyried ceisiadau gan fudiadau, cymdeithasau ac elusennau lleol am gymorth ariannol yn y cyfarfod nesaf. Dylid gwneud y cais yn ysgrifenedig i'r clerc: Llinos H Jones, 6 Nant Ffynnon, Nant Peris, cyn y 10fed o Ragfyr.

Nid oedd gan y Cynghorwyr unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:

1. Codi estyniad ochr a phorth i'r ffrynt, Coed Gwydr, Nant peris
2. dymchwel yr adeilad allanol ac adeiladu tŷ – darn o dir ger 50 Stryd Fawr, Llanberis
3. creu estyniad a mynedfa newydd – 10 Ffordd Capel Coch, Llanberis
4. creu mynedfa a man parcio: 8 Ffordd Tŷ Du, Llanberis
5. Codi adeilad newydd – Rheiffordd yr Wyddfa, Llanberis
6. Estyniad dau lawr – 20 Ffordd Tŷ Du, Llanberis.

Er nad oes gwrthwynebiad i gais Cwmni Rheilffordd yr Wyddfa pwysleisir ei bod yn anodd iawn mynegi barn ar y cais gan fod lleoliad yr adeilad newydd yn annelwig iawn ar y map ynghlwm wrth y cais.

Er gwybodaeth, caniatawyd y ceisiadau canlynol:

1. Creu maes parcio a man troi i fysus, ger Oriel Eryri, Llanberis
2. Codi estyniad cefn – 6 Rhes Efrog, Llanberis.

Y Fynwent: Gwelwyd bod y llwybr bellach wedi ei glirio o chwyn a gwair ond mynegwyd pryder ynglŷn â'r rwbel a'r cerrig mân sydd i'w gweld yn y fynwent.

Llwybrau Cyhoeddus

Dywedwyd bod angen atgyweirio postyn giât ar lwybr 25, ger Stryd y Warden, gan fod yr un presennol wedi pydru. Cytunwyd i yrru llythyr at Gyngor Gwynedd i ofyn iddynt drwsio'r postyn cyn gynted a phosib.

Diolchwyd i'r Cyngor Cymuned am osod mainc newydd ger tai Bro Glyder yn Nant Peris.

Gohebiaeth

Derbyniwyd llythyr gan Goriad Gwyrdd Eryri yn gofyn i'r Cyngor Sir ystyried gosod cysgodfannau bws sy'n gweddu'n well i'r amgylchedd yn yr ardal. Penderfynwyd gyrru llythyr yn ôl i drafod y posibilrwydd o osod cysgodfannau newydd yn lle'r rhai presennol.

Derbyniwyd llythyr o ymddiswyddiad gan y Cynghorydd John Pritchard o'r Cyngor Cymuned. Dymuna'r Cynghorwyr ddiolch yn fawr iddo am ei waith caled dros y blynyddoedd. Penderfynwyd estyn gwahoddiad i'r Cynghorydd Sir, Trefor Edwards, i'r cyfarfod nesaf.

Mynegwyd pryder ynglŷn â'r diffyg buniau sbwriel yn Nant Peris. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd drwsio'r bun sydd ger y gysgodfan ac i ddarparu buniau i'w gosod yn y maes parcio.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50 y.h.

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati.
Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

DODREFN PERKINS
(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, llofft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco**

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CLWB MERCHED. Ar nos lau, 23 Hydref cafwyd noson o sleidiau a holiadur i brofi ein gwybodaeth o adeiladau Caernarfon a'r fro gan Mr Richard Jonaes, Caeathro. Diolchwyd yn gynnes iddo gan Mrs Dilys Griffiths. Enillwyd y llun gan Mrs Eurwen Hughes, Rhos Bach. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Llio Jones a Rhiannon Roberts fu'n lwcus y tro hwn. Mae rhaglen y flwyddyn ar gael a threfnir Cinio Nadolig ym Melin Seiont ar nos lau, 11 Rhagfyr am 7.30 o'r gloch. Gwerthfawrogir eich dewis o fwyd a'r arian yn ein cyfarfod nesaf am 8 o'r gloch yn y Ganolfan, 27 Tachwedd pan gynhelir 'Gweithdy Nadolig'.

CYDYMDEIMLAD. Yn sydyn gartref yn Hafod Wen bu farw Marueen Charles Jones, gwraig Reg, yn 69 oed ar 6 Tachwedd.

Yn ifanc, bu farw Glyn, brawd Bethan Iwan, Carrog, Rhos Bach ar 15 Tachwedd.

CYNGERDD. Cynhelir cyngerdd o dan nawdd 'Cerdd Byw Cymru' yng Nghartref Preswyl Penisarwaun, gyda Gwenan Gibbard yn canu gyda'r delyn. Mae gwahoddiad i'r ardal ymuno â'r preswylwyr i fwynhau'r prynhawn Sadwrn, 29 Tachwedd yn cychwyn am 3 o'r gloch y pnawn. (Ffoniwch i ddweud os ydych am fynd er mwyn i chi gael paned, ar 01286 872038.)

CYMDEITHAS CAE CHWARAE. Enillwyr y tynfa misol ar gyfer mis Tachwedd oedd: £40: (82) Shaun ac Anne Jones, Cae Phylip; £25: (38) John ac Anwen Pritchard, Ty'n Gors Newydd; £15: (75) Mai Jones, Crud yr Awel; £5: (06) Viv Morgan, Tyddyn Uchaf.

GWASANAETHAU'R CAPEL.
Bydd y gwasanaethau canlynol yn ystod mis Rhagfyr:
7: 11.00 Ysgol Sul;
2.00 Parch Dafydd Hughes;
14: 11.00 Ysgol Sul;
21: 11.00 Ysgol Sul;
5.30 Gwasanaeth Nadolig i bawb– lluniaeth ysgafn tymhorol i ddilyn;
28: Dim gwasanaethau.
Pwyllgor Gwaith am 3 o'r gloch ar 7 Rhagfyr.

YSBYTY. Yn ddiweddar bu Megan Owen, 5 Bryn Gof yn yr ysbyty ar ôl syrthio. Mae hi'n gwella, dan ngofal ei chwaer yn Llandudno, ond yn disgwyl dod adre cyn y Nadolig.

NEWID YSTAFELLOEDD. Mae Tim, Jayne, Megan, Katie a Ceris wedi symud o Bodawel i Dyddyn Cae. Preswylwyr newydd Bodawel yw Keith a Mandy Jones a'u plant, Jack, Megan a Dion.

PARTI NADOLIG Y PLANT. Bydd Parti Nadolig hefo Disgo Gwisg Ffansi, Sosej a Tships ac ymweliad gan Siôn Corn am 5.30 yr hwyr nos Lun, 22 Tachwedd yng Nghanolfan y Capel – ar gyfer holl blant y fro sy'n oed ysgol gynradd, ysgol feithrin ac yn iau.

CANU CAROLAU. Unwaith eto eleni bydd Seindorf Iau Llanrug yn arwain canu carolau o amgylch y goeden Nadolig ar nos Wener, 19 Rhagfyr, hefo cawl cartref i bawb wedyn. Pe bai'r tywydd yn ddrwg byddant yng Nghanolfan y Capel. Croeso i bawb – o bob man yn y fro.

FFAIR NADOLIG Y CAPEL. Cynhelir y Ffair am 7 o'r gloch yr hwyr, nos lau, 4 Rhagfyr. Bydd stondinau di-rif a chyfle i ennill gwobrau.

PWYLLGOR Y CAE CHWARAE. Bydd cyfarfodydd fel a ganlyn:
Llun, 8 Rhagfyr am 8 o'r gloch yn Nhafarn Bryngwna (Is-bwyllgor Nadolig);
Sadwrn, 13 Rhagfyr am 10.00 y bore – cyfarfod i godi'r goeden;
Llun, 15 Rhagfyr am 8.00 yr hwyr yn Nhafarn Bryngwna – Tynfa Misol a Thynfa Nadolig.

SEDD Y SGWAR. Mae'r Cyngor Cymuned wedi prynu mainc newydd ar gyfer Sgwâr y Pentref. Bydd yr arwydd coffa i 'Tom Jones – Garddwr' yn cael ei ail-osod ar gefn y fainc.

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

Harddwch eich cartref gyda

***FFENESTRI CELTIC** WINDOWS*

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG

(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

CLWB 300. Dyma restr o enillwyr mis Hydref:
£40: Mrs Beryl JOnes, Dôl y Coed;
£25: Mr F. Buckley, 4 Cores y Waun;
£10: Mr Bryn Jones, Haulfryn.

SEFYDLIAD Y MERCHED.
Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Sefydliad yn festri Croesywaun ar 6 Tachwedd. Croesawodd Mrs Catherine A. Jones, y Llywydd, Mrs Pat Parry, Ymgynghorwr y Sefydliad, i'r cyfarfod i ymgymryd â'r gwaith o ethol swyddogion. Cafwyd Adroddiad Blynyddol gan Mrs Anne V. Williams, yr ysgrifennydd, ac adroddiad gan y Llywydd. Pwysleisiodd Pat y pwysigrwydd o gefnogi'r apêl i ACWW. Etholwyd y canlynol: Llywydd: Mrs Catherine A. Jones; Is-lywydd: Mrs Mair W. Williams; Ysgrifennydd: Mrs Anne V. Williams; Is-ysgrifennydd: Mrs Pat Parry; Trysorydd: Mrs Wenna Edwards; Is-drysorydd: Mrs Mair Parry; Trefnydd y Rhaglen: Mrs Maureen Hughes.

Diolchodd y Llywydd i bawb am eu help yn ystod y flwyddyn. Enillwyd y raffl, oedd wedi ei roi gan Mrs Alice Johnston, gan Mrs Catherine Jones.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Ymwelodd rhai o aelodau'r Gymdeithas â Chymdeithas Bwlan, Llandwrog nos lau, 6 Tachwedd a chael orig ddifyr yno. Roedd y gynulleidfa wedi ei rhannu yn wahanol dimau a'r noson dan ofal Mr Hugh Jones, Llanwnda. Yn dilyn mwynhawyd y danteithion yr oedd y cyfeillion yn y Bwlan wedi eu darparu a thalwyd y diolchiadau am noson ddifyr gan G.O. Williams, Bodhyfryd.

Bydd y cyfarfod nesaf yn y Ganolfan, nos Lun, 8 Rhagfyr am 7.30 pan ddisgwylir Dyfed Evans, Pencaenewydd atom i roi sgwrs ar 'Bob Owen, Croesor', gyda Rol Williams yn llywyddu. Unwaith eto estynnir gwahoddiad i aelodau newydd ymuno, gan fod cyfarfodydd diddan eraill wedi eu trefnu ar gyfer y flwyddyn newydd.

YR URDD. Mae cyfarfodydd yr Urdd wedi cychwyn eto y tymor hwn gyda rhaglen ddiddorol wedi ei pharatoi ar gyfer y plant. Bu pedair o'r aelodau yn cynrychioli'r adran yng Nghystadlaethau Nofio Sir Eryri ym Mangor yn ddiweddar. Daethant adref yn falch iawn wedi gwneud yn dda yn y cystadlaethau ras gyfnewid.

EISTEDDFOD. Cofiwch am yr Eisteddfod Bentref eleni, dydd Sadwrn, 29 Tachwedd. Dowch i gefnogi'r cystadleuwyr.

CROESO ADREF O'R YSBYTY. Anfonwn ein cofion a'n croeso adref i Mrs Janet Smith, Rhoslan wedi iddi dderbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty. Cafodd Mrs Annie Thomas, Stad Tŷ Hen a Mrs Wyn Griffith, Ger y Nant, ddod adref wedi iddynt orfod treulio cyfnod yn yr ysbyty.

Anfonwn ein cofion at Mr Evan Hughes, 3 Bryn Golau sydd yn yr ysbyty ym Mangor.

Croeso adref i Miss Katie Roberts, Stad Tref Eilian, wedi iddi dreulio cyfnod yn cryfhau yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun.

Anfonwn ein cofion at Mrs Catherine Williams, sydd mewn cartref yn Llanberis am gyfnod.

YSGOL WAUNFAWR. Mae'r ugain disgybl bach newydd wedi ymgartrefu'n hapus yn y Dosbarth Meithrin gyda Mrs Gwenda Griffith. Croeso iddynt hwy ac Anti Nia Evans i'n plith.

Bu'n hanner tymor prysur. Treuliodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 dridiau yng ngwersyll Glanllyn ar ddechrau'r tymor a chafodd pawb amser da. Bu Catherine Aran yn difyrru plant blwyddyn 4 gyda sesiwn stori a chafodd plant dosbarth Miss Roberts weithdy am y pnawn.

Daeth ein ffrindiau o'r Antur draw i'r ysgol i helpu plant Blwyddyn 3 i wneud addurniadau blodau ar gyfer ein Gwasanaeth Diolchgarwch a gynhaliwyd yng Nghapel Croes-y-Waun ddydd Gwener, 24 Hydref. Cynhaliwyd Gwasanaeth y Cadoediad yn yr ysgol ddydd Mawrth, 11 Tachwedd. Braf oedd croesawu cymaint o bentrefwyr i'r ysgol. Gosododd Meleri Gwyrfai a Sam Markham, dau ddisgybl hynaf yr ysgo, y dorch ar y Gofeb.

Croesawn ddwy fyfyrwraig i'r ysgol, Miss Stephanie Walpole sydd ar brofiad dysgu ym mlwyddyn 5 a 6, a Mrs Pat Hughes, i flwyddyn derbyn ac un. Rwy'n siŵr y byddant yn hapus iawn yn ein plith.

Mae Cwmni Dawns i Bawb wedi bod yn cynnal gweithdai ar bnawn dydd Iau dros y mis diwethaf – mae plant o flwyddyn derbyn i flwyddyn 6 wedi mwynhau y sesiynau dawnsio.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at Ymgyrch Operation Christmas Child. Rydym wedi derbyn 90 o focsys hyd yn hyn. Gwych iawn!

Beics Menai Cycles
1 Cei Llechi
Caernarfon
01286 676804
07770 951007

Ffair Nadolig yng Ngwesty Carreg Brân Llanfairpwll
Dydd Sul, Tachwedd 2

Beics o bob maint,
Trelars,
Beics tynnu i blant
a Nwyddau Beicio

Bargeinion ar gyfer y Nadolig!!

SPAR

Y STORFA
LLANRUG
(Richard a Meirwen Williams)
Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth
Nid oes unrhyw dâl am ddanfon archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

DYWEDDÏO. Dymuniadau gorau i Nia Thomas, 1 Stad Eryri ar ei dyweddïad â Gavin Bee o Gaernarfon, oddi wrth y teulu i gyd.

DYWEDDÏO. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Gwenan Elis, Cilgeran ar ei dyweddïad â Cemlyn Jones, Ffordd yr Orsaf, Llanrug.

DIOLCH. Dymuna Nerys ac Evan ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion ar achlysur dathlu Priodas Aur. Hefyd diolch i Glwb Bro Bethel am y wledd a ddarparwyd ar eu cyfer yn Festri Bethel. Diolch o galon i bawb.

DIOLCH. Dymuna Trefor Williams, Rhoslyn ddiolch yn gynnes iawn i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am y caredigrwydd a dderbyniodd yn ystod cyfnod o lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac wedi dod adref.

DIOLCH. Dymuna Delyth a Morlais Williams ddiolch i'r tulu, ffrindiau a chymdogion am y dymuniadau da ar achlysur dathlu Priodas Arian. Diolch yn fawr.

DIOLCH. Dymuna Nia Thomas, 1 Stad Eryri, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymddogion am eu caredigrwydd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 21 oed. Hefyd diolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion ar achlysur ei dyweddïad â Gavin.

CYNGERDD. Cynhelir cyngerdd o dan nawdd 'Cerdd Byw Cymru' yng Nghartref Preswyl Penisarwaun, gyda Gwenan Gibbard yn canu gyda'r delyn. Mae gwahoddiad i'r ardal ymuno â'r preswylwyr i fwynhau'r prynhawn Sadwrn, 29 Tachwedd yn cychwyn am 3 o'r gloch y pnawn. (Ffoniwch i ddweud os ydych am fynd er mwyn i chi gael paned, ar 01286 872038.)

EISTEDDFOD.Cafwyd Eisteddfod lwyddianus iawn yn ddiweddar gyda chystadlaethau'r llwyfan ddydd Sadwrn, 8 Tachwedd yn dilyn noson o Ddawnsio Disco ar y dydd Mawrth. Bu'r plant yn brysur yn cystadlu drwy'r dydd a braf oedd cael gweld eu gwaith celf ar hyd waliau'r neuadd. Y beirniaid am eleni oedd Sion Wheldon (Celf); Susan Bracegirdle (Dawnsio Disgo); Eleri Owen (Llefaru a Llên); a Gethin Davies (Cerdd). Diolchodd Llywydd y Pwyllgor i bawb oedd wedi cyfrannu mewn unrhyw ffordd tuag at lwyddiant yr Eisteddfod a mynegwyd balchder at gymaint o dalent oedd yn y pentref, ymysg y plant a'r bobl ieuanc.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i garedigion yr Eisteddfod am roddion ariannol ac am gyflwyno tlysau bach i'w cadw am byth i enillwyr y tariannau sef, Gethin Griffiths (Piano cynradd); Gruffydd John (Offeryn cynradd); Catrin Jones (Lleisiol cynradd); Elan Llwyd (Llefaru cynradd); Huw Foulkes (Piano uwchradd); Dewi Foulkes (Offeryn uwchradd); Lois Hughes (Lleisiol uwchradd); Ceri Griffiths (Llefaru uwchradd); Huw Foulkes (Siarad cyhoeddus); Lois Jones (Celf cynradd); Hannah Gwyn (Celf uwchradd).

Y GOFEB. Cynhaliwyd gwasanaeth Sul y Cofio ger y gofeb ar 9 Tachwedd. Cymerwyd rhan gan y Parch Gwynfor Williams, y Parch Dafydd Hughes, Mr Cledwyn Williams a phlant blwyddyn 6, dan ofal Mrs Nia Gullemin a Mr Dylan Parry. Canwyd y corn gan Gwilym Rhys a rhoddwyd y carnations gan Mrs Beryl Parry, Hafod Elen, Bethel.

CYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhaliwyd y noson yn festri Cysegr nos Fawrth, 18 Tachwedd. Cafwyd noson ddiddorol a hanesyddol gan Mr Cefin Roberts, Ysgol Glanaethwy, Bangor. Rhoddwyd y diolchiadau gan Mrs Nerys Owen.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, 11 Rhagfyr yn festri Bethel. Noson Nadoligaidd yng nghwmni'r aelodau.

DYMUNA Dafydd Parry, Hafod Elen ddiolch am y llu cardiau, galwadau ffôn a'r ymweliadau yn ei brofedigaeth o golli chwaer, Myra Daniels, Rhiwlas.

DIOLCH. Dymuna Lois Wyn, Erddig, ddiolch yn fawr i ffrindiau, cymdogion a theulu am yr holl gardiau, anrhegion a rhoddion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn ddeunaw oed.

NEWYDDION O'R YSGOL. Dechreuodd ail hanner y tymor yn fwrlwm o weithgareddau fel arfer. Yn dilyn ein Gwasanaeth Diolchgarwch arbennig iawn yng nghwmni Mr Edward Morus Jones, Llandegfan, cyflwynwyd siec o £145 i gronfa Nyrsus Macmillan, sef y casgliad wnaethpwyd yn y gwasanaeth.

Llongyfarchiadau mawr i holl blant y pentre a gystadlodd yn yr eisteddfod bentref eleni eto.

Gwnaeth plant blwyddyn 6 eu rhan yn raenus iawn, fel arfer, yng ngwasanaeth Sul y Cofio.

Cafwyd wythnos o Ffair Lyfrau lwyddiannus rhwng 10 ac 14 Tachwedd. Oherwydd cymaint y gwerthiant cafwyd gwerth £50 o lyfrau ym mhob dosbarth.

Nos Iau, 13, cafwyd noson yng nghwmni Mrs Wendy Ostler a Mr Ian Roberts, wedi ei threfnu gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon ond siomedig iawn oedd nifer y rhieni a fynychodd y noson. Cafwys sgyrsiau am beryglon cymryd cyffuriau a chodwyd ymwybyddiaeth rhieni at y peryglon cynyddol sydd o'n cwmpas. Cafodd y plant sgwrs ar y thema 'Don't Touch, Tell' i godio eu hymwybyddiaeth o beryglon cyffuriau.

Daeth y Parch Ann Smitham atom ddechrau'r mis i gynnal gwasanaeth ysgol. Rydym yn gwerthfawrogi parodrwydd y Parch Smitham i ddod i sgwrsio hefo'r plant.

Dydd Sul, 23, bu plant blwyddyn 5 a 6 yn helpu i bacio bagiau yn Safeways. Trefnwyd gan y Gymdeithas Rhieni ac rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am oruchwylio'r plant yn ystod y dydd.

Dydd Mercher, 26, cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Rhieni/ Llywodraethwyr, pryd y caiff rhieni gyfle i drafod adroddiad blynyddol y Llywodraeth.

Lois Hughes, enillydd y Tlws Uwchradd, a Greta Fflur Jâms, enillydd y Tlws Cynradd, gyda'r Orsedd a'r ddau Gorn Gwlad, Berwyn a Rhys, yn dilyn y Seremoni Cadeirio yn Eisteddfod Bethel.

Mae nifer o weithgareddau wedi eu trefnu cyn diwedd y tymor:

Nos Wener, 5, cynhelir Ffair Nadolig ac Ocsiwn yn yr ysgol. Oherwydd gwaeledd bu rhaid newid trefn y cyngherddau Nadolig.

Cynhelir Sioe'r Adran Iau nos Fercher a nos Iau, 10 ac 11 Rhagfyr.

Cynhelir sioe'r babanod nos Lun y 15 a nos Fawrth 16.

Dydd Merhcer, 17, bydd yr ysgol yn mynd i'r pantomeim yn Theatr Gogledd Cymru yn Llandudno.

Dydd Iau, 18, gobeithio y daw Siôn Corn ar ei ymweliad blynyddol.

Dydd Gwener, 19, fydd diwrnod olaf y tymor ac mae'n siŵr y bydd pawb yn barod am y gwyliau.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

DIOLCH. Dymuna Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc, ddiolch yn ddiffuant i aelodau'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob caredigrwydd a dderbyniodd tra bu am gyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLAD. Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â theulu Deiniol House yn eu profedigaeth o golli Mrs Lilian Braham, a fu farw ar Dachwedd 14eg yn 86 mlwydd oed. Bu'r gwasanaeth angladdol cyhoeddus ddydd Mercher Tachwedd 19eg yn Eglwys Sant Mihangel Llanrug ac yn dilyn ym mynwent yr Eglwys.

CYFARCHION. Dymuna Miss Blodwen E.Owen 2 Tai Orwig anfon cyfarchion Nadolig i'r oll o'i chydnabod gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

Shannon Christy Goed o Frynrefail a enillodd Tlws Coffa Emma Bernard am y gwaith arlunio gorau yn yr Adran Gelf yn Eisteddfod Llanrug a Chwm y Glo.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD COFION. Yn ystod yr oedfaon yn ddiweddar anfonwyd cofion at nifer o'r aelodau na fu yn dda eu hiechyd yn ddiweddar, yn arbennig Mr Maurice Jones, Meillionen, sydd wedi bod dan ddwy law-driniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Fel un o'n ffyddloniaid mae ei le yn wag yn y moddion. Da yw deall ei fod gartref erbyn hyn ac yn gwella yn foddhaol iawn. Edrychwn ymlaen am ei gwmni yn ein plith yn fuan iawn.

BLYCHAU NADOLIG Y PLANT. Trefnwyd i gymryd rhan eleni eto yn y cynllun i gyflwyno anrhegion Nadolig i'w dosbarthu i blant difreintiedig mewn gwledydd tramor, gan Mrs Jennie Roberts, 2 Ffrwd Madog. Diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r achos da hwn.

CYMORTH CRISTNOGOL. Yn dilyn brwdfrydedd nifer o'r aelodau y llynedd i fynd o gwmpas yr ardal i ganu carolau er budd Apêl Bangladesh, penderfynwyd ymateb eleni i apêl ddiweddar Cymorth Cristnogol. Hyderwn y ceir derbyniad mor wresog a chefnogaeth deilwng fel y llynedd pan ddaw'r carolwyr o gwmpas ar drothwy Gŵyl y Nadolig.

OEDFAON RHAGFYR.

7: Parch Dafydd Hughes, Caernarfon am 5.30
14: Parch Emrys Thomas, Caernarfon am 10
21: GWASANAETH NADOLIG dan nawdd yr aelodau am 10
26: Parch John Owen, Bethesda am 5.30

CYNGERDD. Cynhelir cyngerdd o dan nawdd 'Cerdd Byw Cymru' yng Nghartref Preswyl Penisarwaun, gyda Gwenan Gibbard yn canu gyda'r delyn. Mae gwahoddiad i'r ardal ymuno â'r preswylwyr i fwynhau'r prynhawn Sadwrn, 29 Tachwedd yn cychwyn am 3 o'r gloch y pnawn. (Ffoniwch i ddweud os ydych am fynd er mwyn i chi gael paned, ar 01286 872038.)

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir
Dinorwig. Ffôn: 870292

CLWB ORWIG. Mewn cyfarfod o'r uchod ar 16 Hydref diolchwyd i Fwyty Melin Seiont am y cinio a'r gwasanaeth ardderchog a fwynhawyd yno ar achlysur dathlu trydydd pen-blwydd y clwb.

Rhoddwyd adroddiad o Gyfarfod Blynyddol Age Concern Gwynedd a Môn gan Nellie Wyn Jones a oedd yn un o gynrychiolwyr y clwb. Cymerodd yr holl aelodau ran yn y Cwrdd Diolchgarwch a chyflwynwyd casgliad y prynhawn i Gyfeillion Cronfa'r Feddygfa yn Neiniolen.

Rhoddwyd y te gan Betty Lloyd Roberts, Betty Roberts a Katie Lloyd Hughes. Cynflwynwyd y llysiau a'r ffrwythau o'r cyfarfod yma i Morfudd Jones, gyda dymuniadau am wellhad iechyd buan iddi. Derbyniodd Margaret Faulkener hithau flodau ar ei phen-blwydd. Enillwyr gwobrau'r raffl oedd Margaret Faulkener, Dennis Glass, Katie Hughes a Ray Bower. Rhoddwyd y gwobrau gan Betty Roberts, Dennis Glass, Katie Hughes ac Eve Braithwaite.

GWELLHAD BUAN. Drwg gennym ddeall i Morfudd Hughes Jones, Bryn Hyfryd gael ei chymryd yn wael tra ar drip yng Nghaerdydd, ond da yw deall ei bod yn gwella erbyn hyn. Felly, Morfudd, boed iti barhau i wella o ddydd i ddydd, fel y cei ddechrau'r flwyddyn newydd wedi cael llwyr iachad.

Anfonwn ein cofion hefyd at bawb sydd yn cwyno yn yr ardal, a boed iddynt i gyd gael gwellhad buan.

CYNGERDD. Cynhelir cyngerdd o dan nawdd 'Cerdd Byw Cymru' yng Nghartref Preswyl Penisarwaun, gyda Gwenan Gibbard yn canu gyda'r delyn. Mae gwahoddiad i'r ardal ymuno â'r preswylwyr i fwynhau'r prynhawn Sadwrn, 29 Tachwedd yn cychwyn am 3 o'r gloch y pnawn. (Ffoniwch i ddweud os ydych am fynd er mwyn i chi gael paned, ar 01286 872038.)

Siopio ym Mrynrefail

gan Ifan W. Williams
(Brynrefail gynt)

Mwynheais gymaint ar 'O Siambar Selwyn' yn rhifyn mis Medi nes imi bendroni a meddwl pa faint o siopau a busnesau oedd ym Mrynrefail yn ystod fy mhlentyndod yn y 30au. Tair siop oedd yno, a oeddent yn rhan o sefydliad y pentra, a rhyw 4 neu 5 o rai eraill byrhoedlog.

M & S y pentra oedd Siop William Pritchard. Roedd y siop ar gongl y ffordd sy'n arwain o'r Stryd Fawr i Yr Allt. Y siop ar y llawr gwaelod yn gwerthu bron popeth ond y ddiod gadarn, ond yn bendant yn gwerthu tintiriwbob ac asiffeta, fel rwy'n cofio'n dda.

Yn y llofft uwchben roedd gweithdy William Pritchard. Ei gynnyrch mwyaf lluosog oedd eirch. Y coed ar eu cyfer yn cael eu codi i'r gweithdy hefo *block & tackle* a'r eirch, pan yn barod, yn cael eu gostwng i'r llawr yn yr un modd. Yng nghanol y 30au daeth hon yn Siop William John i gannoedd o ddisgyblion gwancus Ysgol Brynrefail. Roedd yn arfer gwerthu byns a thorth fach am bris rhesymol i'r plant yn ystod dyddiau newynog y rhyfel. Rhywle rhwng 10 a 10.30 oedd amser cau y siop.

Yng nghanol y pentra roedd Y Siop Ganol. Robert Jones, y cigydd, wyf fi'n ei gofio yno gynta. Ychydig rwy'n gofio am hon gan iddo symud i Gae'r Bythod, ger Capel Ysgoldy. Yn fuan wedyn daeth Ifor Owen a'i wraig a'u tri o blant i gadw siop da-da yno. Roedd Jackie, y mab, tua'r un oed a Les (Y Rallt) a minnau, a sawl gwaith wrth syllu ar y poteli hudolus o'r tu allan, y gwnaeth Les ddarbwyllo Jackie i sleifio'i mewn a dychwelyd hefo 2 neu 3 bon-bon i ni ill dau. Fe gâi Jackie chwarae pêl hefo ni am gyfnod wedyn.

Ar ôl i Ifor Owen adael daeth yn ddwy siop – siop y barbwr a siop petha da. Gwilym Williams a'i fam oedd yn rhedag y siop a Gwilym, yn ei gôt wen, yn aml yn gweiddi, 'Siop' wedi i rywun ddod i mewn i'r rhan da-da a fynta ar ganol torri gwallt neu siafio cwsmer yn y rhan arall. Byddai'n brysur iawn ar foreau Sadwrn yn torri gwallt y chwarelwyr o'r pentra a rhai o'r pentrefi cyfagos, megis Y Fachwen.

Siop llawer mwy sidêt oedd Y Llythyrdy, siop Mr a Mrs W. F. Williams, neu siop William Post, ar stryd y pentra. Roedd y siop ar dop allt y pentra gyferbyn â'r County. Gwerthu stampiau a *Postal Orders* oedd eu prif fusnes, ar gyfer y pyllau pêl-droed ar ddydd Gwener, a hefyd perthnasau a ffrindiau yn gyrru rhodd fechan i'r bechgyn yn y lluoedd arfog yn ystod y rhyfel, heb anghofio 'chwaith talu Lloyd George i'r henoed bob dydd Gwener. Roeddent yn gwerthu mân bethau eraill gan gynnwys Oxo a Bovril, oherwydd roedd arwydd Oxo yn y ffenast a thri gwahanol neges oddi tano, yn dibynnu o ba ongl yr oeddech yn edrych arno – o'r canol ynteu o'r dde neu'r chwith. Roeddem yn gweld hwn yn glyfar iawn. Dyn mewn pyjamas gwyn a glas yn eistedd ar glamp o botel Bovril yng nghanol y môr a dŵr yn diferu o fodia'i draed a'r geiriau *'It avoids that sinking feeling'* oddi tano oedd un Bovril. Doedd o'n gwneud fawr o synnwyr i ni blant y pentra.

Bu yno un siop da-da arall. Siop Joni Wili, ym mhen draw yr entri gul rhwng Tŷ Glas a Berlin House oedd hon. Mewn cwt pren bychan y cedwid y 6 photel petha da Partingtons o Landudno. Rhyw unwaith neu ddwy rwy'n cofio prynu gwerth dima o betha da. Byrhoedlog iawn oedd ei hanes.

Cyn i Gwilym Williams agor ei siop trin gwallt, bu siop Cwt Jôs yn torri gwallt a shafio. Mewn cwt sinc coch ar fin y ffordd i'r Felin y'i sefydlwyd gan Joseph Jones, Rhydau Duon. Roedd dwy ran i'r siop hon hefyd, yn union fel un Siop Ganol. Roedd Jôs wedi byw am gyfnod yn British Columbia ac wedi cael damwain i dop ei goes yno, ac o'r herwydd, roedd yn hanner cloff. Pan fyddai'n torri eich gwallt ac yn symud yn herciog o amgylch y gadair, byddai'n rhoi ei law oer, haf a gaeaf, ar eich gwegil. Byddai'n dipyn o sioc i fachgen bach, fel y gwn yn iawn.

Yn y 40au fe ddaeth Cwt Jôs arall i fod. Fe sefydlodd Jôs ddau fwrdd biliards llawn maint yn Ty Glas. Siarsiwyd ni, y llafna ifanc, nad oeddem i fynychu'r fath le. Wn i ddim a oedd hyn oherwydd, yn ystod blynyddoedd y rhyfel daeth Jôs a rhai o'i deulu yn Gomiwnyddion, a Joe (Stalin) fu eilyn Jôs weddill ei oes. Ond, er gwaetha hyn oll, ymhen ychydig iawn o flynyddoedd gwelais Edward Thomas, y pen blaenor, a'r Parch Glyn Meirion Williams, y gweinidog, yn gwylio'r chwarae yno.

O bryd i'w gilydd, bu tair siop chips yn y pentra. Un Griffith Griffiths, Rhesdai Orwig, oedd yr un gyntaf rwy'n ei chofio. Roedd yn y tŷ canol o dai Gors Bach. Ar nos Wener byddai llanciau'r fro wedi celcio digon i fforddio sglod a sgod a phys slwtj i fwyta i mewn. Ar ôl eu gyrru i lwr y lôn goch byddent yn mynd yn swnllyd a phan ddigwyddai hynny, *command* Griffith fyddai, 'A ydych eisiau rhywbeth arall? Os nad oes, yna ewch i'r stryd fawr.'

Siop chips Ritchie Parry oedd un arall. Roedd hon gyferbyn â giât y County. Oherwydd diffyg gwaith bu rhaid iddo adael am Brimingham ac nid wy'n cofio'i weld yn aml wedyn.

Agorodd Robert Williams, Y Rallt, siop chips yn y Cwt Jôs gwreiddiol. Pan fyddai cwsmer yn gofyn a oedd y chips yn barod, ei ateb yn ddi-feth fyddai, 'Barod ymhen nics'. Fel y ddwy arall byr iawn fu hanes hon hefyd.

Y busnes ola un oedd Cwt Dan y Crydd, yn y Gors Bach, dau ddrws i ffwrdd o ddrws y capel. Roedd nam ar lygaid Daniel Williams a arferai gerdded 'nôl a mlaen o Gwm y glo i'w weithdy bob dydd. Serch hynny roedd yn feistr ar wadnu a sodlu esgidiau hoelion mawr y chwarelwyr a'u bechgyn. Nid felly hefo sgidia gwadnau dipyn teneuach y merched. Y cyffyrddiad ysgafn yn eisiau weithiau. Bellach 'does ond y Llythyrdy yn dal ar agor.

Wrth edrych ar yr Elidir o'm cartref yn Rhosmeirch, Ynys Môn, byddaf yn cofio am y cymdeithasau gwâr a chyfeillgar oedd yn bodoli yn y pentrefi o gylch y mynydd ac yn diolch i Dduw am gael fy magu yn y fath awyrgylch.

Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth
8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: **williamsgw@parliment.uk**



PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

EISTEDDFOD BENTREF

Cynhaliwyd yr Eisteddfod yn y Neuadd Gymuned ddydd Sadwrn, 15 Tachwedd. Fe dalodd prysurdeb yr ymarferion yn ystod yr wythnosau blaenorol ar ei ganfed, gan fod safon y cystadlu yn yr oedran cynradd o safon clodwiw iawn. Diolchir i Marina a Dewi a phawb arall a fu wrthi'n ddiwyd hefo'r plant. Cafwyd eitemau arbennig o wefreiddiol gan rai o'r bobl ifanc yn yr Adran hŷn ac yn sicr fe glywir am lwyddiant rhai yn fuan yn y dyfodol.

Bu canmoliaeth uchel gan Mr Alwyn Pleming i'r Adran Llên, yn arbennig y prif lenorion a'r rhai eraill a ddaeth i'r brig – y mae hyn yn glod i'w haddysg ac i'w cartrefi.

Cafwyd eitemau gan yr Oedolion hefyd, y llon a'r lleddf: Cyd-adrodd, Band Cegin, Parti Canu a Chân Ysgafn a diolchir i'r beirniaid oll am eu gwaith caled: Megan Roberts – Cerdd; Tami Gwyn – Adrodd; Alwyn Pleming – Llên; Pat Jones – Coginio a Gwaith Llaw; Islwyn Williams – Arlunio.

Diolchir i'r Arweinyddion: Elizabeth Jones, Phyllis Ellis ac Eifion Harding, a'r Cyfeilyddion: Dewi Hughes ac Elfed Morgan Morris. Diolchir yn arbennig hefyd i holl aelodau'r Pwyllgor a'r bobl ifanc fu'n helpu gyda'r medalau a'r gwobrau.

Edrychir ymlaen am Eisteddfod lwyddiannus a chartrefol yn 2004.

DALIER SYLW: Y mae cystadlaethau cynllunio **Logo Gwefan yr Eisteddfod yn agored tan Rhagfyr 31**. Gweler y wefan: www.eisteddfodpenisarwaun.org. Ni dderbynnir cais ar ôl y dyddiad yma. Cyhoeddir y canlyniad ar y wefan ac mewn rhifyn o'r Eco wedi'r Nadolig.

CANLYNIADAU.

Meithrin a chyn oed ysgol: 1. Celyth, 2. Magi, 3. Jordan a Lois. Canu: 1. Lois, 2. Jordan a Celyth, 3. Magi a Catrin. Gwaith Llaw: 1. Magi Tudur, 2. Sian, 3. Miriam. Arlunio: 1. Magi Tudur, 2. Annia, 3. Emily a Lois.

Ceinwen yn derbyn Cwpan Eluned Porter am ganu Bl.1 a 2.

Blwyddyn Derbyn: Adrodd: 1. Nia Medi. Canu: 1. Nia Medi. Gwaith Llaw: 1. Nia Medi. Arlunio: 1. Sophie, 2. Sioned, 3. Nia. Rhyddiaith: 1. Nia, 2. Sophie, 3. Caitlin.

Blwyddyn 1 a 2: Canu *(Cwpan Eluned Porter)*: 1. Ceinwen, 2. Joe a Tania, 3. William. Rhyddiaith: 1. Mared, 2. Cai, 3. Lowri a William. Arlunio: 1. Lowri, 2. Miles, 3. Dru a Ceri. Gwaith Llaw: 1. Sion, 2. Tania a Ceinwen, 3. Iori. Coginio: 1. Tania a Ceinwen. Parti Canu Bl. 0.1. 2.: *(Tlws Mrs Thomas)* 1.: Parti Joe. Llun ar gyfrifiadur: 1. Ashley, 2. Lowri a Cai, 3. Hannah a Ceinwen.

Blwyddyn 3 a 4: Adrodd: 1. Glesni, 2. Catrin, 3. Sion a Katie. Canu: 1. Sophie, 2. Katie, 3. Claire. Rhyddiaith: 1. Mollie ac Elliw, 2. Glesni a Liam, 3. Elen Gwenllian a Catrin Heledd. Arlunio: 1. Elliw, 2. Sophie, 3. Catrin Heledd ac Elen Gwenllian. Gwaith Llaw: 1. Sophie, 2. Claire a Katie.

Blwyddyn 3, 4, 5, 6: Parti Canu *(Cwpan Phyllis Ellis)*: Parti Sion Powell.

Blwyddyn 5 a 6: Adrodd: 1. Anest, 2. Anna. Canu: 1. Anest, 2. Elin, 3. Ffion. Rhyddiaith: 1. Anest, 2. Anna a Megan G., 3. Lois ac Elin. Arlunio: 1. Anna, 2. Lois, 3. Catrin. Gwaith Llaw: 1. Megan G., 2. Marc, 3. Taliesyn.

Blwyddyn 3,4,5,6: Coginio: 1. Catrin, 2. Taliesyn, 3. Kieron a Sophie.

Oed Cynradd: Ffotograffiaeth: 1. Catrin. Unawd Cerdd Dant: 1. Anest, 2. Catrin.

Parti Adrodd *(Cwpan Bob Williams)*: 1. Parti Pili, 2. Parti Pala. Unawd piano: 1. Anest, 2. Anna, 3. Sophie.

Parti Cydadrodd 'Pili' a ddaeth yn gyntaf yn adrodd Pili Palas gan Emyr Roberts.

Parti Cyd-adrodd 'Pala' a ddaeth yn ail.

Blwyddyn 3, 4, 5, 6: Unrhyw lun ar gyfrifiadur 1. Katie a Lois, 2. Claire ac Anna, 3. Elen Gwenllian ac Einion ac Ifan. Darllen o'r Beibl: 1. Anna, 2. Anest, 3. Catrin.

Tarian yr Eisteddfod: Anest Bryn.

Unrhyw ddawns unigol: 1. Anest Bryn.

Blwyddyn 7, 8, 9: Canu: 1. Lois Eifion. Adrodd: 1. Bethan Mai. Rhyddiaith: 1. Rhian Elin George. Arlunio: 1. Sioned Mai, 2. Chris Hamer. Coginio: 1. Andrew Woodcock, 2. Bethan Mai Williams.

Blwyddyn 10–13: Adrodd: 1. Jenny Hamer. Unawd Piano Oedran Uwch: 1. Lois Eifion. Arlunio: 1. Jenny Hamer. Coginio: 1. Sara Woodcock. Unrhyw offeryn heblaw piano: 1. Jenny a Lois, 2. Sioned Alaw.

Oed 7–13: Unrhyw boster (Cyfrifiadur): 1. Bethan Mai Williams, 2. Jenny Hamer, 3. Sioned Mai.

Dan 18 oed: Cân ysgafn: 1. Lois Eifion. Deuawd Agored: 1. Lois ac Anest. Ffotograffiaeth: 1. Llyr Owen Roberts, 2. Chris Hamer, 3. Jenny Hamer.

Oedolion: Parti Adrodd: 1.Parti'r Merched. Band y Gegin: 1. Parti Janice. Gwaith Llaw: Helen Williams, Gellilydan. Coginio: 1. Heddwen Hughes, 2. Carys Williams, 3. Carolyn Jones ac Amanda McGuinness.

Cwpan yr Eisteddfod, gyda chlod mawr, i Rhian Elin George.

Ffotograffiaeth: 1. Les Larsen. Grŵp Cân Ysgafn: 1. Parti'r Pwyllgor. Parti Canu: 3. Parti'r Pwyllgor.

Gorffen Limrig: 1. Jenny Hamer.

Brawddeg: 1. Les Larsen, 2. Bethan Mai Williams.

Cwpan yr Eisteddfod i'r Prif Lenor: Rhian Elin George.

Y parti canu hwn yn awyddus i fynd i Awstralia i gael chwarae digiridŵ.

Tarian yr Eisteddfod, am waith clodwiw, i Anest Bryn.

Y limrig Fuddugol

Aeth trip draw i Lerpwl eleni
Ar gwch wedi ei wneud o jeli;
Chwythodd y gwynt
Wrth ymyl Fflint
A gorffenodd i fyny ym Mhwllheli.

Enillydd brawddeg allan o'r gair **Cynulliad**

Cymru/Cymry
Yn Noddi
Undeb
Llywodraeth
Israddol
Analluog
Di-rym

VIVE LES MARIES. Ar 31 Hydref, dydd Calangaeaf, priodwyd Osian Dafydd a Sara yn Neuadd y Dref, Mairie d'Auxerre, yn Ffrainc am 3.30 y pnawn. Gweinyddwyd y gwasanaeth hyfryd yn Ffrangeg gan Faeres y Dref. Bu cymeradwyaeth fyddarol gan y Cymry pan ynganodd Osian, 'Oui', mor glir wrth dderbyn Sara yn wraig iddo. Cyfnewidiwyd modrwyau o aur Cymru ac edrychai Sara yn hynod o drawiadol yn ei gwisg briodasol sidanaidd a wnaethpwyd mor gywrain gan Mrs Megan Williams, Trefor. Bysiau Trefor a Chlynnog oedd cludwyr rhai o'r gwesteion o Gymru a diolchir i Ken a Gwyn, y gyrrwyr am fod mor amyneddgar a chymwynasgar.

Wedi'r gwasanaeth, yn swn byddarol y ceir yn hytian drwy'r strydoedd a phawb yn cyfarch y pâr priodasol, aeth pawb i Relais des Ailes am 'vin d'honneur' ac yno cafodd nifer o ffrindiau o Ffrainc a'r gwesteion fwynhau danteithion ysgafn.

Roedd baneri 'Vive les mariés' a 'Priodas Hapus' a'r Ddraig Goch yn groeso cynnes dros ben.

Cynhaliwyd y cinio a'r parti nos mewn hen felin oedd yn dyddio'n ôl i'r 12fed ganrif, yn Auberge des Vieux Moulins, Banaux. Roedd dwy deisen briodas, un Ffrangeg ar ffurf y Felin yn llawn 'profiteroles' a theisen Gymreig wedi'i haddurno â blodau ffres.

Cyfarchwyd y pâr priodas mewn Ffrangeg a Chymraeg. Bu pawb yn eistedd yn hamddenol wrth y byrddau yn sgwrsio a mwynhau pryd naw cwrs tan 3.30 y bore. Wedyn bu'r pâr ifanc yn dawnsio i recordiau Cymraeg a Ffrangeg. Bu'n ddathliad arbennig o hapus a chofiadwy. Dymunir diolch i Sylvie a'r teulu am wneud y trefniadau trylwyr a sicrhau priodas arbennig i Sara ac Osian.

Merci beaucoup Sylvie.

Diolch o galon.

CYFARCHION NADOLIG. Dymuna Sally Griffith, 16 Bryntirion, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

DYMUNA Mrs Blodwen Pritchard, 10 Llys y Gwynt, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Ddda i'r teulu, cymdogion a ffrindiau.

Osian a Sara yn yr Abaty yn Auxerre.

URDD – ADRAN BENTREF. Y mae'r Adran Bentref wedi ailgychwyn a chroesewir unrhyw un o oedran Blwyddyn 2 i fyny yn y Neuadd Gymuned bob nos Fercher o **6.30–7.30.** Tâl aelodaeth am y flwyddyn yw £5. Bydd diod a bisgedi ar gael am 20c.

CYFEILLION YR HENOED. Cynhelir Ffair Nadolig nos Wener, 5 Rhagfyr am **6.30** yn y Neuadd Gymuned. Bydd yr elw yn mynd tuag at Ginio Nadolig yr Henoed ar **13 Rhagfyr** yng Ngwesty'r Buckley, Biwmares. Bydd cyfle wedyn i siopa yn Pringles.

Diolchir i bawb am y gefnogaeth i'r Noson Bingo. Gwnaed elw o £100.

DYWEDDÏAD. Llongyfarchir Erin Eifion, Winllan a Huw ar achlysur eu dyweddïad. Pob bendith i'r dyfodol.

GWELLHAD. Deellir fod nifer wedi bod yn sâl yn y pentref ac anfonir y dymuniadau gorau am adferiad iechyd i bob un ohonoch. Anfonir y cofion cynhesaf hefyd at Mrs Sally Griffith, 16 Bryntirion sydd ar hyn o bryd hefo'i merch, Edith, yn Nhrefor, Caergybi.

DIOLCH. Dymuna Mrs Sally Griffith, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion a galwadau ffôn ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar.

DYMUNA Mrs Catherine Williams, 20 Bryntirion ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am ddiwrnod i'w gofio ar achlysur pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Heledd am gipio'r Gadair yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Y mae Heledd yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Tan y Coed a'r Ysgol Gymuned. Da iawn chdi a dalied ati.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Tachwedd a'r enillwyr oedd: 1. Nansi Jones, Meillionydd, 2. Elinor Williams, Bryn Rhydd Mawr; 3. Richard Parry, Tawelfa. Cynhelir **OGSIWN ADDEWIDION nos Wener, 28 Tachwedd am 6.30.** Yr Arwerthwyr yw Arwel Jones ac Eifion Harding. Y mae nifer o addewidion da felly dowch i fargeinio a chefnogi'r weithgaredd er budd y Neuadd. Ceir ychydig o eitemau gan fuddugwyr yr Eisteddfod Bentref. Pris mynediad yw £1 i oedolion a 50c i blant, yn cynnwys diod a thocyn raffl.

Gobeithir trefnu Canu Carolau o gwmpas y pentref cyn y Nadolig.

YSGOL SUL BOSRA. Fore Sul, 23 Tachwedd bu criw yn ymuno â phlant Ysgol Sul Ebeneser, Deiniolen mewn Darllen Distaw Noddedig er budd 'Action Aid' yn Kenya. Mae angen codi swm o arian i helpu teuluoedd a chymdeithasau i gael gwell amodau byw. Derbyniwyd llythyr dwys gan Ali Juma Kalato yn diolch o waelod calon am ei helpu i gael y pethau bychain na feddyliai y buasai byth yn eu cael. Llythyr o ddiolch mawr a gafwyd gan Emily Chemisto – diolch am y rhodd fawr o gael tap dŵr glân tu allan i'w thŷ a thu allan i dai y pentref y mae'n byw ynddo – sef Kaptalelio. Y mae pawb mor ddiolchgar a bywyd gymaint cyfoethocach yn awr.

Roedd pawb yn gofyn ble mae Mr Evie Jones, ond deellir ei fod wedi cael helynt hefo'i bengliniau a'i fod wedi bod mewn poen dybryd. Gobeithio eich bod yn well Mr Jones, a brysiwch yn ôl atom. Mae'r plant yn holi amdanoch.

Bedyddir Meilir Parry, mab bychan Sioned a Gwyn, Y Waenfawr a brawd bach Thomas, bnawn Sul, 14 Rhagfyr am 2.00 o'r gloch. Bydd cyfraniad Nadoligaidd byr gan aelodau'r Ysgol Sul a bydd y profiad o weld plentyn bach yn cael ei fedyddio yn brofiad gwerthfawr iddynt.

CYNGERDD. Cynhelir cyngerdd o dan nawdd 'Cerdd Byw Cymru' yng Nghartref Preswyl Penisarwaun, gyda Gwenan Gibbard yn canu gyda'r delyn. Mae gwahoddiad i'r ardal ymuno â'r preswylwyr i fwynhau'r prynhawn Sadwrn, 29 Tachwedd yn cychwyn am 3 o'r gloch y pnawn. (Ffoniwch i ddweud os ydych am fynd er mwyn i chi gael paned, ar 01286 872038.)

EGLWYS ST. HELEN

Gwasanaethau mis Rhagfyr:

7: 10.30: Cymun Bendigaid
14: 4.00: Gwasanaeth Naw Llith a Charol gydag aelodau yr Ysgol Sul yn cymryd rhan.
21: 10.30: Cymun Bendigaid
24: Noswyl y Nadolig am 11.30: Cymun y Nadolig.
28: 11.00: Cymun Undebol yn Eglwys St Mair, Y Felinheli.

Estynnir croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau uchod.

BRYSIWCH!

Archebwch eich TWRCI NADOLIG a'ch CYW IÂR a CHIGOEDD ERAILL RŴAN

oddi wrth

Wavell Roberts

CIGYDD

LONDON HOUSE

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 673574

PEN CIGYDD Y FRO

MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI

Ysgol Brynrefail

Eisteddfod Ysgol Brynrefail

Eleni eto cafwyd Eisteddfod Ysgol benigamp gyda'r safon uchel ddisgwyliedig. Clod mawr i ddisgyblion y chweched dosbarth fu mor brysur yn hyfforddi ac annog y disgyblion iau.

Cyn y diwrnod ei hun bu chwysu wrth wneud gwaith llaw ac ysgrifennu ym mhob pwnc.

Dyma sut y dyfarnwyd y Tlysau Pwnc eleni:

Tlws Gwyddoniaeth i Rhys Griffith 8O, Elidir

Tlws Saesneg i Aaron Warren 10, Gwyrfai

Tlws Ffrangeg i Karon Williams 8N, Eilian

Tlws Technoleg i Lowri Hughes Jones 9S, Eilian

Tlws Celf i Debbie Hughes 11i, Eryri

Tlws Dyniaethau i Alice Butler 9E, Elidir

Tlws Technoleg Bwyd i Bethan Wyn Jones 8i, Eryri

Tlws Mathemateg i Tomos Parry 9S, Eilian

Tlws Cyfrifiadureg i Efa Dyfan 7O, Eryri

Tlws Cymraeg i Iona Speake 8i, Eryri

Tlws am fwyaf o farciau ym mhob pwnc yn mynd i Sion Elwyn Hughes 7E, Gwyrfai

Llongyfarchiadau iddynt i gyd, a bydd y tlysau a gynlluniwyd gan Mr Gwilym Williams Crefftau Elidir, yn siŵr o gael lle amlwg ganddynt oll.

Ar y diwrnod tyngedfennol bu cystadlu brwd a'r cwpanau yn mynd i'r pedwar tŷ.

Un i Eilian, Y Côr Tŷ;

Dwy i Eryri, Parti Bechgyn a Dawnsio Disgo;

Tair i Elidir, Parti Llefaru, Cwpan Offerynnol a Parti Ffrangeg;

Pump i Gwyrfai, Marciau o flaen llaw, Sgets, Cân Ysgafn, Parti Merched a'r Cwpan Tŷ.

Cafwyd perfformiadau arbennig iawn gan sawl unigolyn hefyd. Am y chweched tro aeth y tlws am fwyaf o farciau o'r llwyfan i Huw Foulkes bl 12 Eilian, tipyn o gamp! A Lois Eifion 9E Elidir a Ffion Jones 7i Gwyrfai yn derbyn y wobr i'r ysgol iau. Angharad Morris 7o Elidir gafodd wobr Emma Bernard am yr adroddiad gorau o'r llwyfan a Rhys Hughes bl 11 Elidir aeth a'r wobr am y perfformiad offerynnol gorau gyda'i gorn.

Heledd Wyn (ar y chwith) ac Alice Butler, gyda'r Orsedd anrhydeddus a merched bach Ysgol Gynradd Bethel – a berfformiodd y ddawns flodau.

Heledd Wyn Jones bl 13 o dŷ Gwyrfai gipiodd Y Gadair, a'r Llenor Iau oedd Alice Butler 9E Elidir, a'r Tlws Rhyddiaith Saesneg yn mynd i Fiona Nesfield bl 12 Elidir am yr ail dro.

Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd am yr ymdrech a'r ymroddiad, ac edrychwn ymlaen at y flwyddyn nesaf yn eiddgar.

Dyma sut oedd hi ar ddiwedd y noson:

1af	Gwyrfai
2il	Elidir
3ydd	Eilian
4ydd	Eryri

* * *

Dyma adroddiadau gan gapteiniaid rhai o'r tai:

Fe ddaeth yr ymarferion unwaith eto i danio meddwl aelodau'r chweched dosbarth. Cafwyd tasg anodd o gasglu'r blynyddoedd iau i'r ymarferion, ond, erbyn diwrnod yr eisteddfod, roedd pawb yn rhfeddu sut y daeth popeth at ei gilydd.

Yn sicr, fe weithiodd pawb fel tîm a chafwyd cyd-dynnu da rhwng aelodau'r chweched dosbarth. Cawsom lawer o hwyl yn trefnu'r ymarferion yn enwedig y gân ysgafn a'r parti Ffrangeg, er nad oedd llawer yn deall ystyr y geiriau!!!!

Daeth y diwrnod mawr a phawb yn weddol barod am y cystadleuthau. Roedd Eilian yn ail gyda'r marciau ymlaen llaw a'r ysbryd yn weddol dda. Cychwynodd y dydd braidd yn siomedig wrth i ni dderbyn y drydedd wobr am y gân ysgafn a phawb yn cwestiynu dyfarniad y beirniad!

Ond gan fod Eilian yn dŷ oedd yn cyd-weithio ac yn barod am sialens roeddem yn benderfynol o ennill o leia un gystadleuaeth!

Hir fu'r disgwyl am wobr gyntaf, ond fe ddaeth honno yn y gystadleuaeth fawr, sef Y Côr. Roedd pawb yn falch fod Eilian yn drydydd ar ddiwedd y noson ac yn hynod hapus ein bod wedi cadw'r traddodiad o ennill Y Côr. Rydym fel chweched dosbarth wedi dod yn fuddugol yn y côr ers ein hanes yn yr ysgol.

Gobeithiwn y bydd yr eisteddfod yn parhau i fod yr un mor safonol yn y blynyddoedd i ddod a diolchwn i'r llond llaw o athrawon a'n helpodd gyda'r paratoadau.

Huw Foulkes a Meinir Hughes
(capteiniaid Eilian)

* * *

Daeth yr Eisteddfod unwaith eto ac roedd hi'n amser i drefnu'r ymarferion. Tasg anodd oedd casglu'r holl ddisgyblion iau i'r ymarferion coeliwch ni! Hoffem ddiolch i'r ychydig athrawon a oedd yn fodlon helpu, yn enwedig Mrs Anwen Edwards, ac athrawon yr Adran Gymraeg.

Crewyd ysbryd da rhwng y gwahanol dai a phawb yn cyd-weithio heb lawer o anghtuno. Derbyniom ddwy wobr gyntaf, ail mewn ambell gystadleuaeth ac, er i ni ddod yn bedwerydd yn y côr, roedd llawer yn credu fod dyfarniad y beirniad yn gwbl wahanol i'r disgwyl!!

Ond felly y bu, ac er i ni ddod yn bedwerydd roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn ac edrychwn ymlaen am eisteddfod gwerth chweil eto'r flwyddyn nesaf. Gobeithio y bydd y safon a'r ysbryd gyfeillgar rhwng y tai yn cael ei gynnal y flwyddyn nesaf ac yn y dyfodol.

Heledd Bryn Parri a
Geraint Iwan
(capteiniaid Eryri)

* * *

Wedi wythnosau o ymarfer caled i baratoi tuag at yr eisteddfod dawnsiodd y grŵp sef Kelly, Sasha, Stephanie, Elin, Sioned a Rebecca yn arbennig o dda i gipio'r wobr gyntaf yn y gystadleuaeth Dawnsio Disgo. Da iawn chi genod, roeddech yn haeddu ennill y gwpan!

Rachel Ward
(hyfforddwraig Eryri)

* * *

Hydref, adeg y 'Steddfod a phob amser egwyl a chinio'n diflannu. Pob munud sydd ar gael i baratoi ar gyfer y 'diwrnod mawr'.

I ddweud y gwir, mae Elidir wedi cael dipyn o wawd yn yr ysgol ers sawl blwyddyn, gan ein bod yn dod yn olaf o hyd. Pa ots! Ai hon fyddai'n blwyddyn ni? Ymlaen â'r ymdrech.

Roedd pethau'n argoeli'n dda ar y cychwyn. Doedd y chweched ddim i weld yn gweiddi cymaint ag arfer. Bu bron i mi dagu pob bachgen yn nhŷ Elidir, gan mai ond tri drodd i fyny i'r parti bechgyn – a rheini i gyd yn y chweched!

Wel, erbyn wythnos olaf yr

J.M. JONES A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael –

Ffôn: (01286) 672898 (dydd)
676285 (nos)

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol * Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188

Fiona Nesfield a'r Tlws Rhyddiaith Saesneg, ac Alice Butler, y Llenor Ifanc.

ymarferion, roedd dipyn o siâp, ar wahân i'r parti bechgyn! Dyma ddechrau targedu rhai cystadlaethau, dechrau'r gwaith caled tu ôl i'r llenni, gorffen sgwennu ambell ddarn a chreu props. Ac w'ch chi be? dechreuodd diawliaid y parti bechgyn ganu a dawnsio! Mae'n siŵr na hyn sy'n gwneud y 'Steddfod – pawb yn methu gwersi, chweched yn gweiddi, disgyblion yn achwyn a chwyno. A phanics llwyr. Bydd yn iawn ar y noson – gobeithio!

Roedd Elidir yn ei safle arferol yn dilyn canlyniadau y gwaith o flaen llaw. Ond dim digalonni. Erbyn diwedd sesiwn y pnawn roeddem wedi codi i'r trydedd safle. Yna perfformiad ysgytwol y nos. Canu, adrodd – a gweddïo.

Ennill tair cwpan ar ddiwedd y noson. Yn eu plith cwpan y Parti Adrodd – a welsom olaf saith mlynedd yn ôl. Roedd hyn yn ddigon i'n codi i'r ail safle. Sôn am droedigaeth. *'Elidir Strikes Back'*. Dyna brofi nad jôc yw Tŷ Elidir, a hoffwn ni, aelodau'r chweched, fachu ar y cyfle i ddiolch i bawb am eu cyfraniad, a phwy a ŵyr, efallai mai Eilidr fydd ar y copa flwyddyn nesaf. O ia, ail gafodd y parti bechgyn!

Ffion, Dylan a Sara

Mis yn Bolifia

Tra bu'r mwyafrif o fyfyrwyr Blwyddyn 13 yr Ysgol yn chwysu am eu canlyniadau bydd Ceri Mill a Karen Leadbitter, dwy fyfyrwraig Chweched Brynrefail allan yn Bolivia ar alldaith gyda Cwmni Camre Cynru.

Cwmni sydd wedi ei sefydlu i gynnig profiadau anturus i bobl ifanc ydyw Camre Cymru. Yn y parti bydd dwsin o'r ardal. Yn ogystal a Ceri a Karen bydd Samantha Pritchard, a oedd yn ddisgybl yn yr Ysgol y llynedd hefyd.

Allan yn Bolivia bydd y criw yn blasu pob math o brofiadau, gan gynnwys ymweld â thraeth Copacabana, gwaith mwyngloddio Potosi, Gwastadedd halen a Pharc Cenedlaethol. Rhan bwysig o'r fenter fydd gweithio gyda'r cymunedau y maent yn ymweld.

Fel rhan o'r prosiect bu'r merched yn trefnu gweithgareddau i godi'r arian i fynd.

Pob lwc i'r criw ac efallai y cawn ychydig o'u hanesion ar ôl iddynt ddychwelyd..

Nadolig Llawen i Blant Chernobyl

Mae gwir ysbryd y Nadolig yn fyw ac yn iach yn ardal yr Eco, diolch i garedigrwydd Terry a Menna McDaid o Lloches, Waunfawr, a'u cyd-aelodau mewn elusen o'r enw *Chernobyl Children's Lifeline*.

Ar 15 Rhagfyr, cyrhaeddodd pedwar o blant yr holl ffordd o bentref Lippen ym Melarws i fwynhau mis o wyliau gyda theuluoedd yn Y Waunfawr, Pontllyfni a Llanllyfni.

Mae un plentyn yn 15 oed, un yn 9 a dau yn 8 oed. Cânt fwynhau pleserau y tueddwn ni i'w cymryd yn ganiataol, yn rhydd o galedi eu bywyd bob dydd am ryw hyd.

Anrheithiwyd ardal enedigol y plant gan drychineb niwclear Chernobyl, a orfododd yr holl drigolion i symud tua 200 milltir o'r Iwcraen i'w hardal bresennol.

Cafwyd problemau iechyd difrifol yn sgil y ddamwain, ac mae ffurfiau ar ganser bellach yn gyffredin iawn ymhlith plant ac oedolion.

Nod yr elusen *Chernobyl Children's Lifeline* yw cynnig gwyliau ym Mhrydain i cyn gymaint â phosibl o'r plant a orfodwyd i ddianc i Belarws. Yng Ngwynedd cododd Terry, Menna a'u cyfeillion dros £4,500 tuag at y gwaith o dalu am gostau hedfan.

Bu Terry'n gweithio ers 20 mlynedd fel Rheolwr Cynnal a Chadw ym Mharc Gwyliau Glangwna, Caeathro. Yno y codwyd llawer o'r arian mewn gweithgareddau fel ocsiwn a rasus pramiau.

Meddai, 'Hoffwn ddiolch i lu o fusnesau lleol a gyflwynodd roddion i'w rafflo, ac i sefydliadau fel y Frigâd Dân a Chôr Meibion Caernarfon a drefnodd gasgliadau ymhlith eu haelodau.'

Os dymunwch helpu *Chernobyl Children's Lifeline* mewn unrhyw fodd y Nadolig hwn, cysylltwch â Terry neu Menna ar 01286 650168 i glywed mwy am eu gwaith rhagorol.

CHWARAEON

Timau pêl-rwyd a hoci blwyddyn 8 yr ysgol sy'n cael sylw y mis yma. Unwaith eto, diolch i aelodau'r timau am yr adroddiadau. Chwaraewyd y ddwy gêm yn erbyn Ysgol Dyffryn Ogwen.

Tîm 'B' Hoci v Ysgol Dyffryn Ogwen

Er fod tîm ni yn pasio'n dda yn yr hanner cyntaf, roedden ni yn methu sgorio. Cymerodd y tîm cartref eu cyfleon a sgorio ddwy waith yn y chwarter cyntaf – braidd yn erbyn llif y chwarae.

Diolch fod y gêm yn cael ei rhannu'n bedwar cyfnod. Rhoddodd hyn gyfle i Mrs. Harris gael gair – a rhoi pryd o dafod i ni.

Roedden ni'n gwybod y gallen ni chwarae yn well!

Sôn am newid. Tair gôl i Sara a dwy i Catrin, yn rhoi Brynrefs ar y blaen o 5–2 ar yr hanner.

Roedd calonnau'r 'howgets' wedi eu torri, ac yn ystod gweddill y gêm, daeth dwy gôl arall i Sara a tair i Catrin. 10–2 i ni felly, a hynny ar ôl bod dwy gôl i lawr. Panics, pa banics?

Ffion Medi ac Elliw Sharpe

Tîm 'A' Pêl-rwyd v Ysgol Dyffryn Ogwen

Roedden ni'n chwarae yn erbyn tîm Bl. 9 Dyffryn Ogwen ac yn disgwyl gêm galed yn erbyn genethod hynach. Roedd Dyffryn Ogwen yn ymosod yn aml, ond methu rhwydo. Roedd mwy o drefn ar basio tîm ni, ac roedd Glesni, ein 'saethwr', wedi dod a'i 'dwylo sgorio' hefo hi. Dwy gôl Glesni oedd yn gwahanu'r timau ar yr egwyl.

Digon cyfartal oedd yr ail hanner ond eto amddiffyn da gennym ni yn atal Dyffryn Ogwen. Daeth trydydd gôl i Glesni, a tair gôl hefyd i Lois, yn rhoi sgor terfynol o Brynrefail 6 Y.D.O. 0.

Lois Angharad a Sarah Scase

Tîm Pêl-Rwyd Bl. 8

Daeth pum ysgol i gystadlu yn Nhwrnament yr Urdd Rhanbarth Eryri. Cawsom ddwy gêm agos iawn i ddechrau. Gêm dda yn erbyn Syr Huw, ond er i Glesni a Lois sgorio, y Cofis enillodd o 3–2. Yna'r gêm galetaf yn erbyn Ysgol Tryfan. Aethom ni ddwy gôl ar y blaen drwy goliau Zoe a Glesni, ond yn ôl daeth Tryfan a'n curo 4–2. Er colli dwy, roedden ni dal yn benderfynol

Am y ddwy gêm oedd yn weddill. Curwyd Dyffryn Ogwen o 4–0 (Zoe 3, Glesni 1), a gorffen y twrnament ar nodyn uchel drwy guro Ysgol Dyffryn Nantlle 4–1 (Zoe 2, Glesni 2). Pnawn digon boddhaol felly, gyda pherfformiad da ym mhob un o'r gemau.

Tryfan enillodd y gystadleuaeth, a nhw fydd yn cynhyrchioli Eryri yn y rowndiau terfynol yng Nghaerdydd. Flwyddyn nesaf amdani felly!

Marged Rhys a Glesni Owen

Cynllun Darllen a Rhifedd Bl.7

Cynllun Darllen a Rhifedd.

Yn ystod y llynedd bu criw o ddisgyblion Bl.7 yn rhan o gynllun darllen a rhifedd. Bu'r disgyblion wrthi'n brysur yn darllen ddwywaith yr wythnos yn y llyfrgell amser cofrestru. Yn goruchwylio roedd Mrs Sharon Griffiths, Mrs Gwenno Dobb ac aelodau o'r chweched dosbarth.

Roedd disgyblion y grŵp rhifedd yn cyfarfod unwaith yr wythnos yn ystod yr awr ginio, dan ofal Elfed Williams. Diolch i'r plant am eu hymdrechion, a cawsant barti i ddathlu. Cyflwynwyd tocynnau llyfr i'r disgyblion gan y prifathro. Diolch i Palas Print, Caernarfon am drefnu'r tocynnau llyfr.

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL

TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac ymhellach i ffwrdd

Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.
24 awr y dydd

Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833

Symudol: 07778 127394

HEFYD

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Jones & Whitehead Cyf.

Contractwyr Trydan

Goleuadau Argyfwng ac offer Larwm Tân

Gwasanaeth i Gymru Gyfan

Aelod o NICEIC

Contractwyr Trydan Eisteddfod yr Urdd a'r Genedlaethol

Prif swyddfa
Penrala, Tregarth, Gwynedd

Ffôn: 01248 601257

Ffôn (nos):

01248 600477 a 601011

Ffacs: 01248 601982

antur WAUNFAWR

Cynllun Dodrefn

Mae'r Cynllun yn brin o gyfraniadau **nwyddau trydanol**, yn arbennig poptai, oergelloedd, peiriannau golchi a rhewgelloedd fyddai'n addas i'w cleientau ar incwm isel

Gwasanaeth casglu rhad ac am ddim

☎ 01286 674 155
www.anturwaunfawr.org

ANTUR WAUNFAWR

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Silver STAR
GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

ORIAU'R GAEAF:
Ar agor 5 diwrnod yr wythnos
Dydd Mercher i Dydd Sul

ARDDANGOSFA
gan arlunwyr lleol tan 21 Rhagfyr

ANRHEG NADOLIG
Manteisiwch ar ddisgownt o 10% wrth wario dros £5 yn y siop drwy ddangos yr hysbyseb yma (tan Rhagfyr 21)

CYNGERDD NADOLIG
Cynhelir ein cyngerdd Nadolig eleni am 2 o'r gloch brynhawn dydd Sul, Rhagfyr 14 yng nghwmni Côr Meibion Dyffryn Peris a Seindorf Deiniolen. Mynediad am ddim

Pleser o'r mwyaf yw i ni ddatgan ein diolch i bobl Llanberis a'r cylch am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a fu. Hoffem ddiolch i'r mudiadau sydd yn cwrdd yma yn rheolaidd ac edrychwn ymlaen at eich gwasanaethu eto y flwyddyn nesaf.

Mae staff Mynydd Gwefru yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd 'Gwefreiddiol' i holl ddarllenwyr Eco'r Wyddfa.

CROESAIR RHAGFYR



33 ar draws yn yr adran 1 ar draws mewn 5 ar draws ydi'r pedwar gair sydd heb gliwiau iddynt.

Ar Draws:

11. Tymer ddrwg yn prysur niweidio cymeriad y dyn! (5)
12. Y maldod a ddangosir i'r anifail hoff? (5)
13. Mae'n wlad fwyaf yn y byd, ond fe ddaeth Cymru fach yn agos iawn i'w choncro (5)
14. Ar ei ben ei hun (4)
15. Tafell (7)
16. Darn mawr o dir pori heb ddim coed ynddo (4)
19. Gwisgoedd y meirw (7)
20. Dyfais i reoli llif nwy neu hylif drwy bibellau (4)
21. Grawn wedi ei baratoi i wneud diod (4)
24. Poenau pan fo coesau y Rhufeiniwr yn haneru ar y dechrau (6)
26. Dyn bach mewn corff mawr! (3)
27. Twbyn o le crwn? (6)
29. Cynnal etifeddiaeth adeiladol Cymru (4)
30. Aderyn mawr ysglyfaethus sy'n dra chyffredin bellach (4)
36. Morgainc (4)
40. Llafurio yn ei ardal a brolio ei hun am wneud hynny! (5)
42. Dewr (2-3)
43. Y rhan ysbrydol o fod dynol (5)
44. Swnllyd (8)
45. Daw rhywbeth dinistriol o ford Dilwen di-liw pan fo'n chwalu (8)

I Lawr:

1. Llaesu'n wirion er mwyn elwa (5)
2. Cefnogaeth yn dod o nerth i adeiladu cestyll (7)
3. Y sbonc oedd yn rhan o'r siwrnai dramor (4)
4. Dynion doeth iawn, Carlo a dau di-ben (7)
6. Sedd (8)
7. 'O ---- o bren...' dyna wneuthuriad yr un hir ei drwyn yn ôl y bardd (4)
8. Rhedegfa (3)
9. A'i arth sy'n rhoi'r anerchiad? (5)
10. Bygythiwr iard yr ysgol? (4)
17. Y marw amrywiol, amrywiol! (5)
18. Gall fod yn adeilad mawr, neu'r fynedfa iddo (5)
19. Anffawd yr hogan lwcus ..... (5)
22. .... a hogan arall hefyd! (5)
23. Tiroedd i dyfu blodau (5)
25. Dydd Iau ar ddydd Sadwrn! (5)
28. Caniadau o fawl (8)
31. Mae yn siŵr na i Lundain fydd y daith! (7)
32. Enw canol tad William Jones (7)
33. Fel y tywydd pan mae eira yn y gwynt (5)
35. Pedair ceiniog (4)
38. Offeryn i rannu'r mawr oddi wrth y bach (4)
39. Croen anifail wedi ei drin (4)
41. Perth wedi ei thorri a'i phlygu (3)

Derbyniais atebion i groesair mis Tachwedd gan Mair Evans a Margaret W. Roberts, Caernarfon; Jennie Williams ac M. P. Jones, Clynnog; D. B. Williams ac Eluned Jones, Trefor; Nan Owen, Olwen Owen, Moreen Lennon, Vera Griffiths a Gwyneth Parry, Llanberis; Jean Hughes-Jones a Catherine A. Jones, Rhiw; Ceridwen Williams, Eirian Roberts a Huw Tegid Roberts, Llanrug; H. O. Hughes, Pwllheli; Megan Morris, Dinorwig; Olwen Jones, Bethel; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Gareth Oliver, Tregarth; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Enid Jones, Talysarn; Rosemary Williams, Mynydd Llandegai; E. E. Jones, Rhoshirwaun; Alvona Jones, Prestatyn; Pat Owen, Caerfyrddin; G. Gill, Bangor; C. Jones, Conwy; Nansi Davies, Rhuthun a thri arall yn ddi-enw.

Enillydd y mis ydi Huw Tegid Roberts, Arwel, Llanrug LL55 3BA. Llongyfarchiada' a £5i ti. Ar ôl cwblhau croesair Rhagfyr, gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Gwynedd, LL55 3HE erbyn 20 Ionawr 2004.

Atebion Croesair Tachwedd



Os Cweir – Cweir!

Mae rhai canlyniadau ym myd y campau yn brifo – a chefais ddigon ohonynt yn fy ngyrfa bêl-droed a chriced. Rwy'n cofio chwarae i Llechid yn erbyn Llanbêr un tymor a cholli 8–0 a 7–1. Dyna beth oedd brifo! Colli, ond colli fel'na i Llanbêr! Y tymor nesaf mynd yno a'u curo 2–1, ond roedd y canlyniadau blaenorol yn dal i frifo.

Braidd yn swreal felly oedd gwylio'r gêm ddarbi ddiweddar rhwng y Darans a Llanrug ar Faes Padarn. I feddwl fod 10 gôl yn y gêm, un ddiniwed iawn oedd hi. Doedd dim 'cythraul' yno ac mae'n siŵr ei fod wedi brifo nifer o gefnogwyr selog Llanrug i weld eu tîm yn ildio mor hawdd i'r hen elynion. Roedd hi fel gwylio gêm 'shot am gôl' ar brydiau.

Elfen arall – boed yn Neiniolen neu Llanbêr – yw effaith y taflu i mewn. Oherwydd culni'r meysydd, mae unrhyw dafliad o hanner ffordd bron iawn gyfystyr â chic rydd. Yng nghanol y peli hir a'r taflu hir roedd yn braf nodi perfformiad Dafydd Noel Williams, Llanbêr. Mae gan y Cofi yma dipyn o ddawn, ac yn sicr mae'r gallu ganddo i chwarae ar lefel uwch.

Yn yr un modd, trist ar un olwg yw gweld rhai fel Gwyn Peters a Lee Allen (Bethel) yn chwarae ar y lefel yma, a'r ddau wedi chwarae i Gaernarfon yng Nghynghrair Cymru. Os yw datblygiad yn golygu rhywbeth ym myd pêl-droed Cymru, rhaid gofyn pam nad yw nifer o'n chwaraewyr addawol eisiau mentro yn uwch na rhyw 'lefel'. Mae gennym broblem. Os mai 'dim eisiau trafeilio' yw'r esgus, yna gwae ni gwyno fod ein timau sydd yn Nghynghrair Cymru yn llawn o chwaraewyr 'dŵad'.

Yn dilyn y gêm yn Llanberis mae'n ymddangos fod Dafydd Owen wedi ymddiswyddo. Mae hyn yn drist o gofio cyfraniad gwerthfawr Dafydd i glwb Llanrug dros sawl blwyddyn.

Un peth braf oedd y tynnu coes ymysg y cefnogwyr yn ystod y gêm. Gyda llaw, rhaid canmol y sawl sy'n cefnogi'r ddau dîm. Roedd rhaglen y gêm yn nodi mai cyfartaledd torfeydd Llanrug hyd yma yw 91 a Llanberis yn 82, gyda phrif dorf y gynghrair hyd yma yn 170 i weld y gêm gyfatebol yn Llanrug. Mae'r ffigyrau yma i ddau dîm pentref yn cymharu'n ffafriol â rhai o dorfeydd ein cynghrair genedlaethol. Un ystadegyn diddorol arall oedd, hyd at ddiwedd Hydref roedd Llanberis wedi defnyddio 22 o chwaraewyr a Llanrug 30!

O ia! y tynnu coes. Fel roedd un o ddilynwyr Llanrug yn gadael y cae yn bendrist, gwaeddodd ar Arwel a ffyddloniaid y Darans, 'Gwnewch yn fawr ohoni, mae cweir yn eich disgwyl chi yn Rhyl yn y gêm nesaf.' Gwir a ddywedodd – Y Rhyl 8 v Y Locos 0!

Os cweir, cweir! Beth mae'n ddweud am safon y gynghrair tybed?

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Torri Gwair

Mae Eglwys y Bedyddwyr Penuel, Bangor yn gwahodd tendrau ar gyfer torri gwair a chynnal y tir o amgylch y capel at y tymor nesaf.

Am fwy o fanylion ffoniwch **01286 871 654** (ar ôl 6y.h.)

CHWARAEON

Haelioni – Eto!

Tim Jones (garej Beran) yn cyflwyno'r crysau newydd i ddau o amddiffynwyr Bethel – Andrew Davies (chwith) a Jonathan Newell.

Soniwyd droeon yn y colofnau hyn am haelioni noddwyr yr ardal yma. Tro clwb pêl-droed Bethel oedd hi yn ddiweddar a hynny gan noddwyr fu'n hael iawn i sawl clwb yn yr ardal yma. Mae'r clwb yn hynod ddiolchgar i Tim Jones, Garej Beran, am gyflwyno cit newydd iddynt. Gobeithio y bydd y crysau 'aur' yn dod a dipyn o *silverware* i'r clwb ar ddiwedd y tymor.

Uchelgais y clwb fu ennill Cynghrair Arfon, a symud ymlaen i Gynghrair Gwynedd. Maent yn arwain y gynghrair ar hyn o bryd, ac yn sicr yn ffefrynnau. Yn anffodus, collwyd diddordeb yng Nghwpan Iau yr Arfordir pan gollwyd i ffwrdd yn Shotton o 2-1. Roedd y swyddogion o'r farn eu bod wedi wynebu tîm cryf yn 'gynnar' yn y gystadleuaeth eleni. Roedd Shotton yn dîm corfforol penderfynol, ac agwedd tipyn yn 'wahanol' i'r hyn a welir tua'r gorllewin yma. Nid oedd yn helpu'r achos fod y dyfarnwr hefyd yn un o'r ardal honno. Mae hwn yn dueddiad sy'n bodoli ers sawl blwyddyn bellach. Os yw'r gêm rhwng tîm o Wynedd a thîm o'r hen Glwyd, tuedda'r i dyfarnwr fod o Glwyd.

O gofio fod iaith y chwarae yn ffactor yn y gêm, gall rhywun weld anfanteision. Bydd tîm trydydd rownd derfynol o'r bron felly, ond gall y clwb ymfalchïo yn ei ddatblygiad yn ei dair blynedd o fodolaeth. Y mae'r pentref yn sicr ar y map, a hyderwn y cawn weld yn fuan gorcsawu'r tîm adref i'r pentref i chwarae'r gemau.

Un darn o newyddion yw fod Gavin Edwrds wedi dychwelyd i'r clwb o Lanrug. Dylai hyn gryfhau y golofn goliau, ond gan fod Gavin wedi chwarae i Lanrug mewn cynghrair 'uwch', y cwestiwn yw a fydd yn cael chwarae yn yr amrywiol gemau cwpan.

Crysau Newydd Tîm Pêl-droed Llanrug

Tîm Pêl-droed Llanrug yn y crysau newydd a gyflwynwyd iddynt gan London Garage, Cwm y Glo.

Does Dim yn Newid

Daeth dau lythyr i'r tŷ 'cw yr un diwrnod yn ddiweddar, a'r ddau i'r un perwyl. Y cyntaf oedd cofnodion Pwyllgor Cynghrair Criced y Gogledd. Siomedig iawn oedd y cyfeiriadau at ddirywiad yn yr ymddygiad ar y cae. Roedd yn amrywio o fygwth geiriol i fygwth corfforol. Roedd yn sôn am awyrgylch aflednais yn ystod gêm.

Cawn yr un gŵyn yn aml ym myd y bêl gron – o lefel lleol i sêr yr uwch gynghrair. Onid yw hi'n amser i gyfarwyddwyr gemau ar y teledu beidio dangos y lluniau ble mae chwaraewr/chwaraewyr yn amlwg yn bygwth dyfarnwyr gyda rhegfeydd. Cofiwch mai un o nifer o 'luniau ar y pryd' yw'r llun a welwch chi'n fyw ar eich sgrin. Dewis y cyfarwyddwr yw pa un i'w ddangos. Ond eto, does dim byd yn newydd.

* * *

Yr oedd yr ail lythyr yn 'hanes pur'. Danfonwyd ef i mi gan Cecil Jones, Conwy erbyn hyn, ond yn un o hogiau Llanbêr. Yn ei lythyr mae'n cyfeirio at nifer o achlysuron hwyliog ei gyfnod fel un o'r Darans. Cyfeiria at Len Corrie yn dweud wrtho fod Llanberis wedi cael Meccanno Utd. i ffwrdd yn y Junior Cup. Mae Cecil yn mynd ymlaen i egluro nad tîm ffatri o Lannau Dyfrdwy oedden nhw, ond Machno Utd! Gyda llaw collodd Llanberis 5–4, ar ôl bod 4–0 ar y blaen.

Lle anodd fu Machno i fynd iddo. Yn y gêm honno ar gae mwdlyd iawn, cofia Cecil i Gwynfryn 'ddeifio' y ffordd anghywir wrth geisio arbed cic gosb, a dal llyffant – nid y bêl! Roedd honno yng nghornel arall y rhwyd!

Awr fawr Gareth Hughes (Bingo) wedyn: cael ei wneud yn gapten am gêm ar yr Oval a thipyn o dorf yno, er mai gêm ieuenctid oedd hi. Roedd Gareth wedi arwain y tîm i ganol y cae heb sylwi fod y chwaraewyr i gyd wedi aros yn y twnnel, a'i adael o yno ar ben ei hun. Gruffydd Eirwyn gafodd y bai am y tric yna!

Ond trysor ei lythyr oedd cyfeiriad at gêm danllyd rhwng Llanberis a thîm Penrhos (Bangor), ar 28 Hydref 1961. Penrhos enillodd y gêm o 4–0 ond roedd yn rhaid i'r dyfarnwr, E. A. Smith o Môr Vista, Ceunant, Llanrug roddi *caution* i dri o chwaraewyr Llanberis. Y trysor y cyfeiriais ato yw fod Cecil wedi danfon i mi adroddiad swyddogol y dyfarnwr – ie, y llythyr gwreiddiol – a anfonwyd at Herbert Powell, Hon.Sec. F.A. Wales! Meddyliwch, derbyn llythyr, 42 mlwydd oed, mewn cyflwr rhagorol.

Gyda llaw, y *cautions* yn iaith fain yr adroddiad oedd, Eric Edwards (Pickles) Llanberis am *Dissent* wedi ail gôl Penrhos. Yna Cecil ei hun ac M. Edwards (Penrhos) *'for threatening to fight'*. Yr olaf oedd Billy Halliday (Llanberis) *'for retaliating to an opponent after an unseen incident'*. Meddyliwch am yr hwyl mewn cyfarfod disgyblu heddiw gan mai *'unseen incident'* oedd hi.

Cyfeiria'r dyfarnwr at ddigwyddiad hanner amser a'i fygwth gan gefnogwyr Llanberis, yn wir *'I was grasped by a tall man about 54 years of age, who went on to threaten my life.'* Yr oedd yr ail hanner yn dawelach, *'in fact, uneventful, due to the arrival of a policeman'*. (Buasai'n anodd darganfod un ar bnawn Sadwrn heddiw yn sicr!)

Yng nghanol y miri mae'r dyfarnwr yn canmol ymddygiad *'the Llanberis captain, who was very helpful'*. Bobby Haines oedd y capten, ac yn ei lythyr mae Cecil yn cyfeirio at Bobby fel, 'y seining pwysica i Lal Jones wneud i Lanbêr, oherwydd y modd y datblygodd nifer o chwaraewyr ieuanc y cyfnod'. Dyma'r unig ran o lythyr y dyfarnwr roedd Cecil yn cytuno ag ef!

Ond nid dyna'r diwedd. Ar ddiwedd y gêm, mwy o fygythiadau gan gefnogwyr Llanberis: *'I would be foolish to come to Llanberis to referee'*, ac yna yn olaf, *'the front tyre of my car had been deflated'*.

Fandaliaeth ynteu hen dynnu coes hogia'r wlad. Pwy a ŵyr!

Diolch i Cecil am y llythyr hynod yma a wnaeth i mi chwerthin o'i ddarllen. Diddorol, fel John Rich y mis diwethaf, geiriau olaf llythyr Cecil oedd, 'Roeddwn yn falch o fod yn un o'r Darans.'

Gwobrwyo Cyfraniad

Yn ystod egwyl hanner amser y gêm ddarbi yn Llanberis cyflwynwyd tystysgrif, ar ran Cymdeithas Bêl-droed Cymru, i'r dyfarnwr lleol, Huwi Davies. Er bod y dystysgrif yn nodi 30 mlynedd o wasanaeth, bu Huw yn gwisgo'r 'dillad du' am dros 40 mlynedd.

Wedi gorffen chwarae'r gêm yn 1958, aeth yn ddyn y bîb, a hynny mewn cyfnod pan oedd pêl-droed y gogledd o safon uchel iawn ac yn llawn cymeriadau. Cyfnod hefyd o dorfeydd mawr a theyrngarwch i'r tîmau lleol. O gofio'r holl achwyn a ddaw o gyfeiriad nifer at y dyfarnwyr rhaid diolch – a llongyfarch Huwi – am ei gyfraniad. Ar ddiwedd y dydd, beth bynnag yw ein barn, heb y reff nid oes gennym gêm. A fuasech chi'n fodlon gwneud y swydd – mae digon o alw.